


# CYNLLUN
# LLESIANT CASNEWYDD 2018-23

## Adroddiad Blynyddol 2021-22




cineworld
KFC



## RHAGAIR

Mae'n bleser gennym gyflwyno'r pedwerydd adroddiad blynyddol hwn am gynnydd Casnewydd yn Un yn ystod 2021-22, wrth gyflawni amrywiaeth o waith sy'n dangos ein ffocws a'n huchelgais cyffredin o ran gwella lles ein cymunedau. Credwn fod yr enghreifftiau wedi'u cynnwys yn dangos bod ein rhaglen waith a'n dull gweithredu yn adlewyrchu egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol; a'n cred y bydd sector cyhoeddus cydlynol sy'n gweithio'n agos gyda'n dinasyddion, y trydydd sector a'r gymuned fusnes yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'n Dinas. Yn y rhagair byr hwn, ni allem drafod yr holl waith cadarnhaol sydd ar y gweill, ond roeddem am dynnu sylw at rai prosiectau nodedig, sy'n crisialu ein cyfraniad at agenda Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Rydym am i bawb deimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi. Er gwaethaf effaith Covid-19 ar y diwydiant adeiladu, mae'r broses o wella canol ein dinas yn parhau i symud ymlaen gyda'r gwaith o adfywio adeiladau nodedig, sy'n cynnwys cwblhau'r gwesty newydd yn hen Dŵr y Siartwyr, ailddatblygu'r farchnad dan do ac adnewyddu Arcêd y Farchnad. Mae swyddfeydd newydd wedi'u hagor yn Mill Street a chânt eu cysylltu â chanol y ddinas gan bont droed teithio llesol newydd. Agorwyd canolfan busnes digidol newydd yn yr hen orsaf reilffordd a fydd yn gweithio ochr yn ochr â'r Academi Meddalwedd Genedlaethol sydd eisoes wedi'i lleoli yn yr adeilad. Mae tai newydd, seilwaith gwyrdd a mannau agored cyhoeddus yn rhoi bywyd newydd i dir gwag fel rhan o gynnig cynaliadwy, bywiog a deniadol yng nghanol y ddinas. Cafodd dyfodol canol y ddinas hwb enfawr hefyd gydag arian wedi'i gael ar gyfer cyfleuster chwaraeon a hamdden nodedig newydd ynghyd â chynigion ar gyfer campws canolog newydd i Goleg Gwent. Cydnabuwyd y cynnydd a wnaed yng nghanol ein dinas, drwy weithio mewn partneriaeth, drwy gyflawni statws y Faner Borffor sy'n rhoi'r sicrwydd bod economi nos Casnewydd yn ddiogel, yn amrywiol ac yn ddeniadol.

I barhau'n ddinas gystadleuol a ffyniannus, mae angen i'n pobl fod â'r sgiliau a'r cyfleoedd i ffynnu a chreu cyfoeth. Yn ystod 2020-21, cynhaliodd partneriaid Casnewydd yn Un fentrau i hyrwyddo gyrfaoedd yn y diwydiant digidol a'r diwydiant ffilm a theledu, y ddau ohonynt yn sectorau twf yn ne Cymru. Cynhaliwyd cyfres o ddigwyddiadau gyrfaoedd mewn ysgolion a lleoliadau cyhoeddus eraill, mewn partneriaeth â chyflogwyr lleol, gan hyrwyddo gyrfaoedd mewn sectorau sy'n tyfu. Mae gwaith ar y Fframwaith Atal ac Ymgysylltu Ieuenctid yn parhau i atal pobl ifanc rhag peidio â bod mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant, a all effeithio am gyfnod hir ar eu cyfleoedd bywyd a'u lles.

Mae Casnewydd yn Un yn credu bod angen lleoedd iach a diogel sydd wedi'u cysylltu'n dda ar bobl. Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai o'r prosiectau cyffrous a arweinir gan y gymuned, o bob rhan o'r ddinas, sy'n gwella, ac yn diogelu bioamrywiaeth ac yn creu mannau gwyrdd a diogel newydd i bobl eu mwynhau. Mae'r rhain wedi profi'n hanfodol bwysig yn ystod y pandemig ar adeg lle'r oedd llawer ohonom yn dechrau gwerthfawrogi'r mannau awyr agored yn ein hardaloedd eto wrth ymarfer corff a chymdeithasu. Mae camau i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur wedi'u nodi mewn Cynllun Ynni Ardal Leol ac maent yn cael eu hategu gan hyfforddiant llythrennedd carbon, buddsoddiadau mewn seilwaith gwyrdd a gwaith adfer cynefinoedd.

Dangosodd pandemig Covid-19 fod gennym alluoedd, talent a gwydnwch aruthrol o fewn ein cymunedau. Mae llawer o enghreifftiau o ddinasyddion yn camu i'r adwy, yn cydweithio ac yn gwneud gwahaniaeth i fywydau pobl ac mae angen i ni gynnal a chefnogi'r 'cyfalaf cymdeithasol' hwn. Wrth wneud hynny, cynhaliodd sefydliadau partner Casnewydd yn Un eu hail raglen gyllidebu cyfranogol gydag ymhell dros gant o grwpiau yn ceisio cael £400,000 a bron 500 o ddinasyddion 'yn cael dweud eu dweud' o ran sut y dylid gwario arian cyhoeddus. Mae llwyddiant y rhaglenni hyn wedi arwain at fuddsoddiadau pellach mewn cyllidebu cyfranogol gan y Cyngor a'r Bwrdd Iechyd, a fydd yn cryfhau cyfranogiad y cyhoedd, yn sbarduno prosiectau newydd ac yn gwella lles ein cymunedau. Mae egwyddorion cyfranogiad dinasyddion a chyfalaf cymdeithasol hefyd yn ganolog i'r gwaith ar Uwchgynllun Pilgwenlli sy'n dod â rhanddeiliaid lleol ynghyd i

adfywio un o'n cymunedau mwy difreintiedig. Mae rhaglen adfywio fawr hefyd ar y gweill yn Ringland, gan greu tai o safon uchel, canolfan iechyd cymunedol newydd a chyfleusterau siopa modern. Mae Rhwydweithiau Lles Integredig hefyd ar waith ym Mhilgwenlli a Ringland gan hyrwyddo lles ac atal salwch. Ym Metws, mae rhaglen beilot blynyddoedd cynnar wedi bod yn integreiddio gwasanaethau i gefnogi teuluoedd yn well, gan roi'r dechrau gorau posib i blant mewn bywyd a datblygu dull newydd ar gyfer gweddill y ddinas.

Yn ystod 2021-22, sefydlwyd Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (BGC) newydd ar gyfer Gwent, a fydd yn creu cyfleoedd newydd ar gyfer cydweithio rhanbarthol, a chynllunio strategol. Bydd Casnewydd yn Un yn cael ei chynrychioli ar BGC Gwent a bydd yn sicrhau bod Casnewydd yn cael y ffocws a'r ystyriaeth y mae'n ei haeddu drwy Gynllun Lles Gwent fel dinas y rhanbarth. Yn y cyfamser, mae Casnewydd yn Un wedi parhau i weithio ar ein cynllun lles lleol ac i sicrhau llywodraethu lleol ochr yn ochr â'r trefniadau rhanbarthol newydd. Wrth symud ymlaen, byddwn yn parhau fel partneriaeth gref, gan gydweithio ar brosiectau allweddol a fydd yn gwneud gwahaniaeth yn ein dinas.

Er ein bod yn parhau i wneud cynnydd da, gyda'r argyfwng costau byw a'r pandemig diweddar, rydym yn byw mewn cyfnod heriol ac mae Casnewydd yn Un wedi ymrwymo i arwain, i hyrwyddo adferiad ac i wella lles. Rydym yn gwrando ar ein trigolion, yn cynrychioli buddiannau Casnewydd, ac yn parhau i fod yn ymwybodol o'r ffaith bod yn rhaid i'n camau nawr sicrhau'r canlyniadau gorau ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod.

Ein gobaith yw eich bod chi, wrth ddarllen yr adroddiad hwn, mor gadarnhaol â ni am y llu o bethau sy'n digwydd yng Nghasnewydd. Rydym yn croesawu eich barn ac yn gobeithio y byddwch yn rhannu'r adroddiad hwn â'ch cydweithwyr a'ch cysylltiadau.



**Y Cynghorydd Jane Mudd**

Cadeirydd Casnewydd yn Un ac Arweinydd Cyngor Dinas Casnewydd



**Guy Lacey**

Dirprwy Gadeirydd, Casnewydd yn Un a Phennaeth / Prif Weithredwr Coleg Gwent

# TABL CYNNWYS

Rhagair

Pennod 1: CEFNDIR

Cyflwyniad

Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent?

Beth yw Casnewydd yn Un?

Beth yw'r Cynllun Lles Lleol?

Pennod 2: Y CYNLLUN

Cynllun Lles Casnewydd yn Un

Ein Hamcanion Lles

Strwythur Cynllun Lles Lleol Casnewydd yn Un

Pennod 3: CYNNYDD AR AMCAN

Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi

Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu, ffynnu a chyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy

Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles

Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig

Pennod 4: HUNANFYFYRIO

Symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol (BGC)

Sesiwn Datblygu Bwrdd

Datblygu Cynllun Llesiant newydd i Went a Chynllun Gweithredu Lleol Casnewydd

Pennod 5: PERFFORMIAD, LLYWODRAETHU AC ATEBOLRWYDD

Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad

Mesur Cynnydd

Atebolrwydd

Rhagor o wybodaeth

## Cyflwyniad

Dyma bedwerydd Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles Lleol Casnewydd 2018-23, sy'n trafod gwaith y bartneriaeth rhwng Ebrill 2021 a Mawrth 2022, ynghyd ag unrhyw ddiweddariadau ychwanegol o Ebrill i Fehefin 2022. Mae'n dilyn y trydydd adroddiad blynyddol, a gyhoeddwyd ar 29 Hydref 2021.

Caiff yr Adroddiad Blynyddol ei greu ar ôl gweithredu'r Cynllun Lles yn ei flwyddyn gyntaf ac ar gyfer pob blwyddyn wedyn. Mae'r trosolwg hwn yn cynnig cyfle i Casnewydd yn Un (Grŵp Cyflawni Lleol) ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) Gwent adolygu cynnydd yn erbyn pob un o'n pedwar amcan lles gan nodi meysydd arfer da trwy ddefnyddio'r fframwaith canlynol:

- Disgrifiad o'r astudiaeth achos / enghraifft
- Pa un/pa rai o'r ymyriadau a'r nodau lles y mae hyn yn berthnasol iddo/iddynt?
- Sut cafodd y 5 Ffordd o Weithio eu defnyddio?
- Pa fesurau perfformiad a ddefnyddiwyd i ddangos cynnydd?
- Cynlluniau ar gyfer y dyfodol

Gyda'r adroddiad blaenorol wedi ei gyhoeddi ddiwedd Hydref 2021, cytunwyd i barhau i ohirio'r cyhoeddi tan ddiwedd Medi 2022 yn hytrach na dychwelyd i gyhoeddi ar ddechrau Gorffennaf 2022 yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ei nod yw sicrhau bod y cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn fwy ystyriol o'r hirdymor, yn gweithio'n well gyda phobl a chymunedau a gyda'i gilydd, wrth geisio atal problemau a mabwysiadu ymagwedd fwy cyfunol.

Mae'r Ddeddf yn nodi "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut mae cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf yn mynd ati i gyflawni eu dyletswydd lles dan y Ddeddf. Mae'r egwyddor yn cynnwys pum modd o weithio y mae angen i gyrff cyhoeddus dalu sylw iddynt wrth weithredu datblygu cynaliadwy.




Mae'r Ddeddf yn nodi saith nod lles sy'n cynnig gyda'i gilydd weledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf i weithio tuag ati. Mae'n rhaid i'r nodau hyn gael eu hystyried fel set integredig o saith er mwyn sicrhau y caiff y cysylltiadau perthnasol eu gwneud yng nghyd-destun gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Yn ogystal â'r ddyletswydd lles a roddir ar y cyrff cyhoeddus a restrir ar wahân, mae'r Ddeddf hefyd yn gosod dyletswydd lles ar gyrff cyhoeddus penodol i weithio ar y cyd drwy fyrddau gwasanaethau cyhoeddus gan gyfrannu at y gwaith o gyflawni'r nodau lles.



## Beth yw Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent?

Mae BGC Gwent yn dod â chyrff cyhoeddus ynghyd i weithio i wella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Gwent. Maen nhw'n gyfrifol, o dan Ddeddf LlCD, am oruchwylio datblygiad Cynllun Lles Lleol newydd sy'n weledigaeth hirdymor ar gyfer yr ardal.

Mae gan y bwrdd wyth aelod-sefydliad statudol sy'n gyfrifol am gyflawni eu dyletswyddau lles o dan y Ddeddf, gan gynnwys y pum awdurdod lleol ar draws Gwent; Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan; Cyfoeth Naturiol Cymru; a Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru.

Gall y BGC hefyd wahodd cyrff eraill sy'n rhannu eu nodau ac sy'n gallu helpu i gyflwyno'r Cynllun Lles Lleol. Aelodau eraill BGC Gwent yw: GAVO; Heddlu Gwent; Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol; Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent; Iechyd Cyhoeddus Cymru; Tai Calon (yn cynrychioli Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig); Cynghrair Gwirfoddol Torfaen; Prifysgol De Cymru; a Gweinidogion Cymru.

Cafodd y pum BGC yng Ngwent eu diddymu ar 1 Hydref 2021, o blaid uno i ffurfio BGC Gwent. Mae'r Cynlluniau Lles presennol ar gyfer pob un o'r ardaloedd awdurdod lleol yn dal i gael eu cynnal tan fis Mai 2023, gyda Grwpiau Cyflawni Lleol yn sicrhau y dylid parhau i gyflawni'r cynlluniau hyn.

## Beth yw Casnewydd yn Un?

Mae'r pum bwrdd gwasanaethau cyhoeddus blaenorol yng Ngwent, gan gynnwys Casnewydd yn Un, a oedd yn gweithredu yn ôl troed yr awdurdodau lleol bellach yn "Grwpiau Cyflawni Lleol" ar gyfer BGC Gwent. Prif dasgau Casnewydd yn Un yw:

- Parhau i gyflawni ac adrodd ar y Cynllun Lles Lleol i Gasnewydd tan fis Ebrill 2023.
- Cyflawni blaenoriaethau lleol yng Nghynllun Lles Gwent yn y dyfodol; a chyfrannu at brosiectau rhanbarthol.
- Darparu adroddiadau diweddaru i BGC Gwent a chyfrannu at yr adroddiad blynyddol.
- Adrodd i Bwyllgorau Craffu lleol a rhanbarthol.

Mae Casnewydd yn Un wedi cytuno ar ei swyddogaethau ychwanegol, sef:

- Datblygu a chyflawni gweithgarwch yng Nghasnewydd a fyddai'n elwa o ymagwedd bartneriaeth gref.
- Derbyn adroddiadau gan, hysbysu a chefnogi gwaith y Bartneriaeth Diogelwch Cymunedol statudol ar gyfer Casnewydd, "Casnewydd Ddiogelach".

Dyma'r aelodau:

| | |
|---|---|
| Cyngor Dinas Casnewydd | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan | Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru |
| Gwasanaethau Prawf | Coleg Gwent |
| Prifysgol De Cymru | Iechyd Cyhoeddus Cymru |
| Heddlu Gwent | Casnewydd Byw yn cynrychioli'r sector diwylliant |
| Partneriaeth Trydydd Sector Casnewydd | Cyngor Ieuenctid Casnewydd |
| Cymdeithas Sefydliadau Gwirfoddol Gwent | Comisiynydd Heddlu a Throseddu Gwent |
| Cartrefi Dinas Caerdydd yn cynrychioli'r landlordiaid cymdeithasol cofrestredig | |

## Beth yw'r Cynllun Lles Lleol?

Cafodd y cynllun lles lleol pum mlynedd ei gyhoeddi ar 3 Mai 2018 ac mae'n nodi blaenoriaethau a chamau gweithredu'r Byrddau Gwasanaeth Cyhoeddus blaenorol hyd at 2023 o ran gwella lles economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Casnewydd. Mae'r cynllun yn nodi amcanion, blaenoriaethau a chamau lles lleol y mae'r bwrdd yn cynnig eu cymryd er mwyn bodloni'r amcanion a dyma'r prif gynllun gwaith a chanolbwynt Casnewydd yn Un.

## Cynllun Lles Casnewydd yn Un

Wrth ddatblygu'r cynllun, fe wnaethom ddefnyddio'r Proffiliau Lles Cymunedol a grëwyd yn ystod asesiad o les lleol. Sylwer fod BGC Gwent wedi datblygu asesiad lles newydd yn ddiweddar, sy'n cael ei ddefnyddio i helpu i gynhyrchu'r Cynllun Lles nesaf ar gyfer y rhanbarth.

Fe wnaeth y proffiliau blaenorol alluogi i aelodau Casnewydd yn Un weithio gyda phartneriaid eraill a gweithwyr proffesiynol i gytuno ar 13 blaenoriaeth i greu sylfaen y cynllun, sef:

*Lles Economaidd*

1. *Gwella canfyddiadau o Gasnewydd fel lle i fyw, gweithio, buddsoddi ynddo ac ymweld ag ef*
2. *Cynyddu lefel y sgiliau ar gyfer lles economaidd a chymdeithasol*
3. *Cefnogi adfywio a thwf economaidd*

*Lles Cymdeithasol*

4. *Darparu'r dechrau gorau posibl mewn bywyd i blant a phobl ifanc*
5. *Bywydau hir ac iach i bawb*
6. *Sicrhau bod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu cymunedau*
7. *Mae pobl yn gallu manteisio ar gartrefi sefydlog mewn cymuned gynaliadwy a chefnogol*

*Lles Diwylliannol*

8. *Mae pobl yn teimlo'n rhan o'u cymuned ac yn teimlo eu bod yn perthyn*
9. *Mae cymryd rhan mewn chwaraeon a gweithgareddau corfforol yn bwysig i les pobl*
10. *Mae cymryd rhan mewn gweithgareddau celf, treftadaeth a hanes yn bwysig i les pobl*

*Lles Amgylcheddol*

11. *Mae gan Gasnewydd amgylchedd glân a diogel i bobl ei ddefnyddio a'i fwynhau*
12. *Gwella ansawdd aer ar draws y ddinas*
13. *Mae cymunedau yn gwrthsefyll newid yn yr hinsawdd*

## Ein Hamcanion Lles

Roedd angen i'r cynllun lles osod amcanion lles lleol yn ogystal â'r camau a gynigiom i gyrraedd yr amcanion. Yn unol â'r pum modd o weithio, datblygwyd pedwar amcan lles sy'n cyflawni yn erbyn nodau lles lluosog ac sy'n cwmpasu y tair blaenoriaeth ar ddeg a nodwyd.

Yr amcanion lles gwreiddiol a gytunwyd gan Casnewydd yn Un oedd:

1. *Mae pobl yn teimlo'n gadarnhaol am fyw, gweithio, buddsoddi yng Nghasnewydd ac ymweld â hi*
2. *Mae gan bobl sgiliau a chyfleoedd i ddod o hyd i waith addas a chyfrannu at dwf economaidd cynaliadwy*
3. *Mae pobl a chymunedau yn gyfeillgar, hyderus ac wedi eu grymuso i wella eu lles*
4. *Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn*

Ar 8 Rhagfyr 2020, cytunodd Casnewydd yn Un i gyfres o amcanion lles diwygiedig, sydd fel a ganlyn:

1. *Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi*
2. *Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy*
3. *Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles*
4. *Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig*

Wrth edrych ar y blaenoriaethau, yn hytrach na'u rhesymoli, nodom bum ymyriad trawsgysylltiol a fyddai'n cwmpasu'r blaenoriaethau hyn ac yn sicrhau'r cyfraniad gorau posibl tuag at y Nodau a'r Amcanion Lles. Yr ymyriadau a ddewiswyd oedd:

- *"Cynnig" Casnewydd*
- *Cymunedau Cryf a Gwydn*
- *Sgiliau Cywir*
- *Mannau Gwyrdd a Diogel*
- *Teithio Cynaliadwy*

Ceir manylion ar y cynnydd yn erbyn pob ymyriad yn y bennod nesaf.

## Strwythur Cynllun Lles Lleol Casnewydd yn Un

Mae'r strwythur hwn yn dangos sut mae'r nodau, amcanion, blaenoriaethau ac ymyriadau yn gysylltiedig.

### Nodau Lles

| Cymru lewyrchus | Cymru gydnerth | Cymru iachach | Cymru fwy cyfartal | Cymru o gymunedau cydlynus | Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu | Cymru sy'n gyfrifol ar lefel byd-eang |
|---|---|---|---|---|---|---|

### Amcanion Lles

| Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi | Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu a ffynnu ac i gyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy | Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles | Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig |
|---|---|---|---|

### Blaenoriaethau

| Economaidd | | | Cymdeithasol | | | | Diwylliannol | | | Amgylcheddol | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 6 | 7 | 8 | 9 | 10 | 11 | 12 | 13 |


### Ymyriadau Integredig


| "Cynnig" Casnewydd | Cymunedau Cryf a Gwydn | Sgiliau Cywir | Mannau Gwyrdd a Diogel | Teithio Cynaliadwy |
|---|---|---|---|---|

# Mae pawb yn teimlo'n dda am fyw, gweithio a buddsoddi yn ein dinas unigryw, ac am ymweld â hi

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2021-22, mae nifer o astudiaethau achos wedi'u hamlinellu isod. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Llesiant y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Adfywio Canol y Ddinas




Wrth i Gymru a'r DU ehangach addasu i 'normal newydd' y cyfnod wedi'r pandemig, felly hefyd mae Casnewydd ac anghenion ei chymuned fusnes. Mae newid arferion gweithio gweithwyr; natur newidiol y ffordd y mae cwsmeriaid yn ymgysylltu â siopa mewn adeiladau go iawn; a'r twf yn y sector technoleg a digidol i gyd yn golygu bod angen i Ganol y Ddinas addasu i ddiwallu anghenion newydd ac amrywiol ei ddefnyddwyr. Yng nghanol y newid hwn - a'r her y mae'n ei chyflwyno wrth ddenu buddsoddiad i ymateb - bu llwyddiant sylweddol wrth gyflwyno Uwchgynllun Canol y Ddinas.


Agorodd Gwesty Tŵr y Siartwyr Mercure ym mis Mawrth 2022 gan ddod â phrofiad 4 seren o safon uchel i galon Casnewydd. Gan ddarparu 135 o ystafelloedd, man cyfarfod, bar / bwyty a theras ar y to sy'n edrych dros y ddinas o'i adeilad talaf, mae penllanw'r prosiect £17m hwn yn brawf corfforol o allu'r ddinas i ddenu tenantiaid gydag enw da a gwerth sylweddol.






Bydd effaith cyflwyno'r prosiect hwn – yn enwedig yn sgil pandemig Covid-19 – yn ysgogi buddsoddiad pellach ar draws y ddinas wrth i gynnig cynhwysfawr Casnewydd fel lleoliad dros nos ddechrau ffurfio.

Cwblhawyd ailddatblygiad gwerth £8m Marchnad Dan Do'r ddinas ym mis Mawrth hefyd, gan gynnig dros 30 o fasnachwyr. Mae prosiect adfywio marchnad dan do fwyaf Ewrop, a'r bwyd a diod sydd ar gynnig i'r ddinas, yn atgyfnerthu'r naratif y gall Casnewydd gynnal a darparu i fusnesau'r nifer ymwelwyr a'r gwariant sydd eu hangen arnynt i'w gwneud hi'n hyfyw iddynt agor yn y ddinas.



Ochr yn ochr â'r cynnig hwn i ddefnyddwyr ar y llawr gwaelod, a chyflwyno gofod cyd-weithio newydd yn yr hen Orsaf Wybodaeth, mae Tramshed Tech eisoes wedi ehangu eu hôl troed yng Nghasnewydd ar ôl cymryd gofod ychwanegol ar lawr uchaf Marchnad Casnewydd. Bydd y presenoldeb hwn yn helpu i feithrin sector technoleg newydd gwerth uchel ac uchelgais 'dinas data' y Ddinas, tra'n ysgogi rhagor o ymwelwyr i'r farchnad. Gyda'i gilydd, bydd y defnydd amrywiol hwn yn annog pobl ymhellach i gymryd lle masnachol gerllaw.

Gellir gweld tystiolaeth fod y buddsoddiad hwn eisoes yn ysgogi dilyniant prosiectau eraill ar draws y ddinas. Sicrhawyd ymrwymiad o £20m ar gyfer datblygu a darparu canolfan hamdden a lles newydd o'r radd flaenaf a neuadd bŵl. Bydd disodli Canolfan Casnewydd gyda chyfleusterau newydd, modern yn sicrhau y gall y ddinas ddiwallu anghenion ei demograffeg newidiol; ond dylid ystyried yr ymrwymiad ariannol hwn hefyd fel ffordd o adfywio'r ddinas yn ehangach.



Bydd y bwriad i adleoli Coleg Gwent i mewn i Graidd y Ddinas a'r drws nesaf i gampws Casnewydd Prifysgol De Cymru – yn canoli'r gwasanaethau craidd y mae ymwelwyr â'r ddinas bellach yn chwilio amdanynt. Bydd y sefydliadau hyn hefyd yn gwarantu ymwelwyr, a chyda canolfan hamdden wedi'i hadnewyddu i fynd law yn llaw â nhw, byddant yn cadarnhau ymhellach naratif dinas sydd â photensial buddsoddi hyfyw.



Yn ogystal, mae gwaith yn parhau ar adnewyddu Arcêd Marchnad Fictoraidd y ddinas, gyda'r Cyngor yn gweithio gyda pherchnogion a deiliaid ar ddarparu gwaith adnewyddu i'r tu fewn i siopau.

MARKET ARCADE
NEWPORT
CASNEWYDD
ARCÈD MARCHNAD

Mae'r cynllun gweithgaredd ar gyfer y prosiect yn parhau, ac mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau bod y dramwyfa hon rhwng Craidd y Ddinas a Gorsaf Reilffordd Casnewydd yn borth i bobl y ddinas nid yn unig i gerdded trwyddi, ond i dreulio amser y tu fewn iddi a defnyddio ei harlwy busnes.

Yng nghanol y gwaith o gyflwyno rhaglen adfywio'r ddinas yn llwyddiannus, mae Cyngor Dinas Casnewydd hefyd wedi parhau i ddarparu cyllid grant i fusnesau'r ddinas, mewn ymdrech i ysgogi creu swyddi ymhellach a buddsoddi pellach i sicrhau cynaliadwyedd. Cynigiwyd y cynllun grant hwn ledled y ddinas, ond cynigiwyd codiad ychwanegol i'r rhai sydd o fewn ffin canol y ddinas ac o ganlyniad ymgeisiodd nifer o fusnesau'r Stryd Fawr. Roedd y diddordeb yn y cynllun yn sylweddol, ac mewn nifer o achosion mae cyllid grant wedi galluogi nifer o berchnogion busnesau bach newydd i droi eu dyheadau'n realiti.

Mae Canol y Ddinas yn parhau i fod yn lle y bydd mwy a mwy o bobl yn byw yn ogystal â gweithio ynddo. Daeth cartrefi newydd ar gael yn 2021 trwy ailddatblygu Tŷ Olympia yn ganolfan fodern o 60 o fflatiau, gan ddarparu cartrefi ynghanol y ddinas i bobl sy'n awyddus i fod yn berchen ar eiddo.





Dechreuodd Cartrefi Dinas Casnewydd hefyd brosiectau i ddarparu 18 o fflatiau newydd yn Upper Dock Street, 36 o fflatiau ar Stow Hill a 20 o fflatiau yn Griffin Island ar Skinner Street i sicrhau amrywiaeth o ddaliadaeth ynghanoly ddinas.  Cynigiodd y datblygiadau hyn brentisiaethau a chyfleoedd gwaith i bobl leol o fewn y sector adeiladu.

Wrth edrych ymlaen, mae Llywodraeth y DU - drwy weinyddu eu polisi Codi'r Gwastad – wedi darparu nifer o ffynonellau cyllido i alluogi adfywiad a buddsoddiad lleol i ddigwydd.  Ochr yn ochr â rhaglen bresennol Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru – sydd eisoes wedi galluogi Casnewydd i ddechrau ar nifer o fentrau adfywio – mae nifer o gyfleoedd ar gyfer adfywio pellach ar y gweill.  Yng ngoleuni'r llwyddiannau a gyflwynwyd hyd at yma, bydd gwaith pellach yn adeiladu ar lwyfan ‘creu balchder mewn lleoliad’ ymhlith y rhai sy'n byw, gweithio a buddsoddi yn y ddinas ac yn ymweld â hi.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gan y gwaith o adfywio Canol y Ddinas amserlen **hirdymor** sy’n canolbwyntio ar brosiectau a fydd yn llywio perfformiad a chynaliadwyedd canol y ddinas yn y dyfodol, yn ogystal â gwella bywiogrwydd y lle yn y tymor byr a’r tymor canolig.  Mae amrywio'r cynnig economaidd a defnyddiau cyffredin yn gysylltiedig yn ei hanfod â chefnogi cynaliadwyedd economaidd hirdymor canol y ddinas.

Canlyniad allweddol yw **atal** dirywiad yng nghanol y ddinas o ran ei fywiogrwydd ond hefyd, ei dreftadaeth bensaernïol drwy roi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl gan eu bod yn wag ac yn adfeiliedig.  Yn sgil y pandemig, os gellir defnyddio'r adeiladau hyn i dyfu a chynnal ecosystem o fusnesau newydd, yna gellir lliniaru risgiau sy'n ymwneud â diweithdra ac anfantais economaidd hefyd.  Mae’r gwaith o adfywio canol y ddinas yn rhan o Uwchgynllun Canol y Ddinas.

Mae'r gwaith yn rhan o ymyriad Cynnig Casnewydd ond wedi’i **integreiddio**’n agos ag ymyriadau eraill a'r Amcanion Llesiant cyffredinol drwy greu cyfleoedd ar gyfer cyflogaeth, hyfforddiant a datblygu sgiliau, drwy gefnogi cymuned gadarn yng nghanol y ddinas, drwy gynnwys defnydd o fannau agored diogel a chynnwys opsiynau ar gyfer teithio llesol a mwy cynaliadwy.

Mae'r gwaith o gyflawni prosiectau adfywio a chynnal a chadw canol dinas deniadol, croesawgar a diogel wedi dibynnu ar **gydweithio** rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus ond hefyd cydweithio helaeth â chymuned fusnes canol y ddinas, y sector gwirfoddol, a datblygwyr a buddsoddwyr y sector preifat sy'n gweithio o fewn fframwaith uwchgynllun hirdymor.


Mae prosiectau adfywio wedi **cynnwys** partneriaethau lleol gan gynnwys Casnewydd Nawr, Ardal Gwella Busnes canol y ddinas, treftadaeth, ysgolion a grwpiau cymunedol, ac adborth gan ddefnyddwyr gwasanaethau.  Mae prosiectau wedi annog y cyhoedd i gymryd rhan uniongyrchol yn y gwaith o rannu atgofion, dysgu am hanes y ddinas a hefyd, yn achos prosiect Arcêd y Farchnad, cyfrannu gyda’u creadigrwydd eu hunain.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd partneriaid yn parhau i gydweithio i sicrhau bod gan ganol y ddinas gynnig deniadol fel lle i weithio, astudio, byw a buddsoddi ac ymweld ag ef.  Bydd gwaith ar draws ein hymyriadau yn cyfrannu at adfywio canol y ddinas a byddwn yn ystyried Siarter Creu Lleoedd Cymru wrth gyflawni hyn.  Byddwn hefyd yn parhau i weithio mewn partneriaeth â buddsoddwyr a busnesau yn y sector preifat ar gyflawni prosiectau blaenllaw trawsnewidiol.

## Mannau a Lleoliadau Cymunedol Canol y Ddinas

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae partneriaid Casnewydd yn Un wedi cefnogi nifer o brosiectau sydd wedi arwain at greu gofodau a lleoliadau cymunedol newydd yng nghanol y ddinas, gan ganolbwyntio ar wella lles economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol. Yn aml mae'r prosiectau hyn wedi dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd ac wedi cyflwyno gwasanaethau ac asedau newydd i ganol y ddinas. Ceir enghreifftiau o rai o'r prosiectau hyn isod:

### Gofod creadigol a chymdeithasol yn 'The Place'

Dyfarnwyd arian i Tin Shed Theatre Co o gynllun budd-daliadau cymunedol Cartrefi Dinas Casnewydd tuag at greu The Place yn yr hen swyddfa bost ar Bridge Street ynghanol y ddinas. Gan ei fod wedi bod yn adeilad gwag ers tro, mae The Place bellach yn ofod celfyddydol a chymdeithasol aml-weithredol. Mae'n cefnogi pobl greadigol leol, ac mae ganddo stiwdios artistiaid, gofodau gweithdai, mannau cyfarfod a stiwdios lles.






### Siop atgyweirio ac ailddefnyddio yn dod â buddion cymdeithasol ac amgylcheddol

Mae siop atgyweirio a 'llyfrgell pethau' wedi agor fel rhan o ailddatblygiad Olympia House ar Skinner Street. Mae Repair Cafe Wales a Benthyg Cymru wedi sefydlu man atgyweirio a llyfrgell o bethau parhaol, gan roi cyfle i breswylwyr y ddinas gael gwaith atgyweirio am ddim, gweithdai rhannu sgiliau a rolau gwirfoddoli, yn ogystal â'r cyfle i fenthyg amrywiaeth o eitemau cartref megis peiriant tyllu, peiriant gwnïo, neu gêm fwrdd am gost isel. Gellir talu mewn amser gwirfoddoli neu gredydau amser Tempo yn ogystal ag arian parod. Mae beic cargo trydan yn galluogi cyflenwadau a danfoniadau o amgylch y ddinas, ac yn darparu cyfleoedd

teithio llesol i wirfoddolwyr.  Mae'r fenter yn cefnogi'r gallu i fyw mewn ffordd sy'n fwy ecogyfeillgar a dod yn fwy gwydn i heriau bywyd modern.

**Gardd gymunedol newydd**

Mae gardd gymunedol wedi agor ar dir busnes yng nghanol y ddinas.  Cafodd Canolfan Iechyd a Llesiant Hot Yoga ar North Street arian grant i gefnogi gweithgareddau dysgu awyr agored lleol o fewn gardd newydd.  Mae'r ardd yn darparu mwy o le gwyrdd yng nghanol y ddinas a chyfle newydd i'r gymuned fwynhau'r awyr agored.






**Y Reality Theatre**

Mae’r Reality Theatre wedi derbyn arian ar gyfer amrywiaeth o brosiectau gyda phartneriaid Casnewydd yn Un ac wedi symud i safle newydd yng nghanol y ddinas i greu'r lleoliad celfyddydol CAB.  Mae’r Reality Theatre yn sefydliad celfyddydau cymunedol sy'n defnyddio theatr, ffilm a cherddoriaeth i ymwneud â chymunedau sydd ar yr ymylon a mynd i'r afael â materion cymdeithasol.  Mae'r cyfranogwyr yn dysgu sgiliau newydd ac yn cael profiadau yn y diwydiant creadigol, ochr yn ochr â chael cyfleoedd i adrodd eu straeon mewn ffyrdd gwahanol.  Mae dyddiau galw heibio bellach yn ychwanegol at  sesiynau rhaglenni yn lleoliad newydd canol y ddinas.  Mae partneriaid y prosiect yn cynnwys Pobl, Cartrefi Dinas Casnewydd a Choleg Gwent, tra bod cyllid hefyd wedi'i ddarparu drwy fenter cyllidebu cyfranogol "Ein Llais, Ein Dewis, Ein Casnewydd".

**Hyb Beiciau Cymunedol**

Fe ddechreuodd y gwaith o ail-ddefnyddio adeilad gwag ar Skinner Street drwy greu hyb beicio cymunedol, mewn partneriaeth rhwng y Cyngor, Cartrefi Dinas Casnewydd, Heddlu Gwent ac elusen leol, The Gap Wales.  Ar ôl ei gwblhau, bydd y cyfleuster newydd yn darparu parcio dan do diogel i feiciau, am bris yn ôl defnydd.

Bydd gweithgareddau beicio rheolaidd megis diwrnodau marcio beic SmartWater gyda Heddlu Gwent, gweithdai trwsio beiciau, sesiynau diogelwch beiciau, cyfnewid beiciau plant a gwerthiannau beiciau ail law hefyd yn rhedeg o'r safle.  Bydd y prosiect yn dod yn gartref i gynllun ailgylchu beiciau cymunedol sy'n trwsio hen feiciau ac yn eu rhoi i ffoaduriaid a cheiswyr lloches sydd ar incwm isel.


## Y Pum Ffordd o Weithio





Mae’r prosiectau’n effeithio ar berfformiad a chynaliadwyedd canol y ddinas yn y dyfodol, yn ogystal â gwella bywiogrwydd y lle yn y tymor byr a’r tymor **hir**. Canlyniad allweddol yw **atal** dirywiad yng nghanol y ddinas o ran ei fywiogrwydd ond hefyd, ei dreftadaeth drwy roi bywyd newydd i adeiladau hanesyddol sydd mewn perygl gan eu bod yn wag ac yn adfeiliedig.  Mae'r prosiectau hyn yn cefnogi adfywiad ac Uwchgynllun Canol y Ddinas, sy'n elfennau pwysig o ymyrraeth Cynnig Casnewydd ond sydd hefyd yn cyfrannu mewn ffordd **integredig** gyda'r

ymyriadau eraill a'r Amcanion Llesiant.  Mae cyflwyno'r prosiectau hyn wedi dibynnu ar **gydweithio** cryf rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus a chymuned fusnes canol y ddinas, y sector gwirfoddol, a datblygwyr a buddsoddwyr yn y sector preifat.  Mae'r prosiectau wedi **cynnwys** partneriaethau lleol, busnesau a'r gymuned wrth ddarparu'r cynlluniau hyn ac yn galluogi'r budd i gymunedau lleol.

## Gwobr Diogelwch Canol Dinas y Faner Borffor




Gweithiodd partneriaid gyda'i gilydd i sicrhau bod Casnewydd yn cadw ei hachrediad Baner Borffor ar gyfer economi gyda'r nos ac economi'r nos, a gyflawnodd am y tro cyntaf yn 2019.  Yn debyg i'r Faner Las ar gyfer traethau, nod cynllun y Faner Borffor sy'n cael ei chydnabod yn genedlaethol yw codi safon ac apêl canol trefi a dinasoedd rhwng 5pm a 5am.




Cydnabyddir ardaloedd sydd wedi ennill Baner Borffor am ddarparu cymysgedd amrywiol a bywiog o dai bwyta, adloniant a diwylliant tra'n hyrwyddo diogelwch a lles ymwelwyr a thrigolion lleol.   Mae'r cynllun wedi'i seilio ar gyfres gynhwysfawr o safonau, prosesau rheoli ac enghreifftiau o arferion da a luniwyd i helpu i drawsnewid canol trefi a dinasoedd gyda'r nos.

Mae uchafbwyntiau cyflwyniad Casnewydd i gadw'r statws yn cynnwys bywiogi'r diwylliant caffi yn ystod y pandemig, y gwaith rhagweithiol sy'n cael ei wneud yn gysylltiedig â chyffuriau a sbeicio diodydd, ac arwyddion Crwydro Casnewydd.

Dywedodd Kevin Ward, rheolwr Ardal Gwella Busnes (AGB) Casnewydd Nawr:

*"Mae hyn yn newyddion gwych i economi'r nos yng Nghasnewydd, yn enwedig wrth i ni symud allan o bandemig Covid.*

*Mae'r AGB wedi gweithio gyda'r Cyngor, yr Heddlu, Pubwatch, Newport Business Against Crime a phartneriaid eraill i wella arlwy nos canol y ddinas ac mae ennill statws y Faner Borffor yn wobr haeddiannol.*

*Yn ogystal â'r gwasanaethau rheolaidd a ddarparwn i fusnesau, y Nadolig diwethaf fe wnaethom ddosbarthu deunyddiau atal sbeicio diodydd i safleoedd trwyddedig ar draws canol y ddinas, a byddwn yn lansio ein gwasanaeth Cenhadon y Nos yn fuan i roi cymorth pellach i'r economi hwyr y nos ar ddyddiau Gwener a Sadwrn".*

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r cynllun hwn yn defnyddio egwyddorion **ataliol,** pwerau rheoleiddio, masnachu cyfrifol, **cydweithio** agos a chymhwyso safonau a gydnabyddir yn genedlaethol er mwyn sicrhau economi'r nos ddiogel ac apelgar. Mae masnachwyr a'u cynrychiolwyr yn yr Ardal Gwella Busnes wedi bod â rhan sylweddol o ran ennill y wobr, sydd wedi gweithredu fel ffocws i wella gwaith partneriaeth.

Mae'r cynllun gwobrwyo ei hun yn enghraifft o ddull **integredig** o ddelio ag ystod o bryderon ynglŷn â lles gan gynnwys diogelwch, amgylcheddau o ansawdd uchel, trafnidiaeth gyhoeddus, iechyd y cyhoedd a chynigion lletygarwch.


## Mesurau Perfformiad


Llwyddwyd i gadw'r Faner Borffor a gydnabyddir yn genedlaethol.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r Cyngor yn creu swydd rheolwr canol y ddinas a fydd yn arwain ar gydlynu gwaith i sicrhau bod canol y ddinas yn ofod lle mae pobl eisiau gweithio a byw ynddo, ac ymweld ag e.

# Taith Caru Gwenyn Friars Walk









Gwnaed gwaith yn Friars Walk i greu lle mwy dengar i bobl a natur. Roedd y gwelyau plannu a leolwyd yn Sgwâr John Frost yn brin o blanhigion ac yn llwm, ond roedden nhw'n rhoi cyfle perffaith i greu gofod bywiog oedd yn dda i wenyn wrth galon y ddinas.

Wrth osod bocsys pryfed a phlanhigion wedi'u dewis yn benodol o restr Planhigion ar gyfer Pryfed Peillio'r RHS a Chynllun Gweithredu Llywodraeth Cymru ar gyfer Pryfed Peillio, mae'r lle wedi dod yn fwy dengar i bobl a phryfed peillio.   Mae'r arwyddion newydd ochr yn ochr â'r planhigion yn helpu pobl sy'n mynd heibio i ddeall pam ei bod hi'n bwysig cael gofodau i fyd natur.








## Y Pum Ffordd o Weithio

Hirdymor Atal Integreiddio

Cydweithio Cyfranogiad

Mae plannu mwy o blanhigion sy'n dda i bryfed peillio yn dod â nifer o fuddion yn y **tymor hwy** o ran lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae'n ffordd bwysig o fynd i'r afael ag addasu newid hinsawdd ac adfer natur, gan helpu i **atal** dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion sy'n deillio o adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gyfrannu at Amcanion 1 a 4 o'r Cynllun Llesiant.  Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Friars Walk wedi  **cydweithio** i gyflawni'r prosiect hwn.  Mae'r arwyddion newydd sy'n mynd ochr yn ochr â'r planhigion hefyd yn helpu **cynnwys** a hysbysu pobl sy'n pasio pam ei bod yn bwysig cael gofodau ar gyfer byd natur.


## Mesurau Perfformiad


Cynnydd yn nifer y safleoedd da i bryfed peillio ar draws Casnewydd.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

I barhau â'r sgwrs am ffyrdd y gallai Friars Walk a busnesau ddod hyd yn oed yn well i bryfed peillio  yng nghanol y ddinas.

# Cynllun Ynni Ardal Leol Casnewydd



Yn 2021, gweithiodd partneriaid a rhanddeiliaid yn y sector preifat a chyhoeddus gyda'i gilydd i ddatblygu Cynllun Ynni Ardal Leol Casnewydd (CYAL). Gan ddilyn methodoleg Ofgem, mae proses CYAL yn cyfuno dadansoddiad technegol cadarn gydag ymgysylltu cynhwysfawr â rhanddeiliaid i greu llwybr ar gyfer darparu datgarboneiddio mor effeithiol â phosibl, gan nodi camau sy'n ofynnol gan grwpiau gan gynnwys llywodraeth leol a chenedlaethol, darparwyr ynni, rheoleiddwyr, diwydiant, a thrigolion.

Mae gan CYAL Casnewydd weledigaeth o gyrraedd system ynni sero-net i Gasnewydd erbyn 2050 ac mae'n darparu map llwybr ledled y ddinas i ddatgarboneiddio'r gwres, y trydan a'r drafnidiaeth leol rydym yn ei ddefnyddio bob dydd, a gwireddu cynhyrchu ynni adnewyddadwy lleol ar gyfer y dyfodol. Mae'n rhoi dealltwriaeth i ni o natur, graddfa, cyfradd ac amseru newidiadau y mae angen eu gwneud ar gyfer trosglwyddo Casnewydd i system ynni sero-net.

Yn seiliedig ar dystiolaeth, mae'r cynllun yn nodi saith maes ymyrraeth blaenoriaeth sy'n cynrychioli'r meysydd lle mae angen gwneud newid corfforol i'r system ynni:

1. Ôl-osod adeiladau cyfan (insiwleiddio, mesurau effeithlonrwydd a chreu ynni 'y tu ôl i'r mesurydd')
2. Datblygu seilwaith gwefru cerbydau trydan cyhoeddus
3. Uwchraddio'r rhwydwaith dosbarthu trydan
4. Ynni adnewyddadwy ar y tir
5. Rhaglen arloesi diwydiannol
6. Defnyddio pympiau gwres a rhwydwaith gwres
7. Gostyngiad yn y galw am ynni trafnidiaeth






Mae'r gwaith o ddatblygu'r cynllun wedi hwyluso mwy o ymwybyddiaeth ymhlith rhanddeiliaid lleol yng Nghasnewydd, gan arwain at gydsyniad mwy eang ac ystyrlon i'r newidiadau sydd eu hangen ac ymrwymiadau credadwy i gyflawni'r cynllun, a bydd yn cynnig fframwaith i bartneriaid gydweithio o'i mewn yn y dyfodol.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Bydd gan y Cynllun Ynni Ardal Leol fuddion **hirdymor** i genedlaethau presennol a rhai'r dyfodol drwy leihau allyriadau carbon a lleihau effeithiau newid hinsawdd.


Yn y DU, rhagwelir y byddwn yn gweld newid i batrymau tywydd gyda stormydd cryfach yn digwydd yn amlach, gan arwain at fwy o berygl o lifogydd mewn ardaloedd lleol. Yn ystod misoedd yr haf bydd y tymheredd yn parhau i godi, gan ddod â thywydd poeth a sychder. Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar ansawdd tir, defnydd tir ac amaethyddiaeth. Bydd ansawdd dŵr ac aer yn parhau i waethygu, a bydd newidiadau i ecoleg leol a bioamrywiaeth bywyd gwyllt, gyda rhai rhywogaethau lleol mewn perygl o ddiflannu. Bydd difrod i dir a seilwaith yn arwain at fwy o straen ar wasanaethau cyhoeddus ac economïau lleol. Bydd newidiadau i'r hinsawdd hefyd yn dod â mathau newydd o afiechydon sy'n gysylltiedig ag eithafion mewn tymheredd, gyda'r ifanc a'r henoed yn cael eu heffeithio fwyaf. Bydd hyd yn oed mwy o straen ar y system iechyd. Bydd y Cynllun Ynni Ardal Leol yn cefnogi'r gwaith o **atal** effeithiau gwaethaf newid hinsawdd.


Mae cyfyngu ar newid hinsawdd a lleihau allyriadau carbon yn **integredig** ar draws pump o'r nodau llesiant ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar y ddau arall. Bydd y CYAL hefyd yn cefnogi cyflawniad holl Amcanion Llesiant y Cynllun Llesiant. Gweithiodd rhanddeiliaid cyhoeddus a phreifat gyda'i gilydd mewn ffordd **gydweithredol** ac roedden nhw'n **rhan** o ddatblygu'r cynllun.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd y cynllun yn dechrau cael ei weithredu yn y flwyddyn sydd i ddod unwaith y bydd Rheolwr Rhaglen y CYAL yn ei swydd.

# Astudiaeth Seilwaith Gwyrdd Canol y Ddinas






Gan weithio mewn partneriaeth, cyflogwyd Green Infrastructure Consultancy gan Gyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd i gynnal astudiaeth ar gyfleoedd am fwy o wyrddni yng nghanol y ddinas. Ariannwyd yr astudiaeth gan Gronfa Trawsnewid Trefi Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd sesiynau ymgysylltu ym mis Chwefror 2022, lle dangoswyd rhai o'r enghreifftiau, a derbyniwyd adborth.

Er mai syniadau'n unig ydynt ar hyn o bryd, y gobaith yw y gallent ysbrydoli mwy o wyrddni yng nghanol y ddinas pe bai cyllid ar gael.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae cynyddu Seilwaith Gwyrdd (SG) yn arwain at amryfal fanteision yn y **tymor hwy** o ran lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae hefyd yn ffordd bwysig o fynd i'r afael ag addasu newid hinsawdd ac adfer natur, gan helpu i **atal** dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion sy'n deillio o adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gyfrannu at Amcanion 1 a 4 y Cynllun Llesiant.

Mae'r prosiect yn **gydweithredol,** gan ddod â phartneriaeth at ei gilydd rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd, ynghyd â rhanddeiliaid ychwanegol gan gynnwys y gymuned. Cynhaliwyd dwy sesiwn ar-lein ym mis Chwefror 2022 a oedd yn cynnwys amrywiaeth o bobl o wahanol sefydliadau ac ar draws sectorau. Gofynnwyd am adborth ar y syniadau arfaethedig, trafodwyd rhai heriau, a chrëwyd llawer o frwdfrydedd. Gofynnir am fwy o **gyfranogiad** a chydweithio wrth symud ymlaen.

## Mesurau Perfformiad

Cynnydd yn y Seilwaith Gwyrdd o fewn canol y ddinas.


Prosiectau cydweithredol sy'n cyflawni gweledigaeth Mannau Gwyrdd a Diogel a'r Seilwaith Gwyrdd.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

I bartneriaid weithio gyda'i gilydd ar draws sectorau i sicrhau cyllid, cynhyrchu dyluniadau manwl, a dod â pheth o'r seilwaith gwyrdd yn fyw yn 2023.

# Uwchgynllun Pillgwenlli

Ymyrraeth




Nodau Llesiant




Mae Uwchgynllun Pillgwenlli yn ddull integredig o wella lles un o gymunedau mwyaf difreintiedig ond bywiog ac amrywiol Casnewydd.

Mae'r Uwchgynllun yn awr ar ei drydydd cam gyda'r arbenigwyr ymgysylltu, yr Urbanists a Mela Cymru wedi cwblhau cyfres o sgyrsiau gydag ystod o randdeiliaid ym Mhilgwenlli – gan gynnwys Pill Unity, y fforwm busnesau newydd, Cymdeithas Gymunedol Yemenïaidd Casnewydd, a phob sefydliad angor – i sefydlu gweledigaeth y gymuned ar gyfer yr ardal a fydd yn helpu i lunio cyfeiriad cynigion yr Uwchgynllun at y dyfodol.

Dros yr haf bydd sgyrsiau'n parhau i geisio adeiladu ar y llinynnau a'r materion cyffredin a ddaeth i'r amlwg yn ystod y sesiynau ymgysylltu a arweinodd at adnabod y pum thema ofodol ganlynol:

1. Mannau Gwyrdd a Chyhoeddus
2. Cyfleusterau/Adeiladau Cymunedol
3. Adfywiad Commercial Road
4. Cyfleusterau Ieuenctid
5. Pilgwenlli fwy diogel

Bydd y themâu yn darparu'r fframwaith ar gyfer y cam nesaf o ymgysylltu, gan sicrhau bod y broses wedi'i ffocysu ac yn rhoi cipolwg a fydd yn siapio'r Uwchgynllun.  Roedd y themâu hefyd yn darparu'r strwythur ar gyfer y dadansoddiad a'r cyfleoedd ar gyfer trydydd a phedwerydd cyfnod y gwaith.

Ochr yn ochr â hyn, mae'r rhaglen yn dod â rhanddeiliaid ynghyd i adeiladu ar waith a arweinir gan y gymuned yn cwmpasu iechyd a lles, yr amgylchedd a mannau gwyrdd, cefnogaeth i fusnesau a chyfleoedd buddsoddi cydweithredol.

Mae'r gwaith hwn eisoes wedi gweld datblygu Cynllun Gosod Lleol drafft ar gyfer Pilgwenlli, cynnig i gyflogi swyddog Gorfodi ac Addysgu pwrpasol i weithio ym Mhilgwenlli fel rhan o strategaeth i fynd i'r afael â thipio anghyfreithlon yn yr ardal a gweithgaredd i wella mannau gwyrdd ac ardaloedd chwarae.

## Y Pum Ffordd o Weithio





Mae'r rhaglen hon yn cynrychioli dull **cydweithredol** gyda'r landlordiaid cymdeithasol preswyl yn chwarae rôl allweddol, gyda golwg **hirdymor** ar wella lles ac **atal** y problemau a adroddwyd ym Mhilgwenlli rhag gwaethygu. Mae'r uwchgynllun yn rhoi pwyslais sylweddol ar ymgysylltu ac yn cael ei arwain gan y gymuned.


Mae'r ystod o themâu sy'n cael eu trafod yn adlewyrchu ymwybyddiaeth bod llawer o'r problemau sy'n wynebu'r gymuned yn gyd-gysylltiedig a dim ond drwy weithio'n **integredig** mewn partneriaeth â'r trigolion lleol y gellir mynd i'r afael â hwy. Mae'r rhaglen hefyd yn ceisio adeiladu capasiti cymunedol fel y dengys sefydlu fforwm busnes a **chyfranogiad** grwpiau cymunedol wrth ddod o hyd i atebion.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd rhagor o ymgysylltu â'r gymuned yn digwydd dros Haf 2022 i ddatblygu'r Uwchgynllun yn dilyn y camau cyntaf a nododd y pum thema ofodol.

# Adfywio Ringland




Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cael caniatâd cynllunio ar gyfer Canolfan Iechyd a Lles gwerth £27m a fydd yn rhan o ganolfan gymunedol fywiog ochr yn ochr â datblygiad tai newydd Cartrefi Dinas Casnewydd yn Ringland. Bydd yn cynnwys meddygfa, gwasanaethau deintyddol, cyfleusterau teulu a therapi, fferylliaeth, bydwreigiaeth a nyrsys cymunedol a gofal cymdeithasol i oedolion.



Mae'r Bwrdd Iechyd a Chartrefi Dinas Casnewydd yn gweithio mewn partneriaeth â Chyngor Dinas Casnewydd i sicrhau bod y 170 o gartrefi newydd a'r hyb cymunedol yn hygyrch ar drafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u lleoli yn ddelfrydol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol sy'n byw y tu allan i ganol y ddinas.

Cwblhawyd ailddatblygiad Cartrefi Dinas Casnewydd o stad Cot Farm yn Ringland yn 2021 a dyma gam cyntaf y gwaith hwn. Gweld y fideo am fwy o wybodaeth.

Mae'r cynllun dylunio ac adeiladu gwerth £7.5 miliwn yn cynnwys 55 o fflatiau un a dwy ystafell wely, cartrefi dwy a thair ystafell wely i'w rhentu'n gymdeithasol.





Roedd Cot Farm yn rhan o raglen drawsnewid ar raddfa fawr ehangach i ddod â bywyd newydd i Ringland, sydd wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad agos â'r gymuned leol. Mae'r prosiect yn cynnwys adeiladu 170 o gartrefi newydd a chanolfan siopa newydd fodern a fydd yn agos at wasanaethau newydd eraill sy'n dod i'r ardal, gan gynnwys Hyb Iechyd Dwyrain Casnewydd.

Ochr yn ochr â'r cartrefi newydd a'r gymuned well, creodd Cot Farm dri phrentisiaeth a nifer o gyfleoedd o ran swyddi a lleoliadau gwaith, gan roi mynediad i bobl leol i'r diwydiant adeiladu.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Bydd adfywio Ringland yn cael effaith ddofn ar les yr ardal yn y byr a'r **hirdymor**. Canlyniad allweddol yw **atal** y dirywiad yn iechyd a lles pobl drwy wella eu cymunedau lleol a chynnal gwasanaethau lleol.


Mae'r gwaith hwn yn **integredig** ar draws yr holl ymyriadau ac Amcanion Llesiant. Mae cyflwyno'r prosiectau hyn wedi dibynnu ar **gydweithio** cryf rhwng partneriaid yn y sector cyhoeddus, y sector gwirfoddol, a datblygwyr a buddsoddwyr yn y sector preifat.


Mae'r prosiectau wedi **cynnwys** partneriaethau lleol, busnesau a'r gymuned wrth ddarparu'r cynlluniau hyn.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd y gwaith adfywio cymunedol arfaethedig yn Ringland dan arweiniad Cartrefi Dinas Casnewydd yn cymryd tua 5 mlynedd arall i'w gwblhau wrth adeiladu'r cartrefi newydd, y ganolfan siopa newydd, yr isadeiledd a'r tirlunio. Bydd cyllid Buddion Cymunedol ar gael a fydd yn creu cyfleoedd i grwpiau cymunedol, ysgolion, chwarae ac i unigolion trwy brofiad gwaith, hyfforddiant a phrentisiaethau. Mae Cartrefi Dinas Casnewydd yn gofyn i'r gymuned leol ar hyn o bryd pa fath o fuddion cymunedol sydd eu hangen.

## Gwarcheidwaid Diogelwch Cymunedol






*Enghreifftiau o'r TUK TUK's a ddefnyddir yn Sir Fynwy*

Gan weithio mewn partneriaeth, mae'r Ardal Gwella Busnes, Cyngor Dinas Casnewydd a Heddlu Gwent wedi defnyddio cyllid Safer Streets 3 i gyflogi dau Warcheidwaid Diogelwch Cymunedol. Bydd y Cynllun Cennad y Nos yn galluogi'r Gwarcheidwaid hyn i yrru TUK TUK's arbennig i gynnig patrolau amlwg iawn i roi sicrwydd i bobl yng nghanol y ddinas, ac i wneud i drigolion ac ymwelwyr deimlo'n fwy diogel wrth gerdded o amgylch y ddinas.

Bydd codi ymwybyddiaeth hefyd yn digwydd gan ganolbwyntio'n benodol ar drais yn erbyn menywod a merched. Mae'r Cynllun Cennad y Nos wedi'i gynnal ers 22 Gorffennaf 2022 ac mae wedi helpu i roi sicrwydd o ddiogelwch yng nghanol y ddinas.

### Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r buddion yn y **tymor hwy** yn cynnwys lleihau cyfraddau troseddu ym mannau poblogaidd Casnewydd wrth i bresenoldeb y Gwarcheidwaid leihau'r cyfleoedd i droseddu a chynyddu teimladau o ddiogelwch. Nod y prosiect oedd dod o hyd i ffordd arloesol a chydweithredol i **atal** cyfleoedd i droseddu yng nghanol y ddinas. Bydd gwarcheidwaid yn cael eu rhoi mewn ardaloedd poblogaidd ar draws y ddinas fel bod eu presenoldeb yn atal gweithgarwch troseddol.

Mae potensial i'r Tuk Tuk's a'r Gwarcheidwaid gael eu defnyddio ar draws yr holl sefydliadau dan sylw yn dibynnu ar y galw, er enghraifft gellir eu defnyddio gan yr Heddlu neu Wardeiniaid ymddygiad gwrthgymdeithasol os oes angen, gan gynyddu eu heffaith ar draws y ddinas i leihau troseddu.

Mae'r prosiect yn bartneriaeth **gydweithredol** rhwng Heddlu Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd a'r AGB i gynyddu'r teimlad o ddiogelwch yng nghanol y ddinas a denu mwy o ymwelwyr i'r ddinas gan wella'r canfyddiad o Gasnewydd fel dinas ddiogel a chyffrous i ymweld â hi a byw ynddi.

## Mesurau Perfformiad

Mwy o bobl yn teimlo'n ddiogel yng nghanol y ddinas a llai o droseddau.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol


Bydd TUK TUK's yn cael eu defnyddio gan wardeniaid ymddygiad gwrthgymdeithasol Cyngor Dinas Casnewydd mewn ardaloedd lle mae eu hangen, a bydd Gwarcheidwaid yn cael eu hyfforddi i ddefnyddio'r Tuk Tuk's yn ddiogel.

## Mae gan bawb y sgiliau a'r cyfleoedd sydd eu hangen arnynt i ddatblygu, ffynnu a chyfrannu at ddinas ffyniannus a chynaliadwy

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2021-22, mae nifer o astudiaethau achos wedi'u hamlinellu isod. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Llesiant y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

### Troed yn y Drws – Sgiliau Trosglwyddadwy ar gyfer Ffilm a Theledu

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Ym mis Mawrth 2022, daeth Casnewydd yn gartref i'r rhaglen Troed yn y Drws fwyaf erioed. Mae Troed yn y Drws yn rhaglen hyfforddi arobryn gan Ffilm Cymru Wales sy'n cynnig cyfleoedd newydd i unigolion a chymunedau ddatblygu eu sgiliau trosglwyddadwy – er enghraifft gwaith coed, arlwyo, trin gwallt, colur a mwy – yn yrfaoedd creadigol drwy leoliadau hyfforddi â thâl i bobl sy'n ymuno o'r newydd â chynyrchiadau ffilm a theledu yng Nghymru.

Mae'r sector sgrîn yn parhau i fod yn sector flaenoriaeth yn y DU, yng Nghymru ac ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd, sy'n gartref i dair stiwdio a chyfoeth o gynyrchiadau ffilm a theledu. Mae Troed yn y Drws yn gweithio tuag at sicrhau bod gan Gymru griwiau medrus i gefnogi a chynnal y sector bywiog hwn yn y tymor hir.

Drwy brosiect Casnewydd, mae dros 300 o leoedd ar gael fel cyfleoedd hyfforddi a chyflogaeth i greu sector sgrin fwy cynhwysol. Mae'r fenter yn gydweithrediad rhwng Ffilm Cymru Wales a Chyngor Dinas Casnewydd (CDC), gan weithio gyda phartneriaid allweddol sy'n cynnwys sefydliadau sy'n seiliedig ar ddiwydiant, Coleg Gwent, Prifysgol De Cymru a Pobl. Mae'r prosiect yn cael ei ariannu trwy Gronfa Adnewyddu Cymunedol Llywodraeth y DU.

Rhwng mis Ionawr a mis Rhagfyr 2022, mae Troed yn y Drws yn cynnig ymyriadau hyfforddi a datblygu gyrfa, lleoedd hyfforddi cynhwysfawr i newydd-ddyfodiaid a lleoliadau cyflogaeth i bobl o Gasnewydd. Er

mwyn helpu i ehangu mynediad a lleihau rhwystrau iddo, mae'r prosiect hefyd yn darparu adnoddau a chymorth gyda phethau fel gofal plant, trafnidiaeth ac offer.

Drwy brosiect Casnewydd, mae Ffilm Cymru yn ysgogi dull seiliedig ar asedau o ymgysylltu cymunedol, gan weithio gyda sefydliadau megis Urban Circle a Phobl i ddatblygu profiadau blasu,  mentora a gweithdai a arweinir gan y gymuned ac sy'n canolbwyntio ar y gwerth presennol o fewn cymunedau, ac yn adeiladu ar eu sgiliau a'u cryfderau unigryw i sicrhau bod y cymunedau eu hunain yn arwain y gweithgaredd.




Mae gweithdai ar bynciau mor amrywiol â cholur, effeithiau arbennig, dylunio gwisgoedd, arlwyo a chynhyrchu wedi bod yn cael eu cynnal mewn lleoliadau ar draws Casnewydd, megis Canolfan Mileniwm Pilgwenlli a Hyb Gymunedol Ringland.

**Crëwyd ffilm fer, sy'n cynnwys lluniau o hyfforddeion Casnewydd a Troed yn y Drws ar y set: [https://youtu.be/uGdnM3ttkeg](https://youtu.be/uGdnM3ttkeg).**

**Beth mae'r rhaglen wedi'i chyflawni hyd yma?**

Yn y 6 mis cyntaf, mae partneriaid wedi darparu dros 40 o ddigwyddiadau sgiliau a hyfforddi a gweithgareddau ledled Casnewydd i bobl leol gael rhagor o wybodaeth am sut allan nhw ddechrau gyrfa yn y diwydiant teledu a ffilm.  Rydym wedi gweithio gyda rhaglenni sy'n bodoli eisoes yn y ddinas, fel Ailgychwyn, i ddatblygu rolau ym maes diogelwch cynhyrchu, ac rydym wedi gallu agor llwybrau i unigolion nad oeddent wedi credu bod y sector yn opsiwn iddyn nhw yn y gorffennol.  Mae sefydliadau o bob rhan o'r sector ffilm a theledu o safon yng Nghymru wedi partneru â chymunedau nad ydynt efallai wedi gweithio gyda nhw o'r blaen.

Mae'r gweithgaredd wedi cynnwys:

- Digwyddiadau Mynediad ac Ymwybyddiaeth.
- Ffeiriau gyrfa a diwrnodau agored – yn cynnwys ffair yrfa yn Rodney Parade gyda phobl ifanc rhwng 16-21 oed o grwpiau'r Go Girls a The Brothers, fel rhan o ddathliadau Diwrnod Rhyngwladol y Merched.  Bu'r digwyddiad yn archwilio rhywedd a rolau yn y sector sgrin, gyda gweithdai blasu yn annog amrywiaeth rhywedd ar draws gyrfaoedd sydd fel arfer yn cael eu cysylltu ag un rhyw e.e. merched mewn adeiladu. Gallai'r bobl ifanc ymuno â gweithdy adeiladu gydag arbenigwyr ar adeiladu setiau, yn ogystal â sesiynau sgiliau colur theatrig.
- Gweithdai sgiliau a hyfforddiant yn stiwdios Urban Myth Casnewydd.
- Diwrnod recriwtio ym mhencadlys Pobl yng Nghasnewydd a arweiniodd at leoliadau dan hyfforddiant â thâl ar gynhyrchiad y BBC *The Pact 2*.  Aeth chwe hyfforddai ymlaen i gontractau cyflogaeth.
- Mae hyfforddeion wedi cael lleoliadau gwaith â thâl ar ystod o gynyrchiadau teledu a ffilm, gan gynnwys Netflix, BBC Productions a chynyrchiadau teledu annibynnol.
- Cynhaliodd Screen Alliance Wales ddiwrnodau agored yn Hyb Canolog Mileniwm Pilgwenlli a Hyb Canolog Ringland i 'godi llen ar y sector teledu a ffilm'.




*Gweithdai Colur Theatrig – Credyd:  Jo Haycock*

- Cafodd Uned 9 Theatr y Tin Shed yn Friars Walk, ei drawsnewid yn ardal gymunedol galw heibio ar gyfer pobl leol sy'n ymddiddori mewn gyrfaoedd a sgiliau ym myd ffilm a theledu yng Nghymru.  Bu Ffilm Cymru yn cynnal dangosiadau a gweithgareddau i bobl dros 16 oed i uwchsgilio a dysgu mwy am weithio fel hyfforddai yn y sector.  Roedd yr amserlen yn cynnwys:
  - **Dangosiad ffilm Bangla Surf Girls:** Rhoddodd tîm Troed yn y Drws a Gŵyl Ffilm WOW ddangosiad rhad ac am ddim o Bangla Surf Girls, rhaglen ddogfen wedi'i gosod yn Bangladesh sy'n darlunio gwefrau a brwydrau tair o ferched ifanc yn dod i oed mewn gwlad sy'n datblygu.
  - **Digwyddiad Ffilmiau Byr a Sgiliau:** Cyfres o saith ffilm fer gan wneuthurwyr ffilmiau o Gasnewydd, wedi'u hariannu gan Ffilm Cymru a chyda gwybodaeth tu ôl i'r llenni gan aelodau o'r criw mewn sesiwn holi ac ateb byw.
  - Mae murlun, wedi ei greu gan artist lleol, sy'n adrodd hanes ymgyrch Troed yn y Drws ar gael i'w weld yn Uned 9.






*Sgrinio Bangla Surf Girls - Credyd: Jo Haycock*





*Digwyddiad Ffilmiau Byr a Sgiliau – Credyd: Jo Haycock*

*Uned 9 yn Friars Walk – Credyd: Jo Haycock*

*Murlun a grëwyd gan artist lleol yn Uned 9.*

- Gweithgaredd hyrwyddo wedi'i dargedu at bobl ledled Casnewydd, er mwyn tynnu eu sylw at gyfleoedd.


News

City's film and TV jobs and training bonanza

Erthygl South Wales Argus




Neges ar Facebook

Mae hyfforddeion wedi rhoi adborth ar eu profiad gyda Troed yn y Drws:

> *"Mae Troed yn y Drws wir wedi fy nghefnogi gyda fy ngwybodaeth a sgiliau ymarferol ar y set. Maen nhw wedi rhoi profiad ymarferol i mi ac yn parhau i fy nghefnogi i fynd i mewn i'r diwydiant teledu a Ffilm. Mae'n rhaglen wych i gymryd rhan ynddi. Mae fy hyder wedi cynyddu'n ddramatig gyda'r gefnogaeth maen nhw wedi ei ddarparu".*

Dywedodd Faye Hannah, Pennaeth Sgiliau a Hyfforddiant yn Ffilm Cymru Wales:

> *"Mae cyfansoddiad Casnewydd - ei diwylliant, ei chreadigrwydd, ei chymunedau- yn ei gwneud yn lle perffaith i barhau i adeiladu diwydiant ffilm gynhwysol yng Nghymru. Rydym wir yn credu bod angen i ddiwydiant ffilm Gymreig cryf a chynaliadwy fod yn gynrychioliadol o bob cymuned ac yn gynhwysol, ac mae'n sicrhau y gall unigolion ennill 'Troed yn y Drws' mewn sector sy'n tyfu.*
>
> *Nid parth actorion a chyfarwyddwyr yn unig yw setiau sgrin. Mae angen ystod gyfan o sgiliau tu ôl i'r llenni arnyn nhw i wneud iddyn nhw weithio; sgiliau fydd gan bobl eisoes ar draws Casnewydd neu y gellir rhoi hyfforddiant ynddynt. Dyma ymdrech gydweithredol enfawr, ac rydym wrth ein boddau ein bod yn ffurfio partneriaeth â sefydliadau o'r sector sgrin a'r rhai sy'n rhan greiddiol o gymunedau ar draws Casnewydd. Yn syml iawn, mae hyn yn creu cyfleoedd i bobl yng Nghasnewydd ac mae ganddo'r potensial i fod yn drawsnewidiol".*

## Y Pum Ffordd o Weithio





Mae Troed yn y Drws nid yn unig yn dod o hyd i gyfleoedd i bobl ond mae hefyd yn cefnogi hyfforddeion i symud ymlaen â'u gyrfaoedd dros yr **hirdymor**. Darparodd y dull **ataliol** o weithredu dros 300 o lefydd hyfforddi a chyflogaeth i greu sector sgrin fwy cynhwysol, sy'n helpu i ddatblygu a chynnal diwydiant ffilm cryf. Mae'r gwaith hwn yn **integredig** ar draws yr holl ymyriadau ac Amcanion Llesiant. Mae'r gwaith yma'n digwydd ledled Casnewydd gyda **chydweithio** rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a'n consortiwm o bartneriaid darparu sy'n cynnwys Sgil Cymru; Cult Cymru, rhaglen dysgu undebau ar y cyd dan arweiniad Bectu; Screen Alliance Wales; Coleg Gwent, Prifysgol De Cymru a Thai Pobl. Rydym yn gwrando ar ein partneriaid yng Nghasnewydd ac wedi eu **cynnwys** drwy ysgogi dull seiliedig ar asedau o ymgysylltu â chymunedau, gan weithio gyda sefydliadau megis Urban Circle a Thai Phobl i ddatblygu cyrsiau blasu, mentora a gweithdai a arweinir gan y gymuned


ac sy'n canolbwyntio ar y gwerth presennol o fewn cymunedau, ac yn adeiladu ar eu sgiliau a'u cryfderau unigryw i sicrhau bod y cymunedau eu hunain yn arwain y gweithgaredd.

### Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd digwyddiad rhannu gwybodaeth yn cael ei chynnal yng Nghasnewydd ar ddiwedd 2022 lle bydd yr hyn sydd wedi'i ddysgu o'r rhaglen yn cael ei drafod.

## Wythnosau Darganfod Gyrfaoedd mewn Ysgolion




Mae myfyrwyr o Gasnewydd wedi cael cyfle i archwilio gyrfaoedd mewn sectorau twf allweddol ar gyfer y ddinas, gan ganolbwyntio ar yr economïau sefydledig a gwyrdd.  Y nod oedd i ddisgyblion Casnewydd gael eu cyffroi gan yr hyn sydd gan eu dinas i'w gynnig a chreu llwybr tuag at yrfa gysylltiedig gyda chefnogaeth ein hysgolion, ein coleg, prifysgol a busnesau.

Gwahoddwyd myfyrwyr ym Mlwyddyn 9 ac uwch i gael gwybod am ystod y gyrfaoedd sydd ar gael ar garreg eu drws yn y sectorau iechyd, gofal cymdeithasol a gofal plant, yn ogystal â swyddi gwyrdd a fydd yn bwysig ar gyfer y dyfodol.

Dangosodd cyflogwyr yn y sectorau yma yr hyn y mae eu cwmnïau'n ei wneud a'r swyddi y maent yn eu cynnig. Amlinellodd Prifysgol De Cymru a Choleg Gwent lwybrau addysgol a hyfforddiant lleol i swyddi yn y sectorau, gyda Gyrfa Cymru yn cydlynu'r digwyddiadau a rhoi cyngor ar yrfaoedd cefnogol.

Cyflwynwyd y gymysgedd o sesiynau byw a gweminarau ar bob thema ar Microsoft Teams dros gyfnod o wythnos, gan ganolbwyntio ar wahanol bynciau bob dydd: Yn dilyn y digwyddiad cafodd ysgolion yr holl ddeunydd fideo gyda'r gallu i'w ddefnyddio yn y dyfodol, gan ddarparu adnodd cyfoethog i bobl ifanc sy'n ystyried eu hopsiynau a'u llwybrau gyrfaol.

Roedd y digwyddiad Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yn cynnwys:

- Sylw i Yrfaoedd Gofal Plant
- Sylw i Yrfaoedd Gofal Iechyd
- Sylw i Yrfaoedd Gofal Cymdeithasol
- Sylw i Yrfaoedd Iechyd Meddwl
- Llwybrau Addysg a Hyfforddiant i mewn i Ofal

Cyflwynwyd sesiynau gan Dechrau'n Deg, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan, Cyngor Dinas Casnewydd, Gofalwn Cymru, Partneriaeth Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Llesiant Gwent Fwyaf, Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS), Coleg Gwent a Phrifysgol De Cymru. Cefnogwyd y digwyddiad gan yr Athro Alka Ahuja OBE a recordiodd neges i annog pobl ifanc i ddod i'r digwyddiad:




Gellir gweld y fideo yma.

Dyma oedd y rhaglen ar gyfer Wythnos Gyrfaoedd Gwyrdd:

- Trafnidiaeth Gynaliadwy gyda Bws Casnewydd
- Cipolwg ar Ddiwydiant gyda Chymdeithas Porthladdoedd Prydain, Asiantaeth Ynni Hafren Gwy, Swyddfa Eiddo Deallusol, Cyngor Dinas Casnewydd, Prifysgol De Cymru
- Dyfodol Ynni gyda Wales and West Utilities
- Cadwraeth a'r Amgylchedd gyda Gwasanaethau Ecolegol
- Adeiladu Sero Net Carbon gyda Robert Price




Fe wnaeth y Cynghorydd Jason Hughes, a oedd bryd hynny yn Aelod Cabinet Cyngor Dinas Casnewydd dros Gynaliadwyedd, helpu i hyrwyddo'r digwyddiad drwy fideo byr y gellir ei weld yma.

Datblygwyd sesiynau am y ddwy wythnos gyda staff ysgolion i gyd-fynd â'r cwricwlwm ac amserlenni, ac i sicrhau ymgysylltiad.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Roedd y digwyddiad wythnos o hyd wedi'i anelu at Flynyddoedd 9 ac uwch a'i gyflwyno ar adeg pan fyddent yn ystyried pa bynciau i'w hastudio a pha yrfaoedd posib i'w dilyn yn y dyfodol, gan helpu pobl ifanc yn y ddinas i ffynnu'n economaidd a chyflawni eu potensial yn yr **hirdymor**. Mae'r sectorau a roddwyd sylw iddynt yn allweddol i Gasnewydd a de-ddwyrain Cymru, ac yn cynnig twf hirdymor.


Roedd y digwyddiad yn ceisio **atal** diffyg ymwybyddiaeth ymhlith pobl ifanc o'r cyfleoedd am gyflogaeth â sgiliau a gyrfaoedd ar garreg eu drws, ac i fynd i'r afael ag anawsterau recriwtio a phrinder sgiliau o fewn sector twf economaidd allweddol ar gyfer y ddinas. Roedd y digwyddiad yn **gydweithrediad** rhwng cyflogwyr, darparwyr addysg a hyfforddiant, Gyrfa Cymru a Chyngor Dinas Casnewydd er budd myfyrwyr yn ysgolion Casnewydd. Roedd y gweithgaredd yn cyflawni yn erbyn Amcanion Llesiant 1 a 2, tra bod y prosiect wedi'i **integreiddio** gyda'r Strategaeth Twf Economaidd ar gyfer y Ddinas a'r sectorau allweddol a nodwyd gan Bartneriaeth Sgiliau Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.


Roedd yr ysgolion wedi **cymryd rhan** wrth ddatblygu diben, cynnwys a fformat y digwyddiad; ac anogwyd myfyrwyr i ofyn cwestiynau am y pethau yr oeddent wir am wybod amdanynt gan gyflogwyr. Mae adborth gan ysgolion wedi arwain at addasu'r digwyddiadau. Er enghraifft, cynghorodd athrawon ni i wneud y sesiynau'n fwy rhyngweithiol, yn hytrach na'r cyflwyniad a Holi ac Ateb, felly, buom yn gweithio gyda nhw i edrych ar wahanol ffyrdd o gynllunio gwersi gyda chynnwys wedi'i recordio ymlaen llaw, gweithgareddau, ac amser i weithio'n gydweithrediadol yn y dosbarth, ochr yn ochr â gofyn cwestiynau i'r cyflogwyr am eu syniadau.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Yn dilyn yr wythnosau gyrfaoedd a'r perthnasoedd newydd neu gryfach gyda chyflogwyr, mae Gyrfa Cymru yn gweithio gyda nhw i feithrin cysylltiadau cyflogwyr parhaus gydag ysgolion unigol yng Nghasnewydd.

## Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid




Mae Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid Llywodraeth Cymru (FfYDI) yn darparu dull systematig o gefnogi a gweithio gyda phobl ifanc sydd wedi ymddieithrio o addysg neu hyfforddiant. Mae'r Fframwaith hwn yn canolbwyntio ar leihau nifer y bobl ifanc 11 i 25 oed nad ydynt yn ymwneud ag addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET).

Mae'n flaenoriaeth i adnabod pobl ifanc sydd mewn perygl o fod yn NEET ac felly lleihau nifer y bobl ifanc sy'n dod yn NEET. Goruchwylir y gwaith gan y Cydlynydd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid y mae ei rôl yn cael ei ariannu o'r Grant Cymorth Ieuenctid. Y grŵp NEET Cyn 16, y grŵp ymarferwyr 16-18, y Fforwm Hyfforddwyr Dysgu a'r Rhwydwaith Darparwyr Dysgu yw'r gweithgorau sy'n cefnogi'r Cydlynydd Ymgysylltu Ieuenctid a Fframwaith Dilyniant yn weithredol. Mae trefniadau gweithio cydweithredol yn gryf gyda lefelau da o ymrwymiad gan yr holl bartneriaid. Mae hyn wedi creu dull o rannu atebolrwydd ar gyfer y nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant sydd, yn ei dro, wedi arwain at ffigyrau NEET yn lleihau dros amser.

Datblygwyd Pecyn Cymorth Adnabod Cynnar i dynnu gwybodaeth o gronfeydd data ysgolion i adnabod disgyblion sy'n agored i niwed ac sydd mewn perygl o fod yn NEET. Mae partneriaid yn defnyddio'r data hwn i'w helpu i benderfynu ar y gefnogaeth a'r ymyrraeth y gellir ei roi i bobl ifanc unigol. Yn ystod y cyfnod cyrchfannau yn 2021, arweiniodd defnydd effeithiol o'r Pecyn Cymorth Adnabod Cynnar at argaeledd cymorth parhaus i nifer uwch o bobl ifanc a oedd mewn perygl o fod yn NEET. Er gwaetha'r cyfyngiadau a osodwyd gan bandemig Covid-19, mae nifer y bobl ifanc sy'n NEET yn parhau i fod yn is na'r cyfartaledd Cymreig.

Ym mis Hydref 2021, rhoddodd pobl ifanc nad oedd ganddynt gyrchfan ddiogel wrth adael yr ysgol adborth i'r Cydlynydd Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid am y rhesymau dros hyn. Amlygodd eu hadborth yr angen i roi mwy o wybodaeth am yr amrywiaeth o gyfleoedd hyfforddi sydd ar gael i bobl ifanc. Arweiniodd hyn at ddatblygu Diwrnodau 'Symud Ymlaen', a chynhaliwyd y cyntaf ym mis Mai 2022. Mynychodd pobl ifanc sesiynau gwybodaeth a chymorth gan ddarparwyr hyfforddiant, Coleg Gwent a'r

Gwasanaeth Ieuenctid.  Trefnwyd sesiwn hefyd i rieni fynychu gyda'r hwyr.  Roedd yr adborth yn dilyn y sesiynau gan bobl ifanc, ysgolion, rhieni a darparwyr hyfforddiant yn gadarnhaol iawn.  Roedd y sesiynau fin nos yn enwedig yn llwyddiannus iawn.  Bwriedir cynnal y gyfres nesaf o sesiynau 'Symud Ymlaen' ym Mawrth 2023.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Nod y FfYDI yw atal pobl ifanc rhag dod yn NEET yn y tymor byr a'r hirdymor.  Trwy helpu pobl ifanc i ddod o hyd i gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant addas a phriodol, fe'u cefnogir i wneud y gorau o'u cyfleoedd mewn bywyd.  Bydd lleihau nifer y bobl ifanc sy'n NEET nid yn unig yn cael effaith **hirdymor** ar fywydau pobl ifanc, ond bydd hyn hefyd yn effeithio ar y gymuned ehangach.  Mae'r gost o beidio mynd i'r afael â'r mater hwn yn un cymdeithasol ac economaidd, gan effeithio ar lefelau diweithdra, tan-gyflogaeth, troseddu, lles, camddefnyddio sylweddau, marwolaeth gynamserol a dod yn fam yn gynnar.

Mae defnyddio Pecyn Cymorth Adnabod Cynnar yn rhan annatod o'r gwaith **atal** hwn.  Mae'r pecyn cymorth, ynghyd â gwybodaeth ymarferwyr yn adnabod pob dysgwr sydd mewn perygl o ddod yn NEET neu a fyddai'n elwa o gymorth ychwanegol.  Mae cyfarfodydd pontio (Blwyddyn 11, 12 a 13) a chyfarfodydd gyda darparwyr addysg bellach yn digwydd cyn i fyfyrwyr adael yr ysgol i sicrhau bod llwybrau dilyniant yn eu lle.

Mae cysylltiad agos rhwng FfYDI ag ystod o weithgarwch sydd wedi'i gydlynu gan Lywodraeth Cymru.  Mae'n **integredig** â phrosiectau Sgiliau Cywir eraill a Chynllun Corfforaethol CDC.

Mae hwn yn ddull cwbl **gydweithredol** yn ymwneud â phartneriaid sy'n cynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Llywodraeth Cymru a Choleg Gwent.  Mae aelodaeth ehangach y bartneriaeth yn cynnwys Gyrfa Cymru, FfHCC a phob ysgol uwchradd ledled Casnewydd.  Yr allwedd i weithredu'r fframwaith yn llwyddiannus fu dull system gyfan lle caiff rolau a chyfrifoldebau eu diffinio'n gliriach a lle mae'r holl wasanaethau a darparwyr sy'n gweithio gyda phobl ifanc yn cydweithio i sicrhau gwell canlyniadau i bobl ifanc.

Darperir adborth drwy **gynnwys** partneriaid a phobl ifanc.  Mae hyn yn cynnwys hyfforddwyr dysgu ysgolion, dysgwyr cyn 16 yn cael mynediad at ddarpariaeth amgen a dysgwyr ôl-16 sy'n cwblhau rhaglenni astudio cydweithredol.  Gwneir argymhellion gan y bobl ifanc i weithgorau ac mae'r Cydlynydd FfYPI yn gweithredu ar hyn.

## Mesurau Perfformiad


| Mesur Perfformiad | Blwyddyn | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 2016 | 2017 | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 |
| Canran dysgwyr Blwyddyn 11 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | 1.7% | 1.3% | 1.1% | 0.9% | 1.4% | 1.3% (Cyfartaledd Cymru – 1.6%) |
| Canran dysgwyr Blwyddyn 13 nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) | 2.44% | 1.52% | 1.65% | 1.8% | 1.1% | 1.09% (Cyf Cymru – 2.3%) |
| Canran y bobl ifanc 16-18 oed nad ydynt mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant (NEET) | 3.44% | 2.75% | 2.65% | 2.6% | 2.6% | 2.6% |

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae gwaith i gyflawni'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuenctid wedi parhau i symud ymlaen er gwaethaf effaith Covid-19. Mae'r arferion cryf sydd wedi'u sefydlu'n dda wedi darparu sail gref ar gyfer datblygu dulliau diwygiedig. Bydd dyddiau Symud Ymlaen Pellach yn cael eu cyflwyno yn 2023 a bydd rhain yn cael eu hymestyn i gynnwys rhai sy'n gadael yr ysgol ym Mlwyddyn 13.

Bydd y Pecyn Cymorth Adnabod Cynnar hefyd yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu'r risgiau presennol i berson ifanc sy'n dod yn NEET yn y cyfnod ar ôl y pandemig. Bydd y pecyn cymorth hefyd yn cael ei ddiweddaru i adlewyrchu'r newidiadau mewn agweddau at drawsnewid ADY a'r ddeddfwriaeth gysylltiedig. Bydd y gwaith hwn yn parhau i gael ei fonitro gan Wasanaeth Addysg Ganolog Cyngor Dinas Casnewydd, y tîm Adfywio, Buddsoddi a Thai a'r Bwrdd Sgiliau Cywir. Bydd y Grant Cymorth Ieuenctid yn parhau i ariannu'r gwaith hwn yn 2022/2025.

## Dilyniant a Chydweithio Ôl-16




Mae cynnig cyffrous Cyngor Dinas Casnewydd a Choleg Gwent i greu campws yng nghanol y ddinas fydd yn darparu cyfleusterau addysg bellach o'r radd flaenaf wedi cymryd cam arall ymlaen eleni. Mae ymgynghoriad cyn-cynllunio wedi'i lansio cyn y bydd cais amlinellol yn cael ei gyflwyno ar y cyd gan y ddau sefydliad yn y dyfodol. Y bwriad yw adeiladu'r campws yng nghanol y ddinas ar safle canolfan bresennol Casnewydd, sy'n symud i leoliad cyfagos ar lan yr afon. Pan fydd wedi'i gwblhau, bydd campws canol dinas Coleg Gwent yn rhan o Ardal Wybodaeth Casnewydd (AWC) sy'n ymuno â champws Prifysgol De Cymru.




*Campws presennol Coleg Gwent*



*Argraff Arlunydd o Gampws newydd Coleg Gwent*

Dechreuodd y Cyngor hefyd baratoi cais i Gronfa Codi'r Gwastad llywodraeth y DU i gefnogi Sefydliad Technoleg Cenedlaethol, gan ddarparu addysg dechnegol a hyfforddiant lefel uwch cyflenwol mewn lleoliad yng nghanol y ddinas.

Yn ystod y flwyddyn, mae PDC a Choleg Gwent wedi bod yn gweithio'n agos i dyfu a hyrwyddo cyfleoedd ar gyfer dysgwyr lleol. Mae hyn wedi cynnwys:

- Grŵp llywio ar y cyd rhwng Coleg Gwent a PDC i sbarduno twf o ran nifer y myfyrwyr yng Nghasnewydd.
- Cyd-adolygu'r cynnig presennol o ran y cwricwlwm ac edrych ar ddarpariaeth newydd – bydd hyn yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu cynnig cydgysylltiedig yn y ddinas wrth i Goleg Gwent baratoi i adeiladu ei gampws newydd gyferbyn â champws Casnewydd PDC.
- Penodi Swyddog Allgymorth ac Ymgysylltu yng Nghasnewydd a fydd yn cysylltu ag ysgolion, y Coleg, y Cyngor a busnesau lleol er mwyn sicrhau bod llwybrau at ddilyniant yn glir rhwng y Coleg a PDC, a bod gwaith allgymorth yn cael ei gynllunio ar y cyd i gefnogi'r gwaith o hyrwyddo cynnig dinesig cydgysylltiedig.
- Mapio'r ddarpariaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol yn y ddau sefydliad, a monitro dilyniant a rhaglenni i gyrsiau proffesiynol allweddol sy'n cefnogi cyflogaeth leol. Bydd hyn yn digwydd yn flynyddol er mwyn ysgogi gwelliannau.
- Datblygu llwybrau cliriach ar gyfer dysgwyr Coleg Gwent i'r cynnig Cyfrifiadura a Seiber ym Mhrifysgol De Cymru.
- Adolygu'r holl bortffolios presennol ar gyfer dilyniant ac ymgorffori gweithgarwch dilyniant i'r cynnig a rennir, gan gefnogi camau nesaf dysgwyr yn fwriadol.
- Mae Coleg Gwent wedi rhannu gyda PDC ei brofiad a'i arbenigedd o gefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i mewn i fyd gwaith, gan ddod â manteision i'r rhai sydd fwyaf mewn perygl o gale eu gwahardd o'r farchnad swyddi.




Mae PDC a'r Coleg wedi parhau i gefnogi sectorau allweddol yn y ddinas, gan weithio i sicrhau bod sgiliau gweithwyr yn cael eu gwella a bod cyfleoedd i ddysgwyr newydd. Un enghraifft yw gweithio gyda Nexperia i gefnogi twf lled-ddargludyddion cyfansawdd – gan gynnig gradd-brentisiaethau a sicrhau bod llwybrau clir o ddilyniant o TGU a DCU yng Ngholeg Gwent, gan ganiatáu mynediad â gradd uwch i'r gradd-brentisiaethau.




Mae Coleg Gwent, PDC a Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan wedi cydweithio i sicrhau bod llwybrau a datrysiadau lleol yn cael eu canfod i gefnogi'r galw am staff iechyd a gofal cymdeithasol. Y gobaith yw creu ecosystem lle gall y rhai sy'n gweithio yn y sector gofal cartref gael cydnabyddiaeth ffurfiol o'r gwaith hwnnw pan fyddan nhw'n gwneud cais am le ar gyrsiau proffesiynol yn PDC neu Goleg Gwent. Bydd hyn yn cefnogi darpariaeth gwasanaethau lleol a chyfleoedd i bobl leol symud ymlaen â'u gyrfaoedd yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol.

Mae Canolfan Ymchwil a Datblygu yn cael ei chreu gan Sefydliad Gwybodaeth Ddigidol Cymru (SGDdC) ar Gampws Casnewydd PDC gyda chyllid gan Gronfa Adfywio Cymunedol y DU. I gefnogi nod SGDdC o wella datblygiad y gweithlu digidol ac ymchwil ym maes iechyd a gofal, bydd y ganolfan newydd yn cynnwys dylunio a chreu prototeip o Bentref Iechyd Digidol ar-lein i roi cyfle i fyfyrwyr nyrsio a gofal iechyd cysylltiedig hyfforddi mewn amgylchedd efelychedig, yn ogystal â datblygu deunydd addysgu ar-lein sy'n gysylltiedig â Iechyd a Gofal Digidol.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Trwy **gydweithio** mae Cyngor Dinas Casnewydd, Coleg Gwent a PDC yn gweithio i ddiwallu anghenion byrdymor a hirdymor sectorau allweddol a manteisio ar gryfderau cydfuddiannol pob sefydliad. Er enghraifft, maent yn gweithio i gefnogi'r economi sefydledig, y sector lled-ddargludyddion cyfansawdd; y cymunedau creadigol, gweithgynhyrchu, a busnes; gan gynnwys busnesau newydd i sicrhau bod cyfle i bawb ledled Casnewydd.

Un o brif fanteision cydweithio yw eu gallu i **gynnwys** a defnyddio cysylltiadau yn y gymuned, mewn ysgolion ac mewn busnes i gydweithio ar ddigwyddiadau allweddol a gyda sectorau, gan rannu adborth gan gymunedau ac ysgolion am eu hanghenion. Rydym am i bobl leol mewn ysgolion, colegau a chymunedau fod yn fwy ymwybodol o'r cyfleoedd cyflogaeth ac uwchsgilio yn y ddinas. Gwneir hyn mewn dull dros yr **hirdymor,** gyda'r strwythurau a'r grwpiau bellach ar waith yn cefnogi mwy o aliniad a mewnbwn gan staff ym mhob sefydliad i weithio gyda'i gilydd tuag at weledigaeth a rennir ar gyfer Casnewydd.

Mae Coleg Gwent a PDC Casnewydd yn awyddus i ddatblygu gweithgarwch allgymorth sy'n clymu'r gofynion a'r bylchau yn y farchnad lafur gyda chyfleoedd yn y rhanbarth, gan adlewyrchu'r anghenion am sgiliau lleol, a galluogi dilyniant i yrfaoedd allweddol gan **atal** camgymhariad rhwng y ddau.

Mae cenhadaeth a gweledigaeth Strategaeth Twf Economaidd Casnewydd, gweledigaeth a chenhadaeth Coleg Gwent a Strategaeth 2030 PDC yn cael eu dwyn yn fyw gyda'r cydweithio a gweithgarwch **integredig**, wedi'i dargedu, PDC, Coleg Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd, Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan a chyflogwyr allweddol yng Nghasnewydd.

## Mesurau Perfformiad

Dangosyddion perfformiad yn y dyfodol fydd:

- Y niferoedd o bobl leol fydd yn cofrestru ar ddarpariaeth Coleg Gwent a PDC.
- Nifer y dysgwyr sy'n symud ymlaen o Goleg Gwent i PDC.
- Ymgysylltu â sectorau allweddol / cyflogwyr yn rhanbarth Casnewydd a Gwent.
- Y nifer o ddigwyddiadau allgymorth ac ymgysylltu sy'n cael eu cynnal rhwng y Coleg, y Brifysgol a'r Ddinas a nifer yr ymholiadau sy’n deillio o’r digwyddiadau hyn.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol


Mae Coleg Gwent yn gweithio tuag at adleoli ei gampws yng Nghasnewydd i ganol y ddinas. Mae PDC yn ymestyn ei ddarpariaeth, a'i nod yw dyblu nifer y myfyrwyr yn gyffredinol yn ogystal â chynyddu nifer y myfyrwyr llawn amser ar gampws Casnewydd.

Bydd gwaith allgymorth yn parhau yng Nghasnewydd i gynyddu'r nifer o bobl leol sy'n cofrestru ar ddarpariaeth PDC a Choleg Gwent a nifer y dysgwyr sy'n mynd ymlaen o Goleg Gwent i PDC.

Mae Coleg Gwent yn rhannu gyda PDC ei brofiad a'i arbenigedd yn cefnogi dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol i mewn i fyd gwaith. Bydd PDC yn darparu profiad gwaith i ddysgwyr Coleg Gwent ar eu campws yng Nghasnewydd yn yr ardaloedd arlwyo, ystadau/diogelwch, a'r llyfrgell/ardal cymorth myfyrwyr. Mae disgwyl i'r lleoliadau ddechrau yn ystod hydref 2022. Bydd adeiladu ar hyn yn y tymor hir a bydd yn arddangos y gwaith mae Coleg Gwent yn ei wneud yn y maes hwn i gyflogwyr a sectorau eraill yn y ddinas.

Ynghyd â Phrifddinas-Ranbarth Caerdydd, mae PDC a Choleg Gwent yn gweithio i hyrwyddo mwy o astudiaethau achos yn ymwneud ag amrywiaeth a fydd yn annog cyflogwyr ac unigolion i ystyried gradd-brentisiaethau fel llwybr tuag atynt.

## Cysylltu – Sgiliau Digidol




Lansiwyd Get Connected ar ôl nodi bwlch mewn sgiliau digidol ymhlith dinasyddion yng Nghasnewydd. Aeth Cyngor Dinas Casnewydd (CDC) i bartneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru i ddarparu cwrs sgiliau digidol hanfodol 6 wythnos.

Mae'r cwrs yn ymdrin â'r categorïau a nodir yn Fframwaith Sgiliau Digidol Hanfodol Cenedlaethol y Llywodraeth:

- cyfathrebu
- ymdrin â gwybodaeth a chynnwys
- trosglwyddo
- datrys problemau
- bod yn ddiogel a chyfreithiol ar-lein




Mae sawl carfan wedi'u darparu fel cynllun peilot yng Nghasnewydd yn yr ardaloedd uchaf o ran o amddifadedd ac maen nhw wedi'u cyflawni yn ein hybiau cymunedol a'n canolfannau cymunedol. Mae gan y lleoliadau wi-fi cyhoeddus ac mae'r cynrychiolwyr wedi cael gliniaduron bob un i sicrhau bod pawb yn gallu cymryd rhan.

Mae pobl o bob oed a chymunedau wedi cymryd rhan i ddysgu sgiliau newydd, rhai er mwyn cyfathrebu ag anwyliaid, rhai i gynyddu'r rhagolygon am swyddi, rhai i ddysgu'r pethau sylfaenol gyda chefnogaeth a chymorth ar gael yn rhwydd. Mae dinasyddion sydd wedi cwblhau'r cwrs wedi mwynhau'n fawr, gan ddysgu llawer o sgiliau newydd, ac wedi mwynhau dysgu mewn ystafell ddosbarth a lleoliad cymunedol, yn enwedig ar ôl bod gartref am gyfnod hir ar ôl COVID-19.

Ymhlith yr adborth a dderbyniwyd roedd:

> *"Roeddwn i'n gweld y cwrs hwn yn ddefnyddiol iawn, yn enwedig y wybodaeth am aros yn ddiogel ar-lein, awgrymiadau ar sut i fod yn ddiogel wrth siopa ar-lein, cymharu prisiau, ac ati."*

Mae Casnewydd wedi darparu dros 4 carfan, ac yn bwriadu darparu mwy mewn partneriaeth â Chymunedau Digidol Cymru. Mae sawl llwybr ar gael i gynrychiolwyr sy'n cwblhau'r cwrs i wella eu sgiliau trwy gyrsiau achrededig tymor byr a thymor hir drwy Ddysgu Oedolion yn y Gymuned.

Mae Get Connected hefyd yn cyflawni un o flaenoriaethau allweddol Cynghrair Cynhwysiant Digidol Cymru, y mae Casnewydd yn rhan ohono, ac mae'n un o themâu allweddol y Strategaeth Ddigidol newydd ar gyfer Casnewydd 2022-2027. Mae CDC hefyd yn gweithio gyda'r coleg a'r brifysgol i drafod llwybrau Sgiliau Digidol pellach.

**Sgiliau Diogelwch Seiber i Drigolion Cymdeithasau Tai**

Aeth Cartrefi Dinas Casnewydd (NCH) i bartneriaeth â Phrifysgol De Cymru (PDC) i gynnal sesiynau cynghori galw heibio - Clinigau Cymunedol Seiber ar gampws Prifysgol De Cymru yng Nghasnewydd ar gyfer cwsmeriaid y gymdeithas, oedd yn cynnwys gweithdai yn egluro peryglon twyll ar-lein a sicrhau bod cyfrineiriau yn ddiogel.

Gwyliwch fideo o'r digwyddiad.

Mae Campws Casnewydd PDC yn gartref i'r Academi Seiberddiogelwch Genedlaethol (NCSA), lle mae myfyrwyr yn gweithio'n agos gyda nifer o gwmnïau allanol i sicrhau eu bod yn seiberddiogel. Yn ystod y Clinigau, rhannodd myfyrwyr PDC yr arbenigedd hwn, gyda staff y Brifysgol hefyd yn rhoi awgrymiadau ar ddiogelwch ar-lein. Bwriad y clinigau oedd rhoi cyfle i gwsmeriaid NCH fagu eu hyder ar-lein.






Mae'r gwaith yma'n cefnogi Strategaeth Ddigidol Cymru Llywodraeth Cymru a Strategaeth Ddigidol Cyngor Dinas Casnewydd.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae PDC hefyd yn bwriadu cynnal clinigau Diogelwch Seiber Cymunedol ar gyfer holl drigolion ardal Casnewydd ar brynhawniau Mercher o fis Hydref ymlaen.

## Y Pum Ffordd o Weithio





Nod Get Connected yw gwella sgiliau digidol sylfaenol unigolion dros y **hirdymor**. Cydnabyddir fod nifer sylweddol o anghysonderau mewn Sgiliau Digidol a Chynhwysiant yng Nghymru mewn sawl adroddiad, ac mewn ystadegau a gafwyd o'r hen gyfrifiad a'r un diweddaraf. Gyda mwy a mwy o wasanaethau cyhoeddus a phreifat yn mabwysiadu dull "Digidol yn Gyntaf", mae'n hanfodol nad ydym yn gadael unrhyw un ar ôl a'n bod yn **Atal** gwaharddiad digidol.


Mae Get Connected a rhaglenni sgiliau a chynhwysiant yn **integredig** yng nghanlyniadau nifer o gynlluniau a strategaethau, megis y Cynllun Llesiant, Cynllun Corfforaethol a Strategaeth Ddigidol CDC. Bu CDC yn **cydweithio** gyda Chymunedau Digidol Cymru ar y rhaglen hon. Roedd gwaith ymchwil a wnaed ar gyfer y Strategaeth Ddigidol, a gynhaliwyd gan ddefnyddio arolygon, holiaduron, ac yn **cynnwys** ymchwil wyneb yn wyneb, yn dangos bod Sgiliau Digidol a Chynhwysiant yn uchel ar y rhestr flaenoriaethau i fusnesau, staff a dinasyddion.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Y nod yw darparu sawl carfan dros y 6 mis nesaf a bwriedir cynnal rhaglen hyfforddi'r hyfforddwyr er mwyn i ni allu ei gyflwyno yn fewnol.

# Hyfforddiant Llythrennedd Carbon




Mae Bwrdd Sgiliau Cywir Casnewydd yn Un wedi bod yn awyddus i ehangu ei ffocws y tu hwnt i les economaidd, i les amgylcheddol a chymdeithasol. Gyda hyn mewn golwg, buom yn gweithio gyda Grŵp Gweithredu Lleol Dyffryn Wysg, Cyngor Sir Fynwy a Cynnal Cymru i greu cwrs hyfforddi Llythrennedd Carbon cymunedol newydd.



Mae'r Prosiect Llythrennedd Carbon yn rhaglen hyfforddi a gydnabyddir yn rhyngwladol sy'n hyrwyddo dealltwriaeth newid hinsawdd ac yn helpu unigolion a sefydliadau i wneud newidiadau i leihau allyriadau carbon. Ar gyfartaledd, mae unigolion sy'n cymryd rhan yn yr hyfforddiant yn lleihau eu hallyriadau o 5-15%.

Ar ôl sicrhau arian gan y Gronfa Datblygu Gwledig, roeddem yn gallu cynnig yr hyfforddiant am ddim i'r cyngor cymuned / cynrychiolwyr adeiladu a thrigolion mewn wardiau gwledig yng Nghasnewydd.

Dangosodd adborth gan gyfranogwyr fod y rhai a gymerodd ran yn ei chael hi'n ddefnyddiol i ddeall camau ymarferol y gallant eu cymryd i leihau eu hallyriadau carbon.

Dywedodd un cyfranogwr, "Gorffennais fy nghwrs llythrennedd carbon yr wythnos hon, roedd yn wirioneddol wych, roedd syniadau gwych ar gyfer y cartref a'r gwaith, ac yn gyfle gwych i rwydweithio".

Y bwriad yw cyflwyno'r hyfforddiant i drigolion ar draws Casnewydd gyfan yn dilyn y peilot mewn ardaloedd gwledig. I hwyluso hyn roedd ein prosiect yn cynnwys sesiynau Hyfforddi'r Hyfforddwr, a oedd yn caniatáu inni hyfforddi tiwtoriaid a staff addysg oedolion yng Nghasnewydd a Chyngor Sir Fynwy i fedru ei ddarparu. O ganlyniad, bydd llythrennedd carbon nawr yn cael ei gynnig fel cwrs achredig i drigolion Casnewydd yn nhymor yr hydref 2022 fel rhan o Raglen Dysgu Parhaus Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd.




Mae ein prosiect wedi cael ei gydnabod gan Wobrau Dysgu Oedolion Inspire! 2022 lle cyrhaeddom rownd derfynol y categori Amgylchedd.

Ariannwyd y prosiect hwn drwy Raglen Datblygu Gwledig – Cymunedau Gwledig Llywodraeth Cymru 2014-2020, a gefnogir gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig a Llywodraeth Cymru.

## Y Pum Ffordd o Weithio





Bydd gan Lythrennedd Carbon fuddion **hirdymor** i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol drwy helpu pobl yng Nghasnewydd i ddeall y wyddoniaeth y tu ôl i newid hinsawdd ac i feddwl am y newidiadau y gallant eu gwneud yn eu bywydau eu hunain i leihau eu hôl-troed carbon, a thrwy hynny helpu **atal** sefyllfa sy'n gwaethygu.


Datblygwyd y prosiect yn **gydweithredol** drwy Grŵp Gweithredu Lleol Dyffryn Wysg gyda Chyngor Sir Fynwy a Cynnal Cymru. Mae cyfyngu ar newid hinsawdd a lleihau ôl troed carbon yn **integredig** ar draws pump o'r nodau llesiant ac nid yw'n effeithio'n andwyol ar y ddau arall. Bydd llythrennedd carbon hefyd yn cefnogi cyflawniad holl Amcanion Llesiant y Cynllun Llesiant.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae cyrsiau Llythrennedd Carbon bellach wedi'u cynnwys yn Rhaglen Parhau i Ddysgu Oedolion Cyngor Dinas Casnewydd ar gyfer tymor Hydref 2022.

## Prosiect Ailgychwyn Reach




Cyflwynwyd prosiect Reach+ mewn cydweithrediad rhwng Cyngor Dinas Casnewydd a Choleg Gwent. Mae Lot1 y prosiect yn cynnig cefnogaeth i ffoaduriaid, tra gall Lot2 gynnig asesiad Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (ESOL) i ymfudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid. Cafodd y rhan fwyaf o'n cwsmeriaid gefnogaeth gan y ddau garfan.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cyflwyno Lot1 sy'n cynnig Asesiadau Cyfannol i ffoaduriaid. Mae'r asesiad yn nodi rhwystrau i integreiddio, yr ydym yn gweithio i'w ddileu. Buom yn cydweithio â gwasanaethau mewnol a phartneriaid CDC i gael gwared ar y rhwystrau hyn a chynnig cymorth cyflogadwyedd, fel y gall ffoaduriaid symud i gyflogaeth gynaliadwy.

Mae Coleg Gwent yn darparu Lot2, gan gynnig asesiadau ESOL a dosbarthiadau dilynol ar wahanol lefelau. Yn ogystal cynhelir dosbarthiadau gan Dysgu Oedolion yn y Gymuned y Cyngor a Dysgu Oedolion Cymru.

Dechreuodd Rhaglen Ffoaduriaid REACH+ ym mis Gorffennaf 2019 ac mae wedi profi'n llwyddiannus i'r rhai sydd wedi derbyn eu Statws Ffoaduriaid i aros yn y DU. Aeth y prosiect yn ei flaen tan 31 Mawrth 2022.

Yn ystod pandemig COVID, roeddem yn gallu cyrraedd targedau ac ymgysylltu â ffoaduriaid drwy Microsoft Teams, neu drwy ymweld â nhw mewn mannau diogel y tu allan, yn aml yn siarad â chyfranogwyr y tu allan i'w cartrefi a rhoi sicrwydd iddyn nhw, gan sicrhau eu diogelwch, rhannu gwybodaeth am gyfyngiadau a chanllawiau Covid-19, a chynnig cyngor am gyflogadwyedd ac ESOL. Yn ystod y cyfnod hwn, rhoesom offer TG gan gynnwys cyfrifiaduron llechen a donglau Wi-Fi fel y gallent barhau i ddysgu ESOL, rhyngweithio â staff y prosiect a chwblhau cyfleoedd dysgu eraill sy'n anelu at gefnogi'r unigolyn i gael gwaith.

Mae pawb a gymerodd ran yn y prosiect wedi llwyddo i fynd i gael addysg ESOL neu wedi derbyn cymorth cyflogadwyedd. Mae rhai yn dal i astudio ESOL ac yn symud ymlaen gyda'u graddau yn Saesneg.

Yn ystod y prosiect, buom yn cynorthwyo dros ddeg o gwsmeriaid sy’n ffoaduriaid i waith gwirfoddol gydag BIPAB a nifer o siopau elusen, yn cynorthwyo ffoaduriaid a oedd eisoes yn gweithio, a chyda safon ardderchog o Saesneg i symud ymlaen mewn cyflogaeth, cael dyrchafiad neu ddod o hyd i gyflogaeth gynaliadwy, a chynorthwyo teulu y cafodd eu plant fynediad i'r brifysgol.

Rydym wedi llwyddo i gefnogi ffoaduriaid iau gyda'u hastudiaethau a'u hannog i ystyried addysg bellach o fewn colegau lleol.  Mae hyn wedi eu helpu i symud ymlaen gyda'u hamcanion o ran gyrfa.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae darpariaeth y prosiect yn seiliedig ar helpu mudwyr i ymgartrefu yn y DU drwy eu cefnogi i weithio a chyfrannu at eu cymuned leol.  Drwy ddileu rhwystrau i integreiddio, cynnig cyngor, canllawiau a chymorth gyda dysgu Saesneg, cyflogaeth a hyfforddiant/addysg, nod y prosiect yw sicrhau eu bod yn ddigon diogel a sefydlog i gynnal cyflogaeth yn yr **hirdymor**.

Roedd y ffocws ar **ataliad** yn cynnwys: atal tlodi drwy gynnig cymorth gyda materion ariannol, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau a chymorth cyflogadwyedd; atal digartrefedd drwy gynnig cyngor a chymorth ar dai; atal problemau iechyd a lles drwy helpu ffoaduriaid i gofrestru gyda meddygon, deintyddion, gwasanaethau cymdeithasol a thimau ymyrraeth teuluol; atal yr anallu i integreiddio drwy gynnig asesiadau iaith; ac atal ynysu cymdeithasol drwy gynnig cyngor am y grwpiau cymorth lleol a gweithgareddau sydd ar gael yn eu hardal leol.

Roedd y prosiect yn cefnogi **integreiddio** ymyriadau Sgiliau Cywir a Chymunedau Cryf ac mae'n dibynnu ar gymorth a **chydweithio** gan wahanol bartneriaid i ddarparu gwasanaeth effeithiol.  Rydym wedi meithrin perthynas waith dda gyda phartneriaid drwy drafod themâu a materion cyffredin sy'n effeithio ar y cyfranogwyr rydym yn eu cefnogi.

Mae partneriaid sydd **ynghlwm wrth y gwaith** yn cynnwys Coleg Caerdydd a'r Fro; Cyngor Dinas Casnewydd; Coleg Gwent; y Groes Goch Brydeinig; Prosiect Adleoli Pobl Agored i Niwed; Cyngor Ffoaduriaid Cymru; Dysgu Oedolion Cymru; yr Adran Gwaith a Phensiynau; Dysgu Oedolion yn y Gymuned; Coleg Gŵyr; Coleg Cambria; Llywodraeth Cymru; Partneriaeth Mudo Strategol Cymru; a Chanolfan Gap.  Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth, Cymdeithasau Tai a'r Swyddfa Gartref i sicrhau bod unrhyw broblemau integreiddio yn cael eu datrys.

## Mesurau Perfformiad


Cefnogodd Lot1 275 o ffoaduriaid yn erbyn targed o 180.


Mae Lot2 wedi cefnogi 557 o ffoaduriaid sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau ESOL.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r prosiect bellach wedi dod i ben ond, drwy'r rhaglen Dechrau Newydd, byddwn ni'n gweithio gyda ffoaduriaid i uwchsgilio eu hopsiynau cyflogadwyedd yn barod ar gyfer pan maen nhw'n ymuno â chynlluniau cyflogaeth eraill.  Bydd y cynllun hefyd yn cyfeirio at ddarpariaeth ESOL a ddarperir gan Goleg Gwent, ALW neu ACL.

## Cymorth Cyflogaeth




Yn ystod y flwyddyn fe wnaethom gyflwyno amrywiaeth o fentrau i gysylltu pobl leol â swyddi lleol drwy weithio gyda chyflogwyr, sefydliadau a chymunedau allweddol yn y ddinas. Roedd hyn yn cynnwys Cynllun Cyflogadwyedd Ailgychwyn, Ffair Swyddi, sesiynau blasu â ffocws ar y sector, gwaith gydag asiantaeth gyflogi o bwys yng Nghasnewydd a chymorth recriwtio ar gyfer gwesty mwyaf newydd Casnewydd.

### Cynllun Cyflogadwyedd Ailgychwyn – Datblygu Busnes

Mae'r Cynllun Cyflogadwyedd Ailgychwyn yn canolbwyntio'n bennaf ar feithrin perthnasoedd yn lleol er mwyn dod o hyd i swyddi gwag cynaliadwy a chefnogi'r economi wedi'r pandemig. Gan fod Ailgychwyn yn gynllun cyflogadwyedd newydd sbon eleni, roedd yn bwysig arddangos yr hyn y gall ei gynnig i gefnogi recriwtio yn y ddinas ac i feithrin perthnasoedd allweddol â chyflogwyr mawr oedd angen cymorth gyda Recriwtio.

Y nod o'r dechrau oedd rhoi swyddi Casnewydd i bobl Casnewydd. Dechreuodd gyda datblygu perthnasoedd gweithio cryf gyda chyflogwyr mwy, megis Nexperia, SSCL, Norse & SPTS, sydd â nifer fawr o swyddi gwag ar lefel mynediad sy'n cyd-fynd ag anghenion ein cyfranogwyr. Rydym yn trafod cyfleoedd rheolaidd gyda'r sefydliadau hyn a sut y gallwn gefnogi eu recriwtio yn effeithiol. Ers i'r prosiect ddechrau, rydym wedi cyfeirio dros 70 o gyfranogwyr at swyddi gwag sydd ar gael yn y ddinas, gan roi cefnogaeth gadarn cyn iddynt gael eu cyflogi, o ran paratoi at gyfweliadau, a rhoi adborth iddynt.

### Ffair Swyddi a Sesiynau Blasu


Fel estyniad i adeiladu perthnasoedd gyda busnesau allweddol, cynhaliwyd ffair swyddi wyneb yn wyneb yng Nghanolfan Casnewydd y ddinas ym mis Mai, gan wahodd pob un o'r cyflogwyr y mae'r Tîm Ailddechrau yn gweithio gyda nhw i ddod at ei gilydd – nid yn unig i lenwi swyddi gwag, ond i rwydweithio a rhannu arfer gorau. Yn y cyfnod cyn hyn, cynhaliwyd digwyddiadau o fewn y gymuned leol i ddeall beth oedd aelodau o'r gymuned yn chwilio amdano o ran sectorau. Cafodd y sesiynau blasu canlynol eu cynnal o fewn hybiau cymunedol y Cyngor:

- Adeiladu Amdani
- Gyrfa Mewn Gofal
- Sesiynau yn rhoi cipolwg ar waith Canolfan Alwadau
- Gyrfa Mewn Glanhau

Gwelodd y digwyddiadau hyn gymunedau lleol yn dod at ei gilydd i ddysgu am ba rolau allai ddatblygu  a sut i gyfarfod â chyflogwyr, sut i ymddwyn mewn  cyfweliad neu fynegi diddordeb.  Fe wnaethon nhw hefyd hysbysu beth oedd angen i gyflogwyr ei gynnwys yn y ffair swyddi yn unol â'r anghenion yn y gymuned.

**Cydweithio â Acorn Recruitment**

Mae Acorn Recruitment, sydd â'i bencadlys yng Nghasnewydd, yn un o'r asiantaethau recriwtio mwyaf sefydledig yn y DU, ac o ganlyniad mae ganddi amrywiaeth eang o swyddi ar gael.  Roedd cydweithio â nhw yn rhoi'r cyfle i bobl oedd yn chwilio am waith gofrestru gydag asiantaeth recriwtio adnabyddus ac ystyried ystod o gyfleoedd gweithio hyblyg.  Cynhaliwyd digwyddiadau recriwtio ym mhob un o'r pedair canolfan gymdogaeth ar draws Casnewydd yn ystod mis Ionawr 2022, a ddarparwyd gan CDC ac Acorn Recruitment.  Roedd y digwyddiad yn llwyddiant mawr gan arwain at 62 o achosion o ddiddordeb gan y gymuned, allai arwain at ddewisiadau o ran cyflogaeth.







**Recriwtio Gwesty Mercure**

Ym mis Ionawr 2022, dechreuodd partneriaeth recriwtio gyda Gwesty newydd Mercure yng nghanol y ddinas. Cynhaliwyd dyddiau recriwtio yn hybiau cymdogaeth y ddinas lle gallai pobl oedd â diddordeb mewn gweithio yn y sector lletygarwch archebu lle ar gyfer cyfweliad neu alw heibio gyda'u CV.  Nod y fenter oedd i'r Gwesty hyrwyddo ac ymgysylltu â chymunedau lleol Casnewydd gan roi cyfle i bobl gael eu cyfweld am ystod eang o swyddi.




Nododd y gwaith partneriaeth rywfaint o hyfforddiant allweddol y byddai'n ofynnol i ddarpar weithwyr y gwesty ei gael, cyn cyflogaeth bosibl.  O'r adborth hyn, roeddem yn gallu helpu ymgeiswyr i ennill achrediadau ffurfiol yn y meysydd hyn, a fyddai o fudd iddynt beth bynnag fo canlyniad eu cyfweliad.  Arweiniodd y fenter at 140 o gyfweliadau / ymgysylltiadau rhwng y gymuned a'r cyflogwr a disgwyliad y byddai llif o gyfleoedd gwaith wrth i'r gwesty ddechrau ehangu ei arlwy drwy ei agoriad graddol.

Gweler adborth gan y Mercure yn dilyn y digwyddiad.

*"Diolch am eich cefnogaeth gyda'n diwrnodau recriwtio a gynhaliwyd gennym ledled Casnewydd ym mis Ionawr. Roedd pob un o'r pedwar diwrnod recriwtio yn llwyddiant ysgubol!*

*"Daeth nifer i Billgwenlli, Betws, Maesglas a Ringland. Roedd gennym dros 100 o ymgeiswyr yn bresennol yn ystod y pedwar diwrnod ac rydym wedi gallu cynnig sawl swydd iddynt."*

*"Roedd ansawdd a safon yr ymgeiswyr yn uchel iawn a oedd yn gwneud ein penderfyniadau'n anodd wrth ddewis yr ymgeiswyr a oedd yn llwyddiannus. Ni allwn gynnig swydd i bawb y cyfarfûm â hwy, ond mae gennyf bellach fanc talent o bobl y bydd gennyf gyfleoedd iddyn nhw o bosib yn y dyfodol.*

*"Roedd yn brofiad ardderchog ac roedd hi'n wych cwrdd â phobl o'r gymuned leol a fyddai wrth eu bodd yn bod yn rhan o Westy Mercure, Casnewydd".*

## Y Pum Ffordd o Weithio




Rydym yn **cydweithio**'n llwyddiannus gyda llawer o gyflogwyr o bob maint yn y ddinas i barhau i wella'r economi leol a recriwtio o'n cymunedau. Rydym yn gweithio nid yn unig gyda busnesau i gyflwyno ein cefnogaeth o ran recriwtio, ond rydym yn mynd ati i weithio gyda chyflogwyr i wella eu cynigion a'u prosesau recriwtio i sicrhau eu bod yn gynaliadwy yn yr hinsawdd sydd ohoni. Rydym yn gweithio gyda chyflogwyr i fynd i'r afael â rhwystrau i weithio, a sut y gall busnesau ddileu'r rhain i ddenu'r talent gorau a chael y gorau o ddarpar weithwyr. Roedd gweithio ar y cyd â Chyngor Dinas Casnewydd a'r hybiau cymdogaeth yn ystod camau cynllunio'r ffair swyddi ledled y ddinas yn golygu ein bod ni'n mynd ati i rannu arbenigedd a pherthnasoedd.

Drwy fynd ati i weithio gyda chyflogwyr a'u **cynnwys** yng nghamau cynllunio digwyddiadau, rydyn ni'n gallu meithrin perthynas gynaliadwy gref ar gyfer y dyfodol. Mae cynnwys cyflogwyr a rhanddeiliaid yn y camau cynllunio yn allweddol. Gallant i gyd gefnogi gyda marchnata'r digwyddiad a rhannu'r gwaith y mae Ailgychwyn yn ei wneud ar draws eu rhwydweithiau eu hunain, gan dyfu cyrhaeddiad ar gyfer y ffair swyddi a'r prosiect yn ei gyfanrwydd.

## Mesurau Perfformiad

- Dros 100 o ymatebion yn hysbysu pa sectorau sydd eu hangen fwyaf yn y Ffair Swyddi a pha rai fyddai fwyaf o ddiddordeb i'n cymunedau.
- Cadarnhaodd 42 o gyflogwyr o fewn wythnos o hysbysebu'r Ffair Swyddi, eu bod eisiau cefnogi a bod yn rhan o'r digwyddiad mewn unrhyw ffordd y gallent.
- Cefnogaeth lawn gan Ganolfan Swyddi Casnewydd, gan gydweithio gyda hyfforddwyr gwaith i symud eu cyfranogwyr i fyd gwaith.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol


Y bwriad yw cynnal Ffair Swyddi arall ym mis Medi 2022.

# Mae pawb yn perthyn i gymunedau gwydn, cyfeillgar a chysylltiedig ac yn teimlo'n hyderus ac wedi'u grymuso i wella eu lles

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2021-22, mae nifer o astudiaethau achos wedi'u hamlinellu isod. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Llesiant y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Cyllidebu Cyfranogol yng Nghasnewydd

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae Cyngor Dinas Casnewydd a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan wedi darparu rhaglen gyllidebu cyfranogol fawr (CC) a fydd yn gyfystyr â chyfanswm buddsoddiad o fwy na £500,000 yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae CC yn fath o ddemocratiaeth uniongyrchol lle mae sefydliadau lleol yn cynnig gweithgareddau sydd â'r bwriad o gyflawni nodau rhaglenni penodol ac yna mae dinasyddion yn pleidleisio i benderfynu pa brosiectau sy'n derbyn arian.

Cafodd CC ei dreialu am y tro cyntaf ar raddfa fach yng Nghasnewydd yn 2019 yn ystod rhaglen beilot y Swyddfa Gartref i gryfhau cymunedau fel eu bod yn llai agored i droseddau difrifol a threfnedig. Er gwaethaf y gyllideb gymharol fach oedd ar gael o £15k, roedd potensial CC i egnïo cymunedau lleol ac adeiladu dinasyddiaeth yn amlwg ac yn cynnig model ac achos busnes ar gyfer rhaglenni pellach.

Yn dilyn y rhaglen beilot, rhoddodd ein partner Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan £100k ar gyfer 2020-21 i gynyddu gweithgareddau CC yng Nghasnewydd, gan ganolbwyntio ar gefnogi'r Cynllun Llesiant ar gyfer y ddinas ac yn arbennig â'n nod cyffredin o adeiladu 'Cymunedau Gwydn Cryf'. Roedd dechrau pandemig Covid-19 yn gofyn am newid mewn ffocws ar gyfer y rhaglen hon, fodd bynnag, roedd hyblygrwydd cynhenid CC yn golygu y gellid rhoi 'cronfa adfer ar ôl Covid' ar waith gan ddefnyddio CC i gynnig atebion arloesol, ategu cefnogaeth y sector cyhoeddus a datblygu cyfalaf cymdeithasol i fynd i'r afael ag effeithiau Covid-19. Byddai'r rhaglen hon wedi'i chynllunio er budd y grwpiau cymdeithasol yr oedd yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymuned gan y Cyngor wedi nodi eu bod wedi'u heffeithio waethaf gan y pandemig, o ran iechyd ac effaith gymdeithasol ac economaidd ehangach.

Er i'r rhaglen gael ei chynnal mewn cyfnod o gyfyngiadau iechyd cyhoeddus roedd y dyraniad grant wedi'i or-danysgrifio'n gyda dros 80 o brosiectau wedi'u cyflwyno, dros 400 o bobl leol yn pleidleisio gyda 24 o brosiectau'n derbyn arian.

Wrth i'r pandemig barhau am yr ail flwyddyn penderfynodd Cyngor Dinas Casnewydd y penderfyniad i gynyddu'r buddsoddiad yn CC unwaith eto fel ffordd o gefnogi 'Adferiad Covid'. Dyrannodd y weinyddiaeth £500k dros ddwy flynedd a oedd, ynghyd â chyllid cyfatebol gan Iechyd, yn cyfateb i raglen grant gwerth £415k ar gyfer 2021-22 a thua £750,000 i gyd. Credwn mai dyma'r buddsoddiad mwyaf arwyddocaol yn CC unrhyw le yn y sector cyhoeddus yng Nghymru ac mae'n cynrychioli ymrwymiad y Cyngor i roi llais go iawn i bobl leol wrth wneud penderfyniadau.

Mae rhaglen 2021-22 wedi ariannu amrywiaeth o weithgareddau sy'n cyfrannu at fynd i'r afael ag effeithiau cymdeithasol Covid-19. Mae wedi cefnogi prosiectau newydd trydydd sector, tra hefyd yn ceisio cynnal y cyfoeth o brosiectau a grwpiau a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig. Gyda hyn mewn golwg penderfynwyd y dylid dyrannu mwyafrif y cyllid i grantiau llai o hyd at £5k, a ddylai, ynghyd â phroses ymgeisio symlach apelio at grwpiau newydd a'r rhai sydd â phrofiad cyfyngedig o wneud cais am gyllid. Roedd yr ymateb i'r rhaglen bresennol yn ysgubol gyda dros 100 o geisiadau ariannol yn cwmpasu ystod eang o gynigion, o brosiectau economi gylchol, uwchraddio adeiladau cymunedol, cynlluniau ar gyfer gwyliau diwylliannol i wasanaethau cymorth i bobl ifanc. Llwyddodd dros 80 o sefydliadau i dderbyn yr arian roedden nhw ei eisiau.

Mae enghreifftiau o rai o'r fideos a gynhyrchwyd gan ymgeiswyr llwyddiannus yn ystod y broses o wneud cais yn cynnwys:

- Clwb Pêl-droed Parc Tredegar (Breuddwydion Plant, Bywydau Plant, Chwaraeon Plant)
- Maendy Unlimited (Gŵyl Economi Gylchol Casnewydd)
- Forget Me Not Chorus (Cymuned Casnewydd)
- Cylch Trefol Casnewydd (Persbectif Byr)

Er bod y don ddiweddar o Omicron yn golygu bod y chwe digwyddiad pleidleisio wedi cael eu cyflwyno'n bennaf drwy blatfform pleidleisio a fideo ar-lein, roeddem yn ymwybodol o'r risg o allgau pobl a allai effeithio'n anghymesur ar gyfranogiad y grwpiau cymdeithasol yr oeddem fwyaf eisiau elwa ohonynt. Er bod cynhwysiant digidol ar adeg o gyfyngiadau ar allu pobl i gwrdd a llai o ddarpariaeth gwasanaethau wedi profi'n her ar draws y sector cyhoeddus, roeddem yn awyddus i gynnig dewis arall yn lle pleidleisio ar-lein yn unig. Roedd pob digwyddiad yn cynnwys yr opsiwn i bleidleisio wyneb yn wyneb mewn hybiau lle mae staff y Cyngor yn rhoi cymorth i bobl i gymryd rhan. O ganlyniad fe gymerodd dros 450 o bobl ran yn y digwyddiadau. Ar y llaw arall, un o fanteision digwyddiadau ar-lein yw'r 'sgwrs' sy'n effeithiol o ran galluogi dinasyddion i wneud cysylltiadau, cydlynu prosiectau a chymryd rhan. Mae'r adborth yn dangos bod cyfranogwyr yn bositif am y broses, o ran gwneud cais am gyllid a chymryd rhan mewn digwyddiadau pleidleisio. Mae Comisiwn Tegwch Casnewydd wedi bod yn bartner cyflawni gweithredol a chraff ac maen nhw wedi comisiynu adolygiad academaidd o'r rhaglen CC flaenorol, gyda'r bwriad o wella prosesau a chyflawni'r canlyniadau tecaf.

Mae'n ymddangos y bydd y corff cynyddol o waith CC yng Nghasnewydd ac annog adborth yn dylanwadu ar brosiectau pellach yn y dyfodol. Mae'r Cyngor bellach yn meddwl am 'brif-ffrydio' cyllidebu cyfranogol lle mae swm y cytunir arno yn cael ei gynnwys mewn cyllidebau yn y dyfodol i ganiatáu i gymunedau leisio eu barn wrth benderfynu lle mae arian cyhoeddus yn cael ei fuddsoddi mewn gwasanaethau cyhoeddus a seilwaith pur, fel sy'n digwydd gyda Llywodraeth yr Alban. Yr hyn na ellir ei wadu yn ein tyb ni, yw bod CC wedi caniatáu inni adeiladu cyfalaf cymdeithasol a darparu cefnogaeth ychwanegol i'n cymunedau sydd wedi eu heffeithio waethaf ar adeg pan mae gwasanaethau'r Cyngor wedi bod o dan bwysau dwys.

### Y Pum Ffordd o Weithio




Er bod y gwaith CC diweddaraf yn ymwneud yn bennaf ag adferiad Covid ac mae'n canolbwyntio ar y grwpiau yr effeithir arnynt waethaf roedd cwmpas y rhaglenni yn caniatáu ystod eang o brosiectau a allai gyfrannu at unrhyw un neu fwy o'r nodau llesiant fel rhan o ddull **integredig**.

Cyd-gynhyrchwyd y rhaglen yn **gydweithredol** trwy grŵp cynllunio aml-asiantaeth / aml-sector i sicrhau tegwch, cyfranogiad ac effeithiolrwydd. Datblygwyd nodau'r prosiect penodedig gydag **egwyddorion atal** ac adferiad **hirdymor** mewn golwg. Wrth gwrs, union natur cyllidebu cyfranogol yw hyrwyddo **cyfranogiad** wrth wneud penderfyniadau, ond mae'r prif ganlyniadau eraill sef cryfhau'r sector cymunedol, cynyddu capasiti a datblygu cyfalaf cymdeithasol o'r un pwys ac yn amlwg yn rhaglenni Casnewydd.


### Mesurau Perfformiad


| Mesur | Nifer / canran |
|---|---|
| Nifer y sefydliadau a dderbyniodd arian yn 2021-22 | 80 |
| Nifer y rhai a gymerodd ran yn y bleidlais yn 2021-22 | 460 |
| Canran y cyfranogwyr pleidleisio a fwynhaodd y digwyddiad | 94% |
| Canran y cyfranogwyr oedd yn fwy tebygol o ymgysylltu â darparwyr gwasanaethau lleol yn dilyn y rhaglen | 45% |

### Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Fel rhan o'u hymrwymiad parhaus i ddefnyddio dulliau CC mae'r Cyngor ac ABUHB wedi gwneud buddsoddiad pellach gwerth £300k ar gyfer 2022-23. Mae'r gwaith cynllunio bellach ar y gweill ar gyfer y rhaglen ddiweddaraf a fydd unwaith eto yn ceisio sicrhau amrywiaeth o ganlyniadau lles allweddol.

## Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel



Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel yn cydlynu Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel hirsefydlog sy'n meithrin gwaith partneriaeth. Mae tua 131 o aelodau yn cydweithio tuag at nodau cyffredin yr ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel. Mae hyn yn ddull cyflawni pwysig a sylweddol, yn offeryn i dynnu sylw at gyfleoedd ar gyfer cydweithio, gan ddarparu arbenigedd a dealltwriaeth 'darlun mawr' werthfawr o'r holl waith sy'n digwydd ledled Casnewydd.







Caiff y rhwydwaith ei gynnull mewn gweithdai rheolaidd i amlygu a rhannu dysgu ac arfer gorau ac fe'u tynnir ynghyd mewn grwpiau llai ar brosiectau penodol. Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel wrthi'n ehangu aelodaeth i greu rhwydwaith mwy amrywiol. Mae'r ymyriad Gwyrdd a Diogel yn ceisio cefnogi mwy a mwy o grwpiau cymunedol trwy gynnig cyngor, cymorth, hyrwyddo a chyfeirio at gyllid i helpu i wella mannau gwyrdd presennol a rhai segur. Cyhoeddwyd fersiwn un dudalen o'r weledigaeth a'r nodau a sut y gallwn ni i gyd fod yn rhan ohono.



## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gan lawer o sefydliadau ar y Rhwydwaith brosiectau sy'n ystyried y **tymor hir**, yn enwedig o ran yr argyfyngau hinsawdd a natur, cenedlaethau'r dyfodol, ailgysylltu pobl â natur, a helpu cymunedau i reoli mannau gwyrdd yn y tymor byr a'r tymor hir gan ganolbwyntio ar gynaliadwyedd. Mae'r Rhwydwaith yn helpu i dynnu'r gwaith hwn at ei gilydd. Mae wedi'i hen sefydlu, a bydd y cysylltiadau a wneir yn debygol o barhau yn y tymor hir.

Mae nodau cyffredin y Rhwydwaith o wella mannau gwyrdd i bobl a natur yn helpu i **atal** a lleihau problemau iechyd corfforol a meddyliol a chynyddu ymdeimlad da o les, cynyddu bioamrywiaeth, cefnogi bywyd gwyllt a mynd i'r afael â'r argyfwng natur, ac mae'n helpu Casnewydd i ddod yn fwy gwydn i wrthsefyll y newid yn yr hinsawdd. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynyddu diogelwch neu ddiogelwch canfyddedig mewn mannau gwyrdd, gan gydweithio i ddod o hyd i ddulliau ataliol o ran rhwystrau i gael mynediad i fannau gwyrdd.

Mae gan y Rhwydwaith nodau lles trawsbynciol sy'n **integreiddio** ac yn cyd-fynd â'i gilydd. Mae pob partner yn gweithio yn ôl y 5 Ffordd o Weithio ac yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir ar draws pob nod llesiant trwy ddiogelu ac adfer natur, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r Rhwydwaith hefyd yn bodloni Amcanion Llesiant 3 a 2, gan gynyddu gwydnwch a gwella sgiliau a chyfleoedd.

Gyda thua 131 o aelodau, mae'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel hirsefydledig yn meithrin partneriaethau cryf sy'n gweithio **ar y cyd** i gyflawni nodau cyffredin yr ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel. Mae'n ddull cyflawni pwysig a sylweddol o nodau a gweledigaeth yr ymyrraeth, yn offeryn i dynnu sylw at gyfleoedd i gydweithio, gan ddarparu arbenigedd a dealltwriaeth werthfawr ar ffurf 'darlun mawr' o'r holl waith sy'n digwydd ledled Casnewydd.

Lluniwyd yr ymyriad gan yr asesiad lles cychwynnol ond mae hefyd wedi'i lunio, ei ddatblygu a'i lywio gan arbenigedd gwerthfawr yr holl bartneriaid rhwydwaith hyn. Mae llawer o bartneriaid y Rhwydwaith yn cyflawni gweithgarwch ymgysylltu sy'n **cynnwys** y cymunedau yr ydym yn gweithio gyda nhw.

## Mesurau Perfformiad

Gellir dod o hyd i rai o'r mesurau perfformiad allweddol a nodwyd gan yr Ymyriad Mannau Gwyrdd a Diogel ar y dangosfyrddau a gynhyrchir ym mhob chwarter, y gellir eu cyrchu yma.

Yn ogystal, mae rhai mesurau ychwanegol i'w nodi:

- Mae aelodaeth y rhwydwaith yn parhau'n gryf - 131, ac mae'n fwy amrywiol gydag ychwanegiadau newydd allweddol.
- Mynychir y gweithdai gan tua 30 i 40 o bobl gydag adborth cadarnhaol.
- Cyhoeddir E-gylchlythyrau Mannau Gwyrdd a Diogel chwarterol gan dynnu gwaith y rhwydwaith ynghyd, ac mae diweddariadau rheolaidd a rhannu dysgu yn digwydd ar draws y rhwydwaith.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r Swyddog Ymgysylltu Gwyrdd a Diogel wrthi'n ehangu aelodaeth i greu rhwydwaith mwy amrywiol ac mae'n gweithio i gyrraedd a chefnogi rhagor o grwpiau cymunedol. Bydd gweithdai rheolaidd a chylchlythyrau chwarterol yn parhau, gan roi cyfle ar gyfer rhannu dysgu a chydweithio.

Wrth i ni bontio at Gynllun Llesiant Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent y gobaith yw bod momentwm a brwdfrydedd y Rhwydwaith yng Nghasnewydd yn cael ei drosglwyddo.

## Man Gwyrdd Barrackswood a Grŵp Gwirfoddolwyr y Twmps

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Dechreuodd prosiect Barrackswood gyda chyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur fel rhan o'r ffrwd ariannu Glasu'r Ystad Gyhoeddus nôl yn 2019. Nod y prosiect oedd mynd i'r afael â phroblem hir-sefydlog tipio anghyfreithlon a gwneud rhagor o waith rheoli cadwraeth er mwyn hyrwyddo adferiad natur. Drwy'r prosiect hwn, sefydlwyd rhwydwaith amlasiantaethol o randdeiliaid a phartneriaid gan gynnwys Cyngor Dinas Casnewydd, Cyfoeth Naturiol Cymru, Pobl, Cartrefi Melin, Tîm Plismona yn y Gymdogaeth, Gwirfoddolwyr a Thrigolion. Mae'r rhwydwaith hwn wedi parhau, gan sicrhau bod yr holl bartneriaid yn ymgysylltu ac yn llywio'r camau nesaf.



O ganlyniad i'r prosiect hwn mae'r Grŵp Cadwraeth Natur, Y Twmps, wedi ffurfio ac mae'n ymddiddori'n frwd yn llwyfandir uchaf y man gwyrdd. Â chefnogaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd maent yn gwirfoddoli i ymgymryd â thasgau rheoli cadwraeth megis curo rhedyn a gwaith clirio.

Maen nhw hefyd yn monitro ac yn cofnodi pob rhywogaeth a welwyd ar y safle ac wedi cofnodi bron i 400 o rywogaethau gwahanol dros y flwyddyn ddiwethaf! Mae'r monitro hwn yn allweddol i lywio ein rheolaeth o'r safle yn y dyfodol.

Agwedd fawr arall ar y prosiect hwn yw mynd i'r afael â'r Rhywogaeth Estron Oresgynnol Llysiau'r Dial sydd wedi plagio'r safle ers degawdau. Mae ariannu'r driniaeth barhaus i'r holl safle wedi agor ardaloedd newydd ac rydym yn gweld cynnydd yn y blodau a'r planhigion ar wyneb y tir, i gyd wedi'u cofnodi gan Grŵp Gwirfoddolwyr Y Twmps. Gyda chefnogaeth y rhwydwaith aml-asiantaeth, mae'r Twmps hefyd wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu â natur llwyddiannus megis sesiynau adnabod natur a theithiau cerdded ystlumod.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r grŵp gweithredu aml-asiantaeth o bartneriaid yn parhau i weithio, a thrwy ddatblygu grŵp gwirfoddoli lleol bydd hyn yn creu sylfaen gynaliadwy **hirdymor** ar gyfer cadwraeth barhaus a defnydd cadarnhaol a chyfrifol gan y gymuned. Mae cynyddu mynediad i fannau gwyrdd naturiol o safon i wella iechyd a lles lle mae ei angen fwyaf yn **atal** anghydraddoldebau mynediad pellach. Mae'r prosiect yn helpu i gefnogi gwydnwch ecosystemau, ac yn cefnogi gwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng natur a cholli bioamrywiaeth. Mae'r prosiect yn helpu i gyfleu'r buddion i iechyd a lles pobl ynghyd â chysylltiad â natur. Mae partneriaid wedi gweithio gyda'i gilydd i atal rhagor o dipio anghyfreithlon rhag digwydd. Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir o adfer a gwella natur, sydd **wedi'i integreiddio** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, a chyfrannu at Amcanion 4 a 3 y Cynllun Llesiant. Mae sawl partner, gan gynnwys trigolion lleol a gwirfoddolwyr, yn gweithio'n llwyddiannus **ar y cyd** i wella'r ardal ar gyfer pobl a natur. Mae datblygiad a **chyfranogiad** y grŵp gwirfoddoli lleol wedi bod yn bwysig wrth fynd i'r afael â materion allweddol tipio anghyfreithlon a chadwraeth barhaus.

## Mesurau Perfformiad

Mae'r mesurau a ddefnyddiwyd i fonitro perfformiad wedi cynnwys:


- Prosiectau cydweithredol sy'n cyflawni Gweledigaeth y Mannau Gwyrdd a Diogel a Seilwaith Gwyrdd (SG)
- Gostyngiad mewn tipio anghyfreithlon.
- Cofnodi a Monitro rhywogaethau ar y safle.
- Rheoli Rhywogaethau Estron Goresgynnol.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Y rhwydwaith aml-asiantaeth i barhau i gydweithio i wella'r safle hwn er mwynhad ac iechyd a lles trigolion lleol.

# Sefyll dros Natur

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**



Mae prosiect Sefyll dros Natur Cymru yn brosiect gweithredu dros yr hinsawdd sy'n cael ei arwain gan bobl ifanc ledled Cymru, a ddarperir gan bob Ymddiriedolaeth Natur ledled Cymru i gefnogi, uwchsgilio a grymuso pobl ifanc rhwng 9 a 24 oed i ddod o hyd i'w llais ac i weithredu yn eu cymunedau lleol i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a'r hinsawdd.

Yn ymarferol yng Ngwent, mae'n cynnwys y canlynol: partneru gyda Glasu Maendy i greu gardd law a gwelyau i beillwyr; plannu perllannau a choed eraill o gwmpas Magwyr; creu gwâlau dyfrgwn a llochesi i bili-palod yng Nghasnewydd; creu cartrefi i chwilod a chasglu sbwriel ym Mlaenau Gwent; dysgu sut i gynnal arolygon o fotaneg ac anifeiliaid di-asgwrn cefn; mynychu gorymdeithiau newid hinsawdd a dysgu plant iau am fywyd gwyllt.  Mae ardaloedd ffocws Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent yn canolbwyntio ar Gasnewydd a'r Cymoedd.



## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r prosiect 'Sefyll dros Natur' yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur ac hinsawdd drwy rymuso pobl ifanc i weithredu yn eu cymunedau lleol, **atal** colli rhagor o fioamrywiaeth, er budd pobl a bywyd gwyllt nawr ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.  Mae prosiect Sefyll dros Natur yn **cydweithio** ac yn **cynnwys** amrywiaeth o bobl ifanc a grwpiau cymunedol eraill.

## Mesurau Perfformiad

Mae nifer y cyfranogwyr yn cael ei gofnodi, ond yn y pen draw mae'r prosiect hwn yn ymwneud ag ansawdd yn hytrach na niferoedd ac yn ceisio gweld ymgysylltiadau'n cael eu hailadrodd.  Mae'r prosiect felly'n olrhain y daith y mae pob person ifanc yn ei gymryd, pa sgiliau maen nhw wedi'u datblygu, pa gamau maen nhw wedi eu cymryd, a sut mae eu hyder a'u hannibyniaeth yn datblygu.  Mae'r Ymddiriedolaethau Bywyd Gwyllt hefyd yn dechrau gweithio gyda gwerthuswyr allanol ynglŷn ag elfen cyfrifo carbon y prosiect hwn, gan olrhain yr effaith ar ddal a storio carbon y mae pob ardal o Gymru wedi'i gael, a gobeithio beth mae pob unigolyn sy'n cymryd rhan wedi'i gael hefyd.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Awst 2022 - Uwchgynhadledd Ieuenctid Cymru Gyfan, lle bu pobl ifanc ledled Cymru yn dod at ei gilydd i rannu eu profiadau, dysgu oddi wrth ei gilydd a darparwyr gweithdai allanol, a chael eu hysbrydoli i gymryd mwy o gamau, neu efallai rai gwahanol, yn eu cymuned.

2022 i Awst 2024 – parhau i gysylltu â, recriwtio, uwchsgilio a grymuso pobl ifanc.  Eu cefnogi, ceisio hyfforddiant a chysylltiadau allanol i hwyluso'r hyn maen nhw eisiau ei wneud, eu hannog i gynrychioli eu cymunedau ar lefel uwch.  Mae'r Ail Uwchgynhadledd yn Haf 2023.  Gofyn am gyllid i barhau y tu hwnt i Awst 2024 pan mae disgwyl i'r prosiect ddod i ben.

# Y Bartneriaeth Awyr Agored – Sesiynau Lles Antur Awyr Agored

Ymyrraeth




Nodau Llesiant




Mae'r [Bartneriaeth Awyr Agored]() yn gweithio i gefnogi pobl Cymru ac ardaloedd eraill y DU i wneud gweithgareddau awyr agored ar hyd eu hoes – gan wella bywydau pobl trwy weithgareddau awyr agored drwy wella:

- iechyd corfforol ac iechyd meddwl a lles pobl
- yr elw economaidd (gan gynnwys cyflogaeth)
- y gwerth cymdeithasol drwy weithgaredd awyr agored
- ymwneud ar lawr gwlad mewn gweithgareddau megis cerdded, beicio, dringo, canŵio, padlfyrddio, hwylio, beicio mynydd, a llawer mwy.

Yn ddiweddar mae'r Bartneriaeth Awyr Agored wedi ehangu i ddarparu gweithgareddau yn ardal Gwent. Mae'r bartneriaeth yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cyfleoedd antur awyr agored hyn ar gael yn ehangach ac yn hygyrch i ystod amrywiol o bobl sy'n cael eu tangynrychioli ar hyn o bryd.

Roedd y sesiynau Gweithgaredd Awyr Agored Gaeaf Lles yng Nghasnewydd yn llwyddiant ysgubol. Cafwyd carfan lawn o bobl ifanc ar y rhaglen ym mis Mawrth 2022 ac roedden nhw hyd yn oed wedi cynnal sesiynau ychwanegol mewn beicio mynydd a dringo creigiau awyr agored i rai oedolion ifanc ledled y ddinas.



## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gweithgaredd corfforol awyr agored yn darparu buddion iechyd a lles **Ataliol** nawr ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol, tra hefyd yn rhoi cyfle i gysylltu â byd natur. Mae'r sesiynau hefyd yn cynnig cyfle i ennill cymhwyster sy'n gysylltiedig â gwaith sy'n cyfrannu ymhellach at les a chyfleoedd i'r dyfodol. Mae dull strategol y Bartneriaeth Awyr Agored yn rhagweld 'newid rhwng cenedlaethau' lle mai ymgysylltu â gweithgareddau awyr agored yw'r 'norm'.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n deillio o weithgaredd corfforol, cysylltu â natur a'r cyfle i gyflawni cymhwyster cysylltiedig â gwaith, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.


Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn **cydweithio**'n agos gyda rhanddeiliaid, partneriaid, cyllidwyr a Chyrff Llywodraethu Cenedlaethol i ddarparu continwwm datblygu effeithiol i gyfranogwyr ar bob rhaglen. Tra bo'r bartneriaeth hefyd yn **cynnwys** llawer o randdeiliaid a chyfranogwyr i ddatblygu eu Strategaeth 2021 i 2023. Yn ôl ymchwil yng Ngwent, mae'n bosibl bod gan rai clybiau gweithgareddau awyr agored aelodaeth sy'n sylfaenol yn ddynion gwyn, canol oed, ac felly nod y rhaglen barhaus yw mynd i'r afael â hyn a chynyddu ymgysylltiad a chyfranogiad grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'r Bartneriaeth Awyr Agored yn bwriadu parhau gyda hyd yn oed mwy o gyfleoedd gweithgareddau antur awyr agored ledled Gwent gan gynnwys:

- Mynediad at Antur i Blant (i blant 5-12 oed)
- Mynediad at Antur i Bobl Ifanc (i bobl ifanc 13-25 oed)
- Antur i Bawb (i blant a phobl ifanc 5-25 oed sydd â chyfyngiadau ar symudedd a/neu gyflyrau niwroamrywiaeth)
- Antur y Ferch Hon (i ferched 12 – 25 oed)

# Hyrwyddo Gweithgareddau Corfforol





Gan ysbrydoli pobl i fod yn hapusach ac yn iachach, mae Casnewydd Fyw yn gyfrifol am reoli'r Ganolfan Byw'n Actif, Canolfan Casnewydd, Theatr a Chanolfan Gelfyddydau Glan yr Afon a Phentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd (PChRhC). Mae PChRhC hefyd yn cynnwys Felodrom Cenedlaethol Cymru Geraint Thomas, Pwll Nofio Rhanbarthol De-ddwyrain Cymru, y Ganolfan Tenis a Stadiwm Casnewydd.

Eleni cyflwynodd Casnewydd Fyw raglen gynhwysfawr o weithgareddau mewn cyfleusterau hamdden gyda gwersylloedd aml-chwaraeon, gweithgareddau hyfforddi, sesiynau nofio, a pherfformiadau a chyfleoedd celfyddydol yn theatr Glan yr Afon.

Cefnogodd y Tîm Chwaraeon a Lles Cymunedol hefyd gymunedau Casnewydd gydag amrywiaeth eang o ymgysylltiadau, gweithgareddau, digwyddiadau i'r teulu, prosiectau ac ymyriadau.



Dros chwe wythnos yn Haf 2021 cefnogwyd pedair mil o blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda darpariaeth am ddim mewn parciau a mannau agored gwyrdd, mewn cymunedau gyda sesiynau chwaraeon a chysylltiadau ieuenctid, mewn ysgolion gyda gwersylloedd pontio ar gyfer clystyrau ysgolion a chyda'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (RhCGY), a chyda mentora a chymorth i deuluoedd ac unigolion a gyfeiriwyd at eu staff iechyd a llesiant, a'u staff datblygu.

Eu nod oedd cynnal ymgysylltiadau, a chefnogaeth un i un, tra'n creu cyfleoedd newydd i blant, pobl ifanc a theuluoedd i fynd allan, bod yn egnïol, cynyddu lefelau gweithgarwch corfforol ar ôl COVID-19, a chyfrannu at bobl yn gwella eu lles meddyliol ac emosiynol.

Dywedodd Karl Reed, Pennaeth Chwaraeon a Lles Cymunedol yn Casnewydd Fyw:

> *"Ar ôl 18 mis eithriadol o anodd, mae llawer o deuluoedd, athrawon a phartneriaid wedi bod yn dweud wrthym eu bod am fynd i'r awyr agored a bod yn egnïol, cael hwyl, cymdeithasu, a chael eu hysbrydoli.*
>
> *Roedd hyn yn ategu ein cynlluniau uchelgeisiol eraill ar gyfer yr haf, pan aethom ati i ychwanegu mwy o ddigwyddiadau at y rhaglen a hefyd gyrchu cyllid Haf o Hwyl. Mae parodrwydd ein staff i fynd allan, rhyngweithio, cael hwyl, gweithio oriau hir a mynd yr ail filltir, o fore gwyn tan nos, wedi bod yn rhagorol!".*

Dywedodd Chloe Powton, Swyddog Datblygu Chwaraeon Cymunedol a Gweithgarwch Corfforol:

> *"Ry'n ni wedi gweld teuluoedd yn cyrraedd, archebu o flaen llaw, ac mae rhai hyd yn oed yn dilyn y digwyddiadau o lefydd mor bell â Dyffryn ac Underwood.*
>
> *"Mae rhieni'n gwybod y gallant ddod draw i ddigwyddiad diogel ag awyrgylch hyfryd, a chael eu cefnogi gan ein staff os oes angen. Mae plant yn cael eu haddysgu a gêmau'n cael eu hwyluso, ac mae pobl ifanc ag anghenion ychwanegol yn cael eu hannog. Mae hyd yn oed y rhieni'n cael cyfle i chwarae a chymryd rhan hefyd os hoffan nhw!*
>
> *"Rydym wedi cael adborth hyfryd ym mhob digwyddiad, yn enwedig lle rydym yn cynnig digwyddiadau mewn llawer o gymunedau gwahanol, a lle mae pecynnau bwyd iach a dŵr ar gael am ddim i'r rhai sydd eu hangen fwyaf."*






## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gan Gasnewydd Fyw raglenni ymarfer corff a hyfforddiant yn yr **hirdymor** sydd ar gael i'r cyhoedd. Mae ganddynt ddarpariaeth arbenigol ar gyfer y rhai nad ydynt wedi gwneud unrhyw ymarfer corff ers amser maith gyda chyngor unigol ac offer a fydd yn mesur cynnydd ac yn annog cyfranogiad. Mae mwy o weithgaredd corfforol yn arwain at well iechyd corfforol a meddyliol sy'n gwella gwytnwch personol. Mae'n **atal** salwch ac yn helpu pobl i gael gwell agwedd ar fywyd.

Maen nhw'n **integreiddio** gyda'r gymuned, gyda sesiynau haf yn cael eu cynnal mewn gwahanol ardaloedd o Gasnewydd gan gynnwys Pillgwenlli, Dyffryn, Betws Underwood, y Glebelands a Maendy. Roedd gweithgareddau llawn hwyl yn cynnwys byrbrydau a diodydd i helpu i fynd i'r afael â rhai o gostau ychwanegol yr haf i deuluoedd. Mae'r gweithgaredd hefyd yn cyfrannu at yr Ymyrraeth Mannau Gwyrdd a Diogel drwy ddefnyddio'r awyr agored mewn mannau agored gwyrdd a chynyddu gweithgarwch corfforol.

Mewn **cydweithrediad** â Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan cynhaliwyd dosbarthiadau arbennig i gleifion sydd ar y Cynllun Atgyfeirio Meddygon Teulu. Mae Cyrchfannau'r Filltir Ddyddiol yn fenter newydd i Casnewydd Fyw a lansiwyd gan The Daily Mile Foundation ar ddechrau'r flwyddyn academaidd i hyrwyddo gweithgarwch corfforol mewn ysgolion a gwella iechyd a lles plant ysgol. Maen nhw hefyd yn ymgysylltu ag Ysgolion Cynradd ar draws Casnewydd i'w hannog i gymryd rhan. Yn ogystal, sicrhawyd cyllid drwy raglen Cyllidebu Cyfranogol y Cyngor i gynnig dosbarth ar Nos Wener i gleientiaid anabl. Maen nhw eisoes yn cynnig dosbarthiadau eraill yn benodol ar gyfer pobl anabl trwy gydol yr wythnos. Maen nhw'n cydweithio'n eang gyda nifer o asiantaethau gwahanol yn darparu ystod eang o brosiectau.

Mae Casnewydd Fyw hefyd yn rhedeg Theatr a Chanolfan Celfyddydau Glan yr Afon sydd wrth wraidd y byd adloniant a'r celfyddydau yng Nghasnewydd. Mae ganddynt ddarpariaeth amrywiol sy'n cefnogi talent leol, gyda blas Cymreig cryf i'r gerddoriaeth fyw, opera, a drama; yn ogystal maent yn cynnig cyfle i weld actau a sioeau diddorol o ymhellach i ffwrdd. Eu nod yw dod â chymaint o bobl â phosibl o bob oedran i gysylltiad â chelfyddydau a chreadigrwydd drwy eu **cynnwys** mewn rhaglen llawn o waith proffesiynol, cyd-gynyrchiadau, dangosiadau ffilm, gweithdai, gwyliau a digwyddiadau.

## Mesurau Perfformiad


Dros chwe wythnos yn Haf 2021 cefnogwyd pedair mil o blant, pobl ifanc a theuluoedd gyda darpariaeth am ddim mewn parciau a mannau agored gwyrdd, mewn cymunedau gyda sesiynau chwaraeon a chysylltiadau ieuenctid, mewn ysgolion gyda gwersylloedd pontio ar gyfer clystyrau ysgolion a chyda'r Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol (RhCGY), a chyda mentora a chymorth i deuluoedd ac unigolion a gyfeiriwyd at eu staff iechyd a llesiant, a'u staff datblygu.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae Tîm Chwaraeon a Lles Cymunedol Casnewydd Fyw unwaith eto'n cynnal digwyddiadau chwaraeon dros dro am ddim i blant, pobl ifanc a theuluoedd yn ystod haf 2022, yn dilyn llwyddiant y cynllun peilot yn ystod 2021. Bydd y digwyddiadau teuluol sy'n ffocysu ar gymunedau'n cael eu cynnal dros wyliau'r ysgol, ochr yn ochr â chyfres boblogaidd Chwaraeon yn y Parc (mewn 3 lleoliad o gwmpas y ddinas) a gweithgareddau eraill i blant yn y gwyliau, gan gynnwys rhai chwaraeon a chelf.

Bydd y gyfres o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal mewn parciau a mannau agored yng Nghasnewydd gydag amrywiaeth eang o chwaraeon a gweithgareddau corfforol llawn hwyl ar gael am ddim i blant rhwng 3 a 14 oed. Bydd byrbrydau iach, ffrwythau a dŵr ar gael, gan gefnogi teuluoedd Casnewydd yn ystod y gwyliau fel rhan o'r ymgyrch Llwgu yn Ystod y Gwyliau genedlaethol. Bydd Casnewydd Fyw unwaith eto yn dod â chwaraeon i gymunedau Casnewydd wrth i Chwaraeon yn y Parc ddychwelyd fel rhan o raglen gweithgareddau gwyliau Casnewydd Fyw.

## Cefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog




Mae Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd yn dwyn ynghyd nifer o'n haelodau, sefydliadau'r trydydd sector a chymuned leol y Lluoedd Arfog. Mae ein gwaith yn helpu i gyflawni yn erbyn Cyfamod y Lluoedd Arfog, sy'n ceisio sicrhau nad yw aelodau presennol neu gyn-aelodau'r Lluoedd Arfog o dan anfantais wrth geisio gwasanaethau o ganlyniad i fywyd milwrol. Rydym wedi cefnogi Hwb Cyn-filwyr Casnewydd i gyflawni prosiectau yn y ddinas i leihau unigedd a chreu rhwydwaith cymorth, gan gynnwys mentrau iechyd meddwl.


*David Watkins (Prif Swyddog Gweithredol Hyb y Cyn-filwyr)*

Rydym wedi gallu helpu trwy hwyluso sesiynau galw heibio ym Mhentref Chwaraeon Rhyngwladol Casnewydd, darparu lle ar randir at ddefnydd cyn-aelodau'r Lluoedd Arfog a chysylltu'r Hyb â chyngor ym maes tai, cyflogaeth ac ati. Gwnaeth rhodd gan gontractwr sy'n gweithio i Gartrefi Dinas Casnewydd, o gliniadur a ffôn symudol alluogi'r Hyb i gael grantiau a denu rhagor o aelodau, tra bod cyllid grant gan fenter cyllidebu cyfranogol Casnewydd yn Un yn cefnogi darpariaeth tŷ haf ar randir yr Hyb.

> Dywedodd David Watkins, Prif Swyddog Gweithredol Hyb y Cyn-filwyr:
>
> *"Mae wedi gwneud pethau'n fwy proffesiynol a syml. Mae'r ffôn clyfar yn ein galluogi i wneud cymaint mwy fel grŵp gwirfoddol. Mae cyn-filwyr yn gallu cael cymorth ac yn gallu cael eu hatgyfeirio yn syth, wrth i ni eistedd i lawr gyda nhw."*

Gwnaeth Cyngor Dinas Casnewydd hyrwyddo ei swyddi gwag a'r cymorth cyflogadwyedd sydd ar gael i gyn-filwyr drwy'r tîm Gwaith a Sgiliau mewn digwyddiad i gyn-aelodau o'r Lluoedd Arfog a gynhaliwyd yng Ngwesty'r Celtic Manor ym mis Tachwedd.

Mae Casnewydd wedi bod ar flaen y gad o ran sicrhau nad yw agweddau ar fywyd milwrol yn effeithio ar addysg plant y Lluoedd Arfog, fel symud ysgol sawl tro, neu aelod o'r teulu yn cael ei anfon ar ddyletswydd. Ar ran SSCE Cymru, mae Cyngor Dinas Casnewydd yn cynnal swydd swyddog cyswllt ysgolion rhanbarthol, gan gefnogi plant aelodau o'r lluoedd arfog yn ne-ddwyrain Cymru. Mae cynnig gweithgaredd partneriaeth yn ysgolion Casnewydd gyda'r sefydliad i gyn-filwr Forces Fitness wedi bod yn rhan o'r gwaith hwn, gan gynnwys gweithgareddau ffitrwydd, heriau tîm, ac awgrymiadau ar iechyd a lles i feithrin gwydnwch a hyder. Mae wedi rhoi llwyfan i godi ymwybyddiaeth am fywyd yn y lluoedd arfog a'r heriau mae'r plant yn eu hwynebu. Mae gwybodaeth am hyfforddiant hefyd wedi'i datblygu i addysgu staff yr ysgol am brofiadau plant y Lluoedd Arfog a hwyluso trafodaethau am y camau y gall yr ysgol eu cymryd i ymgorffori arfer dda.

Ym mis Hydref, rhoddwyd Rhyddfraint Casnewydd i'r Lleng Brydeinig Frenhinol i nodi canmlwyddiant yr elusen - roedd gorymdaith y Rhyddfraint yn un o'r digwyddiadau cyhoeddus cyntaf i gael eu cynnal yng nghanol y ddinas ers dechrau Covid-19. Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom hefyd gais llwyddiannus i Lywodraeth Cymru i Gasnewydd gynnal Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru ym mis Mehefin 2023 ac mae cynlluniau ar y gweill nawr i gyflawni hyn.



Mae llawer o aelodau Casnewydd yn Un wedi derbyn gwobrau efydd, arian ac aur trwy'r Cynllun Cydnabod Cyflogwyr Amddiffyn, gan gydnabod ymrwymiad i fabwysiadu arferion a pholisïau sy'n cefnogi cyflogi aelodau o Gymuned y Lluoedd Arfog o fewn ein sefydliadau. Mae hyfforddiant staff sy'n ymwneud â Chyfamod y Lluoedd Arfog wedi parhau eleni.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gwaith Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd yn seiliedig ar **gydweithio** rhwng partneriaid y sector cyhoeddus a'r trydydd sector i gefnogi cymuned y lluoedd arfog yng Nghasnewydd yn y ffordd orau.

Mae'r gwaith yn ceisio **atal** anfantais wrth geisio gwasanaethau lleol, o ganlyniad i wasanaeth milwrol.

Nod y gwaith yw cefnogi plant y Lluoedd Arfog yn ein hysgolion i sicrhau y bydd eu cyrhaeddiad addysgol yn eu helpu i gyflawni eu potensial yn y tymor byr a'r **tymor hir**.

Mae **integreiddio** partneriaid yn y Fforwm yn helpu i sicrhau y gall ystyried anghenion Cymuned y Lluoedd Arfog lywio arferion a pholisïau'r sefydliadau unigol.

Mae grwpiau lleol sy'n cynrychioli Milwyr Wrth Gefn a Chyn-filwyr yn **rhan o** Fforwm Lluoedd Arfog Casnewydd i sicrhau bod eu lleisiau'n cael eu clywed.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Daw deddfwriaeth Cyfamod y Lluoedd Arfog newydd i rym yn y DU yn 2022, gan osod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i ystyried anghenion cymuned y Lluoedd Arfog wrth wneud penderfyniadau ym meysydd addysg, iechyd a thai er mwyn atal anfantais.  Byddwn yn paratoi ar gyfer y ddeddfwriaeth hon ac yn ystyried arfer gorau.

Bydd Diwrnod Cenedlaethol Lluoedd Arfog Cymru yng Nghasnewydd yn 2023.  Byddwn yn gweithio gyda'n gilydd i sicrhau bod Cymuned y Lluoedd Arfog yn teimlo bod pobl yn ddiolchgar iddi ac yn ei gwerthfawrogi a byddwn yn defnyddio hyn fel cyfle i ddatblygu prosiectau cydweithredol newydd.

# Glasu Maendy Gyda'n Gilydd

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Glasu Maendy Gyda'n Gilydd:

- Annog mynediad i fannau gwyrdd.
- Ymgysylltu â gwahanol grwpiau diwylliannol yn yr ardal leol ac o leiaf 50 o drigolion.
- Dysgu sgiliau newydd.
- Gwella iechyd a lles a ffyrdd mwy egnïol o fyw.
- Gwella gwybodaeth am 'le'.
- Annog cyfathrebu, cynwysoldeb ac amrywiaeth.
- Hyrwyddo cynaliadwyedd, seilwaith gwyrdd a newid yn yr hinsawdd.
- Hwyluso un grŵp sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiect gwyrdd.

Gan:

- Gweithio gyda grwpiau sefydledig i ddarganfod beth fyddai'n eu helpu i fwynhau archwilio'r tu allan a garddio mwy a sut y gallant weithio gyda'i gilydd i Lasu Maendy.
- Gweithio gyda phartneriaid i gynnal gweithdai a digwyddiadau garddio a natur, teithiau a sesiynau gweithgareddau sy'n gweddu i'r gynulleidfa ac yn ysbrydoli camau gweithredu.
- Parhau i adeiladu grŵp gwirfoddolwyr gwaith-tasgau Glasu Maendy a rhwydwaith gofod gwyrdd.
- Annog grwpiau newydd a gweithgareddau a phartneriaethau traws-ddiwylliannol.
- Darparu gwybodaeth ac adnoddau am fyd natur, atebion sy'n seiliedig ar natur a garddio ar garreg eich drws.

Hyd yn hyn mae Glasu Maendy Gyda'n Gilydd wedi:

- Cynnal digwyddiadau fel Parti yn yr Ardd i Breswylwyr (30 o drigolion yn mynychu), 'Maindee Mondays' (25 o drigolion), a sesiynau gweithgareddau gyda 10 o bobl ifanc a 12 o blant ysgol gynradd.
- Mae gweithgareddau uwchsgilio eraill yn cynnwys creu cartrefi gwenyn, adeiladu hibernaculum, creu gardd law, a chodi sbwriel.



*Cydnabyddiaeth: John Hallam*






*Cydnabyddiaeth: Kathy Barclay*

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r prosiect yn dysgu sgiliau newydd, yn annog grwpiau newydd a gweithgareddau traws-ddiwylliannol, ac yn annog mynediad i fannau gwyrdd, sydd i gyd yn helpu i gysylltu pobl â natur a gwella iechyd a lles nawr ac ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r prosiect hefyd yn hyrwyddo seilwaith gwyrdd a gweithredu ar newid hinsawdd gan helpu i **atal** a lleihau'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a bywyd gwyllt; a lliniaru effeithiau newid hinsawdd yn y **tymor hwy**.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae'r prosiect yn annog **cydweithio**, cyfathrebu, cynwysoldeb ac amrywiaeth, a grwpiau newydd a gweithgareddau a phartneriaethau traws-ddiwylliannol, gan barhau i adeiladu ar y grŵp gwirfoddolwyr Glasu Maendy a chyfleoedd i bobl **gymryd rhan**.

Mae'r prosiect yn gweithio gyda grwpiau sefydledig ac ysgolion i ddarganfod beth fyddai'n eu helpu i fwynhau archwilio'r tu allan a sut y gallant weithio gyda'i gilydd i lasu Maendy. Mae'r prosiect yn gweithio gyda phartneriaid i gynnal gweithdai a digwyddiadau garddio a natur, teithiau a sesiynau gweithgarwch sy'n gweddu i'r gynulleidfa ac yn ysbrydoli gweithredu.

## Mesurau Perfformiad

- Ymgysylltu â gwahanol grwpiau diwylliannol yn yr ardal leol ac o leiaf 50 o drigolion.
- Dysgu sgiliau newydd.
- Hwyluso un grŵp sy'n gwneud cais am gyllid ar gyfer prosiect gwyrdd.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Cael mwy o gyfle i gymryd rhan a mwy o weithgareddau ymgysylltu cymunedol fel teithiau cerdded, sgyrsiau, teithiau a gweithdai, cylchlythyr, digwyddiadau, a gwelliannau i safleoedd penodol.

# Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

## Sesiynau Llesiant Misol yn y Coetir


Bydd sesiynau Llesiant Misol yn y Coetir yn cael eu cynnal yn y Betws o fis Medi 2022 ac yn para tan 2023, yng nghoetir Cyfoeth Naturiol Cymru, a ddarperir gan Goed Lleol ac mewn partneriaeth â Hyb y Gogledd Cyngor Dinas Casnewydd.  Nod y sesiynau yw ail-gysylltu pobl leol â'r natur ar garreg y drws ar gyfer gwell iechyd a lles.

# Mae gan Gasnewydd amgylcheddau iach, diogel a gwydn gyda rhwydwaith teithio cynaliadwy integredig

Er mwyn dangos y cynnydd a wnaed yn erbyn yr amcan llesiant hwn yn ystod 2021-22, mae nifer o astudiaethau achos wedi'u hamlinellu isod. Mae pob astudiaeth achos yn cynnwys y manylion canlynol: disgrifiad byr; pa Ymyriad(au) a Nodau Llesiant y mae'n ymwneud â nhw; sut y defnyddiwyd y Pum Ffordd o Weithio; unrhyw fesurau perfformiad; a chynlluniau ar gyfer y dyfodol.

## Y Ffordd i Natur

Ymyrraeth





Nodau Llesiant




Yn ystod y 12-18 mis diwethaf gwnaed ymdrech enfawr i glirio'r "Ffordd i Nunlle" enwog, sef ffordd ddeuol nas defnyddir yng Nghoedcernyw. Roedd y man hwn oedd yn boblogaidd fel lle tipio anghyfreithlon yn gartref i werth blynyddoedd o daflu gwastraff oedd wedi cronni ac a oedd yn difetha'r tirwedd ar Wastadeddau Gwent.




Ynghanol y tipio anghyfreithlon roedd pocedi bach o fywyd gwyllt, blodau gwyllt yn gwthio drwyddo, amffibiaid yn cuddio o dan y sbwriel llaith, yn ceisio'n galed i hawlio'r lle yn ôl i fyd natur. Roedd trigolion wedi ymgyrchu am flynyddoedd i weld yr ardal hon yn cael ei glanhau. Wedi'i yrru gan wirfoddolwyr lleol a Chyngor Dinas Casnewydd dechreuodd ymgyrch glirio torfol aml-asiantaeth ar ddiwedd 2021.



Ers y diwrnod clirio, mae Cyfeillion Grŵp y Ffordd i Natur wedi sefydlu'i hun ac yn gweithio'n agos dan arweiniad Cyngor Dinas Casnewydd i hawlio'r lle hwn yn ôl i fyd natur.  Mae'r gwaith o gael gwared ar dipio anghyfreithlon cudd yn parhau.

Gan weithio gyda'r Wardeiniaid Cefn Gwlad a'r Swyddog Hawliau Tramwy Cyhoeddus, mae llwybrau cerdded cylchol a llwybrau wedi'u marcio yn y broses o gael eu datblygu.  Cynhaliwyd sesiynau i wirfoddolwyr, gyda grisiau'n cael eu gosod a thasgau'n cael eu cyflawni.  Mae nifer o weithgareddau cymunedol wedi eu cynnal ar y Ffordd i Natur.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae asiantaethau lluosog yn rhan o'r cynllun, ac mae'r bartneriaeth rhwng y grŵp gwirfoddolwyr Ffordd i Natur a lefel y gefnogaeth gan Gyngor Dinas Casnewydd yn golygu ei bod yn gallu parhau yn yr hir dymor.  Mae rhoi mwy o le i natur yn arwain at fuddion niferus yn y **tymor hwy** ar draws lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd ac mae'n elfen bwysig o addasu newid yn yr hinsawdd ac adfer natur.

Mae cael gwared â'r swm anferth o dipio anghyfreithlon, ac **atal** sbwriel ychwanegol yn lleihau rhagor o ddifrod i'r amgylchedd ac yn cefnogi adferiad natur.  Mae hyn yn golygu bod pobl nawr yn gallu defnyddio'r ffordd a theimlo'n ddiogel wrth wneud hynny.  Mae adennill y ffordd yn helpu i leihau ymddygiad gwrthgymdeithasol.  Mae adfer natur a mwy o fioamrywiaeth yn helpu tuag at yr argyfwng natur.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir o adfer a gwella natur, sydd wedi'i **integreiddio** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, a chyfrannu at Amcanion 4 a 3 y Cynllun Llesiant.


Mae hwn yn brosiect **cydweithredol** rhwng grŵp gwirfoddol Cyfeillion y Ffordd i Natur, Cyngor Dinas Casnewydd, Llywodraeth Cymru, Taclo Tipio Cymru, y gymuned, ac eraill.  Mae gweithgareddau cymunedol parhaus, cyfleoedd i wirfoddoli a ffyrdd i bobl **gymryd rhan**.  Mae ymgysylltu cryf â'r cyfryngau cymdeithasol lle mae llawer o'r gwaith yn cael ei hyrwyddo.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Bydd symud sbwriel a gwelliannau parhaus i'r ardal yn digwydd, gyda gweithgareddau cymunedol pellach a chyfleoedd i bobl gymryd rhan.

# Asesiad Seilwaith Gwyrdd


**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae Asesiad Seilwaith Gwyrdd wedi'i greu ar gyfer Casnewydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi gofyn i bob awdurdod cynllunio yng Nghymru i gynnal un. Mae'r asesiad yma yn rhoi syniad i ni o'r math o Seilwaith Gwyrdd (SG) a geir ar draws Casnewydd gyfan a faint ohono sydd (parciau a chaeau chwarae, coed stryd, rhandiroedd, gerddi preifat, toeau gwyrdd, afonydd, camlesi ac ati). Ei bwrpas yw helpu Awdurdodau Cynllunio i gymryd agwedd strategol at SG ac mae'n nodi rhai cyfleoedd i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth a gwydnwch ecosystemau ac mae'n rhoi rhai argymhellion ar y camau nesaf.



## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae cynyddu, diogelu, a gwella'r SG yn dod â manteision lluosog yn y **tymor hwy** i les cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd. Mae SG hefyd yn ffordd bwysig o fynd i'r afael ag addasu newid hinsawdd ac adfer natur, gan helpu i **atal** dirywiad pellach mewn bioamrywiaeth a lliniaru effeithiau llifogydd a straen gwres.


Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy ddiogelu ac adfer natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Mae Asesiad SG wedi'i wneud wrth **gydweithio**, gyda Chyngor Dinas Casnewydd yn arwain, gydag ymgynghorwyr, a pheth cefnogaeth gan Gyfoeth Naturiol Cymru. Mae ymgais i gydweithio mwy ac i gael **cyfranogiad** yn y dyfodol drwy Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG).

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

I weithredu ar yr argymhellion o'r asesiad a gweithio tuag at Strategaeth Seilwaith Gwyrdd Gwent drwy Bartneriaeth Grid Gwyrdd Gwent (PGGG). Bydd y cynllun ar gael i bartneriaid allanol yr ydym yn gweithio'n agos gyda nhw drwy brosiect PGGG.

## Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent yn gydweithrediad unigryw rhwng pum Awdurdod Lleol Gwent (Sir Fynwy, Blaenau Gwent, Caerffili, Casnewydd a Thorfaen) yn ogystal â Chyfoeth Naturiol Cymru, Forest Research ac Asiantaeth Ynni Hafren Gwy.

GRID GWYRDD GWENT
GWENT GREEN GRID

Mae'r prosiect tair blynedd yn cael ei ariannu gan Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles Llywodraeth Cymru. Drwy gydweithio, mae'r Bartneriaeth yn sicrhau dull cyson o reoli'r amgylchedd ac iechyd a lles ar draws ardal Gwent, ac yn gweithio i ateb yr her o reoli adnoddau naturiol yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan y bartneriaeth 5 ffrwd waith allweddol:

- Strategaeth a Phartneriaeth Seilwaith Gwyrdd Rhanbarthol
- Coridorau Gwyrdd Gwent
- Astudiaethau i-Tree Gwent
- Prosiectau Seilwaith Gwyrdd Gwent
- Gwent sy'n Dda i Bryfed Peillio

Nod y Bartneriaeth yw:

- Gwella a datblygu'r "Seilwaith Gwyrdd" – y rhwydwaith o nodweddion naturiol a lled-naturiol a mannau gwyrdd, afonydd a llynnoedd sy'n frith yn ein pentrefi, trefi a dinasoedd ac yn cysylltu rhyngddynt, yn ogystal â helpu i gefnogi cyfleoedd gwaith o fewn yr ardal. Mae gan Seilwaith Gwyrdd rôl hanfodol i'w chwarae wrth fynd i'r afael â natur, newid yn yr hinsawdd ac argyfyngau iechyd.

- Darparu prosiectau Seilwaith Gwyrdd i fynd i'r afael â lliniaru newid hinsawdd, megis llifogydd, allyriadau carbon a llygredd aer drwy wella a rheoli mannau gwyrdd a choed mawr yn briodol i amsugno glaw trwm, darparu atebion aer glân, storio dŵr wyneb drwy Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDS) ac arbed ynni.
- Mynd ati i annog hamdden yn yr awyr agored a Theithio Llesol a hyrwyddo iechyd a lles, ac annog diogelu a hyrwyddo pryfed peillio drwy ei ddull 'Nid yw Natur yn Daclus' o reoli mannau gwyrdd.
- Yn cefnogi gwytnwch i'r hinsawdd drwy reoli glaswelltir cyfoethog ei rywogaethau a choetir yn well a chefnogi adfer cynefinoedd a rheoli pryfed peillio'n gadarnhaol. Mae hyn yn gwella cysylltedd eco a gwydnwch ecosystemau rhwng safleoedd ac ar draws ffiniau. Mae newid gweithdrefnau rheoli tirwedd i hyrwyddo mannau gwyrdd mwy bioamrywiol, yn cynyddu gwerth y tir ar gyfer dal a storio carbon.

Mae wedi cael ei brofi bod cysylltu â natur yn cael effaith gadarnhaol ar les. Mae'r Bartneriaeth yn hyrwyddo iechyd a lles drwy gefnogi mentrau cymunedol gan gynnwys rhagnodi cymdeithasol, cynhyrchu bwyd cynaliadwy a chyfleoedd i wirfoddoli. Mae gweithio'n uniongyrchol gyda thîm proffesiynol amlddisgyblaeth yn sicrhau bod preswylwyr yn elwa'n llawn o'r cyfleoedd llesiant a ddarperir gan amgylcheddau awyr agored o safon uchel sydd wedi'u cysylltu'n dda.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae'r Bartneriaeth yn gweithio i fynd i'r afael â phroblemau **hirdymor** yr argyfyngau hinsawdd a natur byd-eang, yn ogystal â darparu prosiectau lleol a rhanbarthol ar lawr gwlad er budd cymunedau i wynebu'r her o reoli adnoddau naturiol yr ardal ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae'r Bartneriaeth yn gwneud cyfraniad cadarnhaol tuag at lawer o Nodau Datblygu Cynaliadwy y Cenhedloedd Unedig. Drwy **ataliad** mae'r prosiect yn darparu mecanwaith i Went fynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur drwy ddatblygu fframweithiau polisi cyffredinol, sy'n arwain gwelliannau'r Seilwaith Gwyrdd ac yn cynyddu gwydnwch ecosystemau.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella byd natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Wrth wraidd y prosiect hwn mae **cydweithio** sy'n hyrwyddo gweithio mewn partneriaeth, gydag amcanion ar y cyd a gweledigaeth ranbarthol ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Mae'r prosiect yn cefnogi deuddeg swydd ranbarthol sy'n cyflawni ar draws y pum ffrwd waith a ddosberthir ar hyd a lled y gwahanol Awdurdodau Lleol, gan hyrwyddo diwylliant gwaith cydweithredol ar draws sefydliadau.

Cafwyd adborth cadarnhaol a chymorth gan bobl leol sy'n elwa o welliannau i'r tirwedd yn eu mannau gwyrdd a'u parciau lleol. Mae grwpiau cymunedol, gwirfoddolwyr ac ysgolion wedi bod yn cymryd rhan mewn gweithgareddau gan gynnwys plannu coed a gwrychoedd, gwelliannau i gefn gwlad a gweithdai ar fonitro pryfed peillio. Mae hunaniaeth brand cryf ynghyd â phresenoldeb cyson ar y cyfryngau cymdeithasol a **chyfranogiad** mewn digwyddiadau cymunedol, wedi creu proffil parhaol a mecanwaith proffesiynol cydnabyddedig ar gyfer gyrru newid.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Mae'n bosib y bydd amryw o brosiectau arfaethedig yng Nghasnewydd ynglŷn â gwella mynediad, gwella cynefinoedd a phlannu coed yn cael eu cynllunio yn y dyfodol.

Mae'r prosiect tair blynedd yn dod i ben ym Mawrth 2023, ond y bwriad yw y bydd cydweithio Grid Gwyrdd Gwent yn parhau, gyda chyllid yn cael ei geisio o ffynonellau eraill. Mae gan y bartneriaeth sefydledig y potensial i ddylanwadu ar strategaeth ranbarthol a chenedlaethol ac i ddarparu buddion i fyd natur, yr hinsawdd, a iechyd pobl ar draws Gwent.

## Nid yw Natur yn Daclus

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae Nid yw Natur yn Daclus yn brosiect sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd pryfed peillio, y camau y gallwn oll eu cymryd i'w cefnogi, a sut y gall y rhain gael effaith gadarnhaol ar faterion pwysig eraill megis lleihau'r dirywiad mewn bywyd gwyllt arall a lliniaru effeithiau newid yn yr hinsawdd.

Cafodd y prosiect ei dreialu i ddechrau yn Nhrefynwy ac mae wedi'i ehangu'n araf ar draws pum Awdurdod Lleol Gwent.

Elfen allweddol o waith Nid yw Natur yn Daclus fu newid y modd y mae Awdurdodau Lleol yn gweithredu newidiadau i'r ffordd y maent yn rheoli eu glaswelltir ar ymylon ffyrdd ac ati, mannau agored a pharciau i greu lle ar gyfer natur ac i greu dull cyson ar draws y rhanbarth.

Gyda'i fannau gwyrdd agored hygyrch mawr a chyfleoedd i wella cynefin i beillwyr dewiswyd cymuned Tŷ-du i ymgymryd â gweithgarwch â mwy o ffocws ar gyfer y prosiect hwn. Drwy gydweithio gyda Chyngor Cymuned Tŷ-du, ysgolion lleol a Grŵp Cymunedol Wild About Rogerstone mae cyfres o weithdai celf a sesiynau hyfforddi wedi digwydd sydd wedi helpu i'n hysbysu am flaenoriaethau lleol a nodi cyfleoedd i wella cynefinoedd a sut mae pobl yn cael mynediad at natur lle maen nhw'n byw ac ymgysylltu ag e.

Mae'r prosiect hwn yn rhan o gyfres o raglenni i'w cyflawni o dan Brosiect Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent.



*Gweithdy Cyfrif FIT Monitro Peillwyr Nid Yw Natur Yn Daclus ar Faes Lles y Tŷ Du*

## Y Pum Ffordd o Weithio






Nod y prosiect yw codi ymwybyddiaeth am bwysigrwydd peillwyr ac **atal** a lleihau'r dirywiad mewn bywyd gwyllt arall a lliniaru effeithiau **tymor hwy** newid hinsawdd.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fuddion a geir o adfer a gwella natur, sydd wedi'i **integreiddio** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol, a chyfrannu at Amcanion 4, 3 a 2 y Cynllun Llesiant.

Mae'r prosiect hwn yn **waith ar y cyd** rhwng Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent, Cyngor Dinas Casnewydd, Cyngor Cymuned Tŷ-du, ysgolion lleol a Grŵp Cymunedol Wild About Rogerstone, i helpu'n fwy effeithiol i roi gwybod sut a pham ei bod yn bwysig gwella cynefinoedd i beillwyr. Roedd y ffyrdd yr oedd cymunedau'n **cymryd rhan** yn cynnwys cyfres o weithdai celf a sesiynau hyfforddi a helpodd i roi gwybod i ni am flaenoriaethau lleol a sut i adnabod cyfleoedd i wella cynefinoedd, a sut mae pobl yn cyrchu ac ymgysylltu â'r natur lle maen nhw'n byw.

## Rheoli Tir Glas




Yn dilyn y prosiect Twf Amgylcheddol Lleoedd Lleol ar gyfer Natur yn 2020/21/22, a Chyngor Dinas Casnewydd yn datgan Argyfwng Hinsawdd ac Ecolegol, mae diogelu a gwella cynefinoedd peillwyr trwy wella rheolaeth o laswelltir wedi dod yn fwy o flaenoriaeth.

Y nod yw ehangu ymhellach y fflyd o beiriannau sy'n galluogi Cyngor Dinas Casnewydd i gynyddu nifer y safleoedd *torri a chasglu* sy'n cael eu rheoli ar gyfer peillwyr. Annog blodau gwyllt brodorol i ffynnu a chynyddu'r hygyrchedd i fannau natur o safon yn agosach at ble mae pobl yn byw ac yn gweithio.

Y llynedd newidiodd Cyngor Dinas Casnewydd yn ddramatig sut roedden nhw'n rheoli glaswelltiroedd gan ddefnyddio nifer o wahanol ddulliau. Yn 2019 roedd y Cyngor yn rheoli dolydd a thorri a a chasglu ar tua 15 hectar. Dros y blynyddoedd diwethaf mae hyn wedi **cynyddu i dros 75 hectar** o dir sydd bellach yn cael ei reoli'n fwy cydymdeimladol i gefnogi natur. Cafodd dulliau gwahanol eu treialu ar ardaloedd mwy fel

Tir Agored High Cross, a gafodd eu monitro a'u torri a'u gollwng ar ddiwedd y tymor.  Mae hyn wedi helpu i lywio'r dull parhaus.

Yn dilyn llwyddiant yr ardaloedd gafodd eu targedu'r llynedd, y nod yw torri a chasglu mewn mwy o ardaloedd mawr o laswelltir ar draws y Ddinas.

Mae'r grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur wedi bod yn allweddol i'n galluogi ni i gefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol fel No Mow May, a phrosiect rhanbarthol Gwent Nid yw Natur yn Daclus.



*19 Bryn, Ringland*



*Tir Agored High Cross*



*Gofod Gwyrdd Deheuol Ridgeway*

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae gwell rheolaeth ar laswelltir yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd drwy **ataliad**, darparu mwy o fynediad at natur a gwella iechyd a lles nawr ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella byd natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Cyngor Dinas Casnewydd yn gweithio'n **gydweithredol** trwy **gynnwys** cymunedau i hyrwyddo manteision rheoli glaswelltir fel hyn i bobl, natur, a pheillio, gwrando ar adborth, treialu a monitro safleoedd i lywio'r dull parhaus, ac addasu lle bo angen.

## Mesurau Perfformiad

Cynnydd mewn hectarau o gynefinoedd gwell a thir a reolir ar gyfer natur a pheillwyr.


## Edrych Ymlaen at y Dyfodol


Yn dilyn llwyddiant yr ardaloedd gafodd eu targedu'r llynedd, y nod yw torri a chasglu mewn mwy o ardaloedd mawr o laswelltir ar draws y ddinas.  Y prif safleoedd ar gyfer trefn torri gwair newydd i gynnwys torri a chasglu yw:

> Tir Agored High Cross; Tiroedd Parc Betws; Tŷ Coed Betws; Westfield Betws; 19 Bryn Ringland; Cylch Ringland; Tir Agored Christchurch; Tir Gwyrdd Ridgeway i'r gogledd; Tir Gwyrdd Ridgeway i'r de; a College Glade Caerllion.

Mae'n bosibl y bydd tirfeddianwyr eraill hefyd yn cael eu hannog i reoli tir yn well mewn ffordd fydd yn fwy caredig a chefnogol i natur.

## Prosiect Peillio Buglife




Gyda'r cynnydd a'r ymdrechion parhaus ar draws Casnewydd i wella a diogelu peillwyr, cysylltodd y sefydliad Buglife â Chyngor Dinas Casnewydd i ffurfio partneriaeth a chreu Prosiect Peillwyr Casnewydd a ariennir gan Gronfa'r Dreth Tirlenwi. Mewn partneriaeth lluniwyd cynllun prosiect i ganolbwyntio ar ymgysylltu a chadwraeth mewn pedwar maes allweddol:



- Gwarchodfa Natur Leol San Silian
- Canolfan Mileniwm Pilgwenlli
- Y Twmps yn Barrackswood
- Y Ffordd i Natur

Cafodd y cais llwyddiannus ei gyflwyno yn 2021 ac fe ddechreuodd ym mis Ionawr 2022 gan orffen ym mis Mawrth 2023. Nod y project yw:

- Dod â chymunedau ynghyd i archwilio natur a dathlu peillwyr lleol trwy gyfrwng rhaglen o weithgareddau diddorol, cynhwysol
- Adfer cynefinoedd peillwyr a gwella gwytnwch rhwydweithiau ecolegol
- Codi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli pobl i weithredu dros beillwyr yn eu cymuned gan gynnwys rhai o rywogaethau mwyaf prin a dan fygythiad Cymru

Mae cyfres o ddigwyddiadau eisoes wedi cynnwys teithiau cerdded natur ar gyfer lles, gweithdai adnabod gwenyn, a sesiynau celf gyda'r artist bywyd gwyllt lleol Tom Maloney.

## Y Pum Ffordd o Weithio






Mae'r prosiect hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd, **atal** colli rhagor o fioamrywiaeth, a darparu mwy o fynediad at fyd natur a gwella iechyd a lles yn awr ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.  Mae'r cynllun prosiect wedi gallu canolbwyntio ar feysydd gan ddefnyddio gwybodaeth leol am rai o rywogaethau mwyaf prin a dan fygythiad Cymru a lle gallai fod o'r budd mwyaf i bobl.

Mae Buglife yn **cydweithio** gyda Chyngor Dinas Casnewydd, grwpiau cymunedol ac eraill o'r Rhwydwaith Mannau Gwyrdd a Diogel i **gynnwys** ac ymgysylltu â chymaint o bobl â phosibl i godi ymwybyddiaeth ac ysbrydoli pobl i weithredu dros bryfed peillio, archwilio natur, a dathlu peillwyr lleol drwy raglen weithgareddau diddorol a chynhwysol.

## Cymorth yn y Cartref i Ddraenogod – Bioamrywiaeth Drefol






Roedd cyllid blaenorol Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd wedi galluogi cydlynydd y Bartneriaeth Natur Leol i weithio gyda Hyrwyddwr Draenogod lleol a Chymuned Celtic Horizons i gynnal prosiect peilot o'r enw Cymorth yn y Cartref i Ddraenogod.  Gyda chyllid gan Gronfa Bioamrywiaeth Ddinesig Gwent Gydnerth cafodd y prosiect hwn ei ymestyn a'i gyflwyno mewn nifer o gymunedau ledled Casnewydd.

Roedd canolfannau achub draenogod lleol yn derbyn nifer fawr o ddraenogod o Gasnewydd.  Nod y prosiect yw ymgysylltu â thrigolion i greu gerddi a rhwydweithiau diogel ar gyfer draenogod, cynyddu tiroedd naturiol i dwrio am fwyd a darparu lleoedd diogel iddynt nythu a gaeafgysgu.

Gan weithio gyda thrigolion ymroddedig a brwd ar draws Casnewydd creodd y cydlynydd Partneriaeth Natur Leol 20 pecyn arall a fyddai'n sefydlu gerddi â chymorth, gan greu lleoliadau diogel i’r draenogod gael eu rhyddhau’n raddol ar ôl cael eu hadsefydlu, gan eu hailgyflwyno’n araf gyda chefnogaeth i’r gwyllt, yn agos at y man lle'r oeddent wedi cael eu hachub yn wreiddiol.

### Y Pum Ffordd o Weithio






Mae'r prosiect hwn yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfwng natur ac yn helpu **atal** dirywiad pellach rhywogaethau fel draenogod. Mae'n cysylltu mwy o bobl â byd natur, sy'n gwella iechyd a lles nawr, ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy’n dod trwy adfer a gwella byd natur, sy’n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Partneriaeth Natur Leol Sir Fynwy a Chasnewydd, Gwent Gydnerth, Pencampwr Draenogod lleol a Chymuned Celtic Horizons, i gyd wedi **cydweithio** i gyflawni'r prosiect hwn. Mae hyn wedi caniatáu i fwy o bobl **ymwneud** â’r prosiect, gydag 20 pecyn arall i greu ardaloedd diogel ar gyfer draenogod yn cael eu hailgyflwyno i'r gwyllt.

## Gwelliannau Seilwaith Teithio Llesol




Mae Cyngor Dinas Casnewydd, drwy Gronfa Teithio Llesol Llywodraeth Cymru wedi darparu nifer o brosiectau teithio llesol newydd i gynyddu argaeledd llwybrau beicio a cherdded o ansawdd da ar draws y ddinas.

Mae llawer o'r prosiectau hyn wedi'u cyflwyno mewn ardaloedd sy'n cynnig dewisiadau amgen oddi ar y ffyrdd drwy fannau agored fel Parc Tredegar, y Fryngaer, Coed Melyn ac Ynys y Mwnci yn Llyswyry.

Mae cyflwyniad y prosiect wedi canolbwyntio ar feysydd lle dangosir y galw am ymyrraeth drwy ymgynghoriad cyhoeddus. Mae hyn yn aml yn pwysleisio diffyg darpariaeth o ansawdd da i gerddwyr a

beicwyr i ffwrdd o ffyrdd prysur a chroesfannau cyffyrdd.  Mae'r galw hwn, a gefnogir gan ganlyniadau ymgynghoriadau blaenorol ar y rhwydwaith teithio llesol yn dangos y potensial i fynd i'r afael â'r materion drwy ddarparu llwybrau drwy barciau a mannau agored.  Mae'r dull hwn yn gwella'r ymdeimlad o ddiogelwch, yn creu amgylchedd mwy dymunol i'r defnyddiwr a gall hefyd ddarparu llwybrau mwy uniongyrchol o'u cymharu â dewisiadau eraill ar y ffordd.

Mae llawer o'r safleoedd prosiect teithio llesol hyn yn croesi ardaloedd o sensitifrwydd ecolegol ac felly mae'n bwysig lleihau effeithiau negyddol y prosiect.  Bydd hyn yn cynnwys cynnal arolygon priodol sy'n llywio'r gwaith o ddylunio a chyflwyno'r prosiect.  Ymhlith yr arferion sy'n amddiffyn bioamrywiaeth yr ardal mae cyfyngu ar amseriad y gwaith, gwarchod ardaloedd gwreiddiau'r coed a llystyfiant gerllaw a monitro'r ardal yn ystod y gwaith.

Mae hefyd yn bwysig ystyried effaith negyddol mwy hirdymor ecoleg a bioamrywiaeth ar ôl i'r prosiect gael ei gyflawni.  Roedd hyn yn her wrth ystyried gosod goleuadau ar hyd llwybrau newydd.  Gan fod ofnau dros ddiogelwch personol yn rhwystr mawr i gerdded a beicio mae goleuo llwybrau yn ystyriaeth bwysig i sicrhau bod llwybrau'n darparu amgylchedd deniadol sy'n rhoi sicrwydd i ddefnyddwyr.  Mae hyn yn sicrhau bod y defnydd mwyaf yn cael ei wneud o lwybrau newydd ar bob adeg o'r flwyddyn.

Mae'r defnydd o oleuadau priffyrdd lefel uchel traddodiadol yn creu problem ecolegol pan gânt eu gosod mewn mannau agored gan ei fod yn arwain at ledaeniad eang o olau artiffisial sy'n effeithio'n negyddol ar y bywyd gwyllt nosol yn yr ardal.  Er mwyn lleihau'r effaith hon tra'n parhau i gynnig y  nodwedd bwysig hon, defnyddiwyd goleuadau bolard lefel isel ar bob llwybr teithio llesol sy'n teithio drwy fannau agored gwyrdd.  Fel y gwelir yn y llun, mae'r math hwn o oleuadau yn canolbwyntio golau ar draws y llwybr ac felly'n lleihau lledaeniad y golau drwy'r ardal ehangach.



Mae darparu llwybrau cerdded a beicio drwy fannau agored hefyd yn cynyddu faint o lwybrau sydd ar gael at ddibenion hamdden.  Mae gan hyn nifer o fanteision iechyd a lles ac mae hefyd yn cynyddu'r tebygolrwydd y bydd unigolyn yn dewis cerdded a beicio ar gyfer eu teithiau bob dydd.

Bu cyflwyno llwybrau newydd a gwell ym Mharc Tredegar a'r safle cyfagos hefyd yn cefnogi'r prosiect beicio hygyrch a lansiwyd yn ddiweddar, Olwynion i Bawb, sy'n rhoi cyfleoedd i bobl llai abl feicio drwy ddefnyddio beiciau wedi'u haddasu.  Mae hyn yn dangos y manteision ehangach o ddarparu llwybrau teithio llesol o ansawdd da drwy barciau presennol a mannau agored.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Cynhaliwyd ymgysylltu yn **cynnwys** cymunedau lleol i nodi gwelliannau i'r llwybrau teithio llesol a fyddai'n cael yr effaith fwyaf ar ymddygiad.

Bydd annog teithio llesol yn gymorth i **atal** problemau fel llygredd aer a materion iechyd meddwl a chorfforol.


Mae gwella llwybrau teithio llesol yn **integredig** ac yn cyfrannu at nifer o'r nodau llesiant Cenedlaethol.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Y bwriad yw gwella teithio llesol ymhellach eleni a thu hwnt.

# Diwrnod Aer Glân 2022 – Teithiau Tywys Amgylcheddol

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Mae Uwch Swyddog Gwyddonol Cyngor Dinas Casnewydd, Steve Manning, yn trefnu digwyddiad bob blwyddyn mewn cydweithrediad â'r fenter Diwrnod Aer Glân cenedlaethol sy'n cael ei hyrwyddo gan Global Action Planning. Eleni gwahoddwyd plant ysgol i gymryd rhan mewn taith gerdded amgylcheddol oedd yn canolbwyntio ar ansawdd yr aer, sŵn amgylcheddol, a bioamrywiaeth. Rhoddwyd cyfarpar monitro a deunyddiau papur i'r plant i'w galluogi i ymchwilio i'w hamgylchedd lleol, o ran ochr y ffordd a'r gofod agored drwy ran newydd o lwybr teithio llesol (gweler fideo).

https://youtu.be/HIx0YCKUbCc

Cafodd gweithgynhyrchwyr offerynnau monitro a cherbydau trydan y Cyngor hefyd eu harddangos yn y digwyddiad, gydag Arweinydd y Cyngor yn cymeradwyo'r digwyddiad a gwnaed cyfraniad gwerthfawr hefyd gan Bencampwr Aer Glân Llywodraeth Cymru, yr Athro Paul Lewis. Mae Diwrnod Aer Glân yn rhan o ystod ehangach o waith y mae Steve yn ei gyflawni drwy gydol y flwyddyn sy'n cynnwys adrodd yn flynyddol ar fonitro ansawdd aer a chynllunio camau gweithredu.

Trwy ffurfio grwpiau ansawdd aer yn y Gymuned ar gyfer pob un o'r prif Ardaloedd Rheoli Ansawdd Aer (ARhAA), mae'r sgwrs ynglŷn â'r hyn y mae CDC yn ei wneud i leihau allyriadau trwy bethau fel cerbydau sbwriel, bysiau a thacsis trydan, yn digwydd yn ogystal â mewnbwn cymunedau â syniadau y gallant eu gweithredu e.e. cynlluniau i atal cerbydau rhag segura y tu allan i ysgolion.






## Y Pum Ffordd o Weithio




Bu'r digwyddiad yn **cydweithio** gyda phartneriaid allanol gan gynnwys ysgolion a Bws Caerdydd.


Bydd rheoli ARhAAau yn briodol a newidiadau parhaus o gerbydau petrol i gerbydau trydan yn helpu i **atal** problemau anadlu mewn ardaloedd sydd wedi'u heffeithio.


Mae **cynnwys** cymunedau lleol yn yr ARhAAau yn helpu i ddatblygu atebion i reolaeth ansawdd aer.

## Edrych Ymlaen at y Dyfodol

Gydag adnewyddu Cynllun Gweithredu Ansawdd Aer Cyngor Dinas Casnewydd yn ddiweddarach yn 2022 dylai ARhAAau Casnewydd gael templed ar gyfer yr hyn sydd ei angen i'w symud yn hwylus i gydymffurfio ag amcanion ansawdd aer.

# Gwaith partneriaeth yn cefnogi Nant Betws




Mae dau gant o goed wedi cael eu plannu ar hyd glannau Nant Betws yng Nghasnewydd. Rhoddwyd y coed ifanc gan Linc Cymru i Gartrefi Dinas Casnewydd. Daeth y ddau landlord cymdeithasol at ei gilydd a threulio bore'n eu plannu ar hyd y llwybr cerdded poblogaidd ym Metws.





[Gwyliwch fideo o'r coed yn cael eu plannu](#).

> Dywedodd Rebecca Billington, Swyddog Amgylcheddol Linc Cymru:
>
> *"Fel Cartrefi Dinas Casnewydd, mae gennym hefyd denantiaid sy'n byw ger Nant Betws, a'r gobaith yw y bydd y coed newydd yma'n annog mwy o drigolion i fynd allan i'r awyr agored a mwynhau beth sydd ar garreg eu drws".*
>
> Dywedodd Stephen Caddy, Goruchwyliwr Cyrsiau Dŵr Cartrefi Dinas Casnewydd:
>
> *"Dros y misoedd diwethaf rydym wedi bod yn gwneud gwaith ar Nant Betws i'w wella ar gyfer y gymuned leol. Roedd amseru'r rhodd hon yn berffaith. Roedd y coed ifanc brodorol yn hawdd i'w plannu a bydd yn ychwanegiad hyfryd i annog mwy o fywyd gwyllt i'r ardal".*

## Y Pum Ffordd o Weithio






Bydd plannu'r coed hyn ochr yn ochr â gwaith ehangach ar Nant Betws yn helpu i fynd i'r afael â'r argyfyngau natur a hinsawdd trwy **ataliad**, darparu mwy o fynediad at natur a gwella iechyd a lles nawr ac yn y **tymor hwy** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella byd natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, gan gefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Mae Cartrefi Casnewydd a Linc Cymru yn gweithio'n **gydweithredol**, a fydd gobeithio yn **cynnwys** cymunedau trwy iddynt gael mynediad i'r awyr agored a'r buddion a ddaw yn sgil hynny.

## Pecynnau Perllannau Cymunedol a Bywyd Gwyllt i Randiroedd




Yn sgil grant Cymunedau Cynaliadwy Gwent Gydnerth, llwyddwyd i blannu 114 o goed ffrwythau ar draws 3 o brif safleoedd perllan y Padog yn y Graig (Bassaleg) Cae Perllan (Y Gaer) a Ladyhill (Alway) gyda chymorth 42 o wirfoddolwyr.

Yn dilyn hyn, daeth y syniad o becynnau Bywyd Gwyllt i'r amlwg, i'w rhoi i wahanol safleoedd rhandir. Roedd gan y pecynnau bopeth oedd ei angen i sbarduno diddordeb dyfnach deiliaid rhandiroedd ym myd natur, gan annog dull mwy holistaidd a chyfeillgar i natur o dyfu a chysylltu cynefinoedd yn rhai o'n hardaloedd mwyaf trefol.

**Coed Ffrwythau**

Roedd croeso cynnes i 20 o goed ffrwythau cymysg ychwanegol i'r Padog yn y Graig.  Cawsant eu plannu mewn grwpiau mewn lleoliadau ar wahân ar draws safle Ladyhill, gan roi hwb i fioamrywiaeth a darparu ffrwythau am ddim i bobl leol.  Crëwyd Rhodfa'r Berllan yng Nghae Perllan a fydd yn helpu i sgrinio'r rheilffordd unwaith fydd yn cael ei sefydlu.  Bydd y ffrwyth o'r coed yn cael ei ddefnyddio mewn cynllun bocs bwyd cymunedol.



*Perllan y Padog yn y Graig*



*Rhandiroedd Ladyhill*

Mae gan y safle penodol hwn ethos sy'n 'gyfeillgar iawn' i natur gyda phob deiliad plot yn cael ei annog yn weithredol i fod mor ystyriol o fywyd gwyllt â phosibl.  Gadewir yr ymylon i dyfu, mae lleiniau dethol yn cael eu gadael er mwyn i natur dyfu'n wyllt, ac mae ardaloedd o brysgwydd trwchus yn rhoi cartref i'r teulu lleol o lwynogod.  Rhandir Cymunedol Cae Perllan oedd yr ysbrydoliaeth ar gyfer y Pecynnau Bywyd Gwyllt a ddatblygwyd gennym fel rhan o'r prosiect hwn.

**Pecynnau Bywyd Gwyllt**

Cafodd 22 o becynnau bywyd gwyllt eu dosbarthu i bob un o'r 20 o safleoedd rhandir a 2 Brosiect Tyfu Cymunedol ledled Casnewydd.  Roedd y pecynnau'n cynnwys 2 goeden neu lwyn ffrwythau, 44 blwch adar yn addas ar gyfer Titw Mawr / Titw Tomos Las / Titw Penddu, 44 blwch adar sy'n addas ar gyfer y Robin Goch a'r Deryn Du ynghyd â 44 o Ysguboriau Gwenyn.



Darparwyd nifer o fatiau ymlusgiaid i bob safle, a dosbarthwyd 11 Kilo o gymysgedd blodau gwyllt ar draws y 22 safle, a fydd, wedi'u cyfuno yn creu cynefin blodau gwyllt tua 700 metr sgwâr.

## Y Pum Ffordd o Weithio




Mae plannu rhagor o goed ar draws Casnewydd yn helpu i liniaru effeithiau Newid Hinsawdd, yn rhoi hwb i fioamrywiaeth, ac yn cysylltu cynefinoedd yn rhai o'n hardaloedd mwyaf trefol er budd pobl a natur, nawr ac yn yr **hirdymor** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.  Helpodd y prosiect i sbarduno diddordeb dyfnach gan ddeiliaid rhandiroedd ym myd natur ac annog dull mwy cyfannol o dyfu sy'n dda i fyd natur.  Bydd syniadau, sgiliau a gwybodaeth y mesurau  **ataliol** hyn yn cael ei drosglwyddo gobeithio i eraill ac i genedlaethau'r dyfodol.


Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol.

Ymwelodd swyddogion Cyngor Dinas Casnewydd â phob safle i asesu ei werth i fyd natur a threulion nhw amser gyda nifer o ddeiliaid rhandiroedd, gan **gydweithio** â defnyddwyr gwasanaethau ac aelodau amrywiol o bwyllgor rhandiroedd, yn sôn am newidiadau bach neu welliannau bioamrywiaeth a allai wneud gwahaniaeth mawr i fyd natur ac i bobl.  Eu hannog i ddyrannu o leiaf un llain o fewn eu safle i natur, gan

adael ymylon i dyfu a gosod blychau adar. Cynhaliwyd 18 ymweliad anffurfiol i **gynnwys** ac ymgysylltu â deiliaid rhandiroedd, trafod arferion garddio sy'n gyfeillgar i natur, asesu'r anghenion a'r cyfleoedd i fyd natur ym mhob safle a dosbarthu'r pecynnau.

## Trees For Cities

**Ymyrraeth**




**Nodau Llesiant**




Elusen yw Trees for Cities sy'n cefnogi sefydliadau amrywiol i blannu coed mewn ardaloedd trefol. Gyda'u cefnogaeth fe wnaeth Cyngor Dinas Casnewydd weithio gyda gwirfoddolwyr ac ysgolion ar draws Casnewydd i blannu 100 o goed ffrwythau mewn nifer o leoliadau gwahanol.



*Perllan sbesimen brodorol a blannwyd ym Mharc Belle Vue*



*Gwirfoddolwyr yn plannu coed ar Stad Celtic Horizons, Dyffryn*

## Y Pum Ffordd o Weithio





Mae defnyddio mesurau **ataliol** trwy blannu rhagor o goed ar draws Casnewydd yn helpu i liniaru yn achos Newid Hinsawdd ac yn rhoi hwb i fioamrywiaeth, er budd pobl a natur nawr ac yn yr **hirdymor** ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Mae pob partner yn cydnabod yr amrywiaeth eang trawsbynciol o fanteision sy'n dod trwy adfer a gwella natur, sy'n **integredig** ar draws pob nod llesiant, ac sy'n cefnogi lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol. Bu Cyngor Dinas Casnewydd yn **cynnwys** ac yn **cydweithio** gyda Trees for Cities a gwirfoddolwyr lleol i blannu'r coed ffrwythau mewn sawl lleoliad.

## Datganiad Ardal y De Ddwyrain – Adroddiad Blynyddol 2021-22

Mae Datganiad Ardal y De Ddwyrain yn cefnogi Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid i ymateb ar y cyd i'r argyfyngau natur a hinsawdd drwy weledigaeth gyffredin ar gyfer yr amgylchedd naturiol yng Ngwent. Gellir gweld y weledigaeth hon ar draws 4 maes thematig sydd gyfystyr â phedwar nod SONARR2020.

Mae'r adroddiad blynyddol yn rhoi cipolwg ar ystod gwaith Datganiad Ardal De Ddwyrain Cymru a gyflwynwyd gan bartneriaid ar draws Gwent yn 2021-22, trwy gyfuniad o ffyrdd partneriaeth o weithio a phrosiectau cydweithredol i gefnogi cyfraniad tuag at wireddu gweledigaeth Gwent a chyflawni Deddf yr Amgylchedd (Cymru) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Gellir crynhoi hyn a gwaith cysylltiedig arall yn y ffeithlun canlynol:



### Crynodeb: Cyflawni Datganiad Ardal De-Ddwyrain 21/22

**Caiff stociau o gyfalaf naturiol eu diogelu a'u gwella**

- Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Gwent yn cael ei gyhoeddi gan Bartneriaeth Gwent Gydnerth
- Drafftio Cynllun Gweithredu Adfer Natur Gwent
- Adolygiad Safleoedd o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur Gwent Gydnerth: adolygu 350 Safle o Bwysigrwydd er Cadwraeth Natur a chreu 70 Safle Bywyd Gwyllt Lleol
- Asesiadau Seilwaith Gwyrdd yn cael eu datblygu gan bob Awdurdod Lleol yng Ngwent, gan ddefnyddio Canllawiau Asesiadau Seilwaith Gwyrdd CNC
- Cyhoeddi Proffiliau o'r Dirwedd, gan gyfarwyddo strategaethau a chynlluniau e.e. Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol Gwent, Cynlluniau Datblygu Lleol, Cynllun Adnoddau Coedwig De Ebwy a Bannau Brycheiniog, Asesiad Lles Gwent – Penodau Amgylcheddol
- Cwblhau Asesiad Lles Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwent, CNC yn arwain ar benodau amgylcheddol. Cynllun Lles Gwent yn cael ei ddatblygu
- Sefydlu dull rhanbarthol o fonitro cynefin afon yng Ngwent – Arolwg Cynefin Afon y Dinesydd

**Ecosystemau yn gryf i wrthsefyll newid disgwyliedig ac annisgwyl**

- Prosiect Rhywogaethau Estron Goresgynnol Gwent Gydnerth: arolygu 60ha; trin mwy na 1700 safle
- Y Gronfa Rhwydweithiau Natur – dyfarnu buddsoddiad gwerth £1m i 6 prosiect yn y De Ddwyrain ym maes bioamrywiaeth a natur
- Prosiect Ucheldiroedd Cydnerth De Ddwyrain Cymru: bellach mae'r prosiect wedi dod i ben, defnyddio tua £400K ar wella ac adfer y cynefin a mynd i'r afael ag achosion sylfaenol dirywiad yr ucheldiroedd
- Lansio Prosiect Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent – gyda chyllid Llywodraeth Cymru (£2.2 miliwn) i ddarparu dull rhanbarthol o ymdrin â Seilwaith Gwyrdd ar gyfer buddion lles
- Rhaglen Afonydd ACA yn dechrau, gan gynnwys Prosiect Pedair Afon, Prosiect Afonydd y De Ddwyrain a Dalgylch Cyfle

**Lleoedd Iach i Bobl, wedi'u gwarchod rhag risgiau amgylcheddol**

- Awdurdodau Lleol yn lansio Cynlluniau Gweithredu Newid Hinsawdd ac Argyfwng Natur
- Partneriaid y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn parhau i fwrw ymlaen ag argymhellion Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent
- Creu astudiaeth Seilwaith Gwyrdd Canol Dinas Casnewydd
- Siarter Teithio Llesol Gwent yn parhau
- Agor Rhodfa Coedwig Cwm Carn
- Cronfa Adfywio Cymunedol y DU - dyfarnu £12.7m ar draws Awdurdodau Lleol Gwent. Yn cynnwys prosiectau megis datblygu bwyd cynaliadwy, mentrau sero net a datgarboneiddio, adfer natur, arloesi a mwy.

**Economi atgynhyrchiol gyda lefelau cynhyrchu a defnyddio cynaliadwy**

- Datblygu Partneriaethau Bwyd Cynaliadwy ar draws Blaenau Gwent a Sir Fynwy
- Profi a threialu'r Global Farm Metric i gynorthwyo dealltwriaeth o ran asesu a chyfarwyddo cynaliadwyedd ym maes cynhyrchu a defnyddio
- Prosiect peilot Food Futures Gwent – dull o weithredu ar sail systemau i drawsnewid y system fwyd
- Hyfforddiant Llythrennedd Carbon ar gyfer Gwent yn benodol wedi'i gyflwyno yn Nhrefynwy ac ardal wledig Casnewydd

Gellir cyrchu'r dolenni a ddangosir yn y ffeithlun isod:

- Gwent Gydnerth - Adroddiad Sefyllfa Byd Natur Gwent (SBNG)
- Proffiliau Tirwedd
- Asesiad Llesiant Gwent – Penodau Amgylcheddol
- Arolwg Cynefin Afonydd Dinasyddion (ACAD)
- Cronfa Rhwydweithiau Natur
- Prosiect Ucheldiroedd Cydnerth De Ddwyrain Cymru
- Prosiect Partneriaeth Grid Gwyrdd Gwent
- Rhaglen Afonydd ACA
- 4 Afon am OES
- Cynulliad Hinsawdd Blaenau Gwent
- Siarter Teithio Iach a Chynaliadwy Gwent
- £12.7m wedi ei ddyfarnu ar draws Awdurdodau Lleol Gwent
- Blaenau Gwent a Sir Fynwy
- Metrig Fferm Fyd-eang

## Cynlluniau Ychwanegol ar gyfer y Dyfodol

### Arolwg Stryd Gymunedol

Mae Living Streets wedi cynnal arolwg stryd gymunedol ym Mhilgwenlli wrth sgwrsio â phobl a sefydliadau lleol. Mae'r adroddiad yn rhestru nifer o argymhellion i wella'r ardal gyfagos a mannau gwyrdd ger Canolfan Gymunedol Pilgwenlli, a fyddai o fudd i iechyd a lles pobl leol. Y gobaith yw y gall rhanddeiliaid allweddol gydweithio i wireddu rhai o'r argymhellion hyn.

## Symud i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Rhanbarthol (BGC)


Pan ddatblygwyd y Cynllun Llesiant Casnewydd yn Un presennol roedd gan bob awdurdod lleol yng Ngwent ei BGC ei hun. Ar 1 Hydref 2021 diddymwyd pob un o'r pump hen BGC yng Ngwent er mwyn uno i ffurfio BGC newydd Gwent, daeth y pump BGC blaenorol, gan gynnwys Casnewydd yn Un, yn 'Grwpiau Cyflawni Lleol' ar gyfer BGC Gwent. Mae gwybodaeth am BGC Gwent, gan gynnwys papurau cyfarfodydd, yma.

Ar 5 Mai 2022 cyhoeddodd BGC newydd Gwent asesiad llesiant, fydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu Cynllun Llesiant rhanbarthol erbyn 2023. Yng Nghasnewydd rydym wedi ymrwymo i gynnal partneriaeth leol gref a fydd yn cefnogi BGC Gwent a sicrhau ein bod yn cyflawni ein Cynllun Llesiant presennol, fydd yn parhau tan Ebrill 2023. Rydym wedi cytuno Cylch Gorchwyl newydd, sy'n cynnwys dwy ran: Mae Rhan 1 yn nodi sut y byddwn yn gweithio gyda BGC Gwent i gyflawni Cynllun Llesiant Gwent; Mae Rhan 2 yn nodi ein swyddogaethau ychwanegol, gan gynnwys datblygu gweithgareddau trawsnewidiol eraill ar gyfer Casnewydd, y tu allan i Gynllun Llesiant Gwent, sy'n gofyn am ddull partneriaeth gref i'w cyflawni.

Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu Partneriaeth Casnewydd yn Un ar ôl symud i BGC rhanbarthol, mae'r Bartneriaeth wedi dechrau ystyried yr hyn sydd wedi gweithio'n dda hyd yn hyn ac unrhyw newidiadau neu ddatblygiad a allai ei helpu i weithredu hyd yn oed yn fwy effeithiol yn y dyfodol.

## Sesiwn Datblygu Bwrdd

Ar 17 Tachwedd 2021, gwnaeth aelodau Casnewydd yn Un gwrdd mewn sesiwn gweithdy i drafod y ffordd ymlaen ar gyfer y bartneriaeth, yn dilyn sefydlu BGC Gwent. Fel rhan o'r drafodaeth, gofynnwyd i aelodau gyflwyno eu barn ar feysydd sydd wedi mynd yn dda i'r Bwrdd, meysydd i weithio arnynt a chyfleoedd i'r dyfodol.




*Cryfderau*




*Meysydd i weithio arnynt*




*Cyfleoedd yn y dyfodol*

Bydd y pwyntiau a wnaed gan aelodau ynghylch meysydd i weithio arnynt a chyfleoedd newydd yn cael eu hystyried fel rhan o Flaengynllun Gwaith y Bwrdd a Chynllun Datblygu Bwrdd newydd.

## Datblygu Cynllun Llesiant newydd i Went a Chynllun Gweithredu Lleol Casnewydd

Dechreuwyd datblygu'r Cynllun Llesiant newydd ar gyfer 2023-28 ym mis Medi 2021 drwy greu Asesiad Llesiant rhanbarthol, gyda chefnogaeth asesiadau Llesiant Lleol ar gyfer pob un o'r 5 rhanbarth. Mae'r dull gweithredu hwn hefyd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cynllun Llesiant ei hun, gyda chynllun rhanbarthol yn cael ei gefnogi gan Gynlluniau Gweithredu Lleol ar gyfer pob un o'r pum ardal.

Fel rhan o'r broses hon, caiff ymyriadau presennol y Cynllun Llesiant eu hadolygu i nodi pa gamau a phrosiectau fydd yn parhau yn 2023 ac yn ffurfio rhan o'r Cynllun Gweithredu Lleol. Bydd y gwaith hwn wedyn yn bwydo i mewn i'r gweithdai partneriaeth sydd wedi'u cynllunio ar gyfer hydref 2022 i nodi'r camau sydd eu hangen ar lefel leol i gefnogi'r amcanion a'r camau rhanbarthol ac unrhyw flaenoriaethau eraill, ar wahân i'r amcanion rhanbarthol, sydd gan Gasnewydd.


## Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad

Datblygwyd Fframwaith Cyflawni a Pherfformiad i nodi sut rydym yn rheoli darpariaeth a pherfformiad. Yn rhan o'r fframwaith, ac i gefnogi swyddogaeth Casnewydd yn Un a'r gwaith o gyflawni'r cynllun, sefydlwyd strwythur partneriaeth (isod). Nodir rolau a chyfrifoldebau'r grwpiau yn y fframwaith.

Yn ystod 2021-22, dychwelodd Casnewydd yn Un i gyhoeddi dangosfyrddau perfformiad chwarterol wrth i ni ddechrau adfer o'r pandemig Covid-19. Bydd y ffordd yr ydym yn rheoli'r ddarpariaeth a'r perfformiad wrth symud ymlaen yn seiliedig ar y BGC rhanbarthol, gyda'r broses leol yn cael ei datblygu o'r strwythurau newydd hyn.

### Strwythur Darparu Partneriaeth

Mae'r strwythur hwn yn dangos y trefniadau llywodraethu ar gyfer darparu mewn partneriaeth yn 2021-22.




## Mesur Cynnydd

Yn ystod pedwaredd flwyddyn y broses weithredu, rydym yn parhau i nodi mesurau perfformiad priodol fel y gall cynnydd a chanlyniadau go iawn gael eu sicrhau. Mae cipolwg o'r mesurau hyn wedi'i gynnwys ym Mhennod 3 ond nid yw bob amser yn dangos darlun llawn o'r gwaith sy'n cael ei wneud.

Wrth symud ymlaen, byddwn yn ceisio mireinio'r mesurau a ddefnyddir i ddangos cynnydd er mwyn deall yn well sut mae'r ymyriadau a roddwyd ar waith yn cael effaith ar les pobl. Digwyddodd y gwaith hwn yn ystod yr adolygiadau a gynhaliwyd gan bob un o'r ymyriadau.

Cynhyrchir dangosfyrddau chwarterol rheolaidd ar gyfer pob un o'r Ymyriadau a gallwch eu gweld yma.

## Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru

Mae'r Adroddiad Blynyddol yn mesur lles Casnewydd yn ei chyfanrwydd trwy adolygu Mynegai Lleoedd Ffyniannus Cymru yn flynyddol. Mae'r data diweddaraf ar gyfer 2022 i'w weld ar y wefan Mynegai Lleoedd Ffyniannus.

Mae'r mynegai'n defnyddio ystod eang o fesurau sy'n adlewyrchu'r ddealltwriaeth gynyddol bod llesiant yn gysyniad aml-ddimensiynol, wedi'i bennu gan lawer o ffactorau amrywiol. Mae'r ffactorau hyn yn tueddu i fod wedi'u cysylltu'n achosol â'i gilydd i greu 'gwe' o amodau sy'n effeithio ar lesiant pobl.

Mae Lleoedd Ffyniannus Cymru'n offeryn ymarferol ar gyfer gweithredu polisi a chamau gweithredu lleol sy'n cyflawni lles. Mae'n darparu ffordd gyson a chymaradwy o gytuno, mesur a thracio cynnydd tuag at nodau a rennir, 'arian cyffredin' ar draws a rhwng sectorau a daearyddiaeth.

Mae'r mynegai wedi ei gyhoeddi'n flynyddol ers Ebrill 2018 ac er ei bod yn gallu bod yn anodd weithiau gweld effaith hirdymor y Cynllun Lles, gall y mynegai dynnu sylw at le mae pethau'n gwella a meysydd i'w datblygu. Rhestrir y mynegai ar gyfer Casnewydd o gwmpas tri dimensiwn. Nodir y dimensiwn cyntaf (Amodau Lleol) yn y tabl isod:

| **AMODAU LLEOL** | **2018** | **2019** | **2020** | **2021** | **2022** |
|---|---|---|---|---|---|
| | **4.37** | **4.41** | **4.42** | **4.67** | **4.51** |
| **Lle ac Amgylchedd** | **3.84** | **3.55** | **3.47** | **3.94** | **4.00** |
| Trafnidiaeth | 5.12 | 4.91 | 4.63 | 4.46 | 4.45 |
| Diogelwch | 2.42 | 2.31 | 2.26 | 3.69 | 3.10 |
| Tai | 3.86 | 3.28 | 4.15 | 3.89 | 4.64 |
| Yr Amgylchedd Lleol | 3.95 | 3.69 | 2.82 | 3.72 | 3.83 |
| **Iechyd Meddwl a Chorfforol** | **5.10** | **4.78** | **4.74** | **5.14** | **5.06** |
| Ymddygiadau Iach a Pheryglus | 6.16 | 6.12 | 5.77 | 6.19 | 5.96 |
| Statws Iechyd yn Gyffredinol | 4.85 | 3.67 | 4.39 | 5.13 | 5.13 |
| Marwolaethau a disgwyliad oes | 4.38 | 4.34 | 4.18 | 4.61 | 4.52 |
| Iechyd meddwl | 5.00 | 5.00 | 4.62 | 4.62 | 4.61 |
| **Addysg a Dysgu** | **4.81** | **5.19** | **4.76** | **4.95** | **5.06** |
| Oedolyn | 3.91 | 4.52 | 4.76 | 4.70 | 4.91 |
| Plant | 5.71 | 5.85 | 4.76 | 5.21 | 5.21 |
| **Gwaith ac Economi Leol** | **4.04** | **4.45** | **4.82** | **4.70** | **3.98** |
| Diweithdra | 4.23 | 4.28 | 4.33 | 5.14 | 2.92 |
| Swyddi Da | 2.70 | 6.54 | 6.89 | 4.06 | 3.94 |
| Amddifadedd | 5.52 | 2.72 | 3.44 | 5.49 | 5.22 |
| Busnes lleol | 3.71 | 4.26 | 4.61 | 4.10 | 3.85 |
| **Pobl a Chymuned** | **4.09** | **4.07** | **4.30** | **4.62** | **4.43** |
| Cyfranogiad | 3.83 | 3.86 | 4.57 | 4.58 | 3.93 |
| Diwylliant | 4.17 | 4.17 | 4.17 | 4.17 | 4.15 |
| Allgáu cymdeithasol | 4.58 | 4.47 | 4.47 | 5.73 | 5.75 |
| Cydlyniad cymunedol | 3.78 | 3.78 | 4.00 | 4.00 | 3.91 |

| Isel | | Canolig | | Uchel |
|---|---|---|---|---|
| <3.5 | 3.5-4.5 | 4.5-5.5 | 5.5-6.5 | >6.5 |

Mae sgorau'n amrywio o 0-10 sy'n dangos sut mae Awdurdod Lleol yn cymharu â chyfartaledd Cymru (gweler yma am wybodaeth bellach).

Mae'r dimensiwn amodau lleol yn dangos ychydig o welliant yn gyffredinol o 4.37 yn 2018 i 4.51 yn 2022, (er bod gostyngiad bach o 2021). Mae'r dimensiwn hwn yn cael ei rannu'n bum parth gyda gwelliannau o 2021 yn y parthau addysg a dysgu: a lle ac amgylchedd. Gwelwyd y gostyngiad mwyaf yn yr is-barth diweithdra (2.92), sy'n rhan o'r parth gwaith ac economi lleol, sy'n amlygu effaith barhaus Covid-19 ar y ddinas. Mae hyn yn cymharu â'r sgorau amrywiol a geir ar gyfer ein hawdurdodau lleol cyfagos: Caerffili – 6.85 (gwyrdd); Blaenau Gwent – 4.07 (oren); Torfaen – 2.22 (coch); a Sir Fynwy – 7.66 (gwyrdd).

Dangosir yr ail ddimensiwn (Cynaliadwyedd) yn y tabl isod:

| CYNALIADWYEDD | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **4.50** | **4.89** | **5.48** | **5.43** | **5.81** |
| Allyriadau $CO_2$ | 3.42 | 4.91 | | | |
| Ôl-troed ecolegol/ Seilwaith Gwyrdd | 5.93 | 5.93 | 5.86 | 5.33 | 5.82 |
| Ailgylchu/gwastraff y cartref | 3.86 | 5.33 | 4.31 | 5.29 | 5.54 |
| Cynhyrchu Ynni Adnewyddadwy / Defnyddio ynni | 4.80 | 3.39 | 6.07 | 5.71 | 6.06 |

Mae'r dimensiwn cynaliadwyedd yn dangos gwelliant cyffredinol o 4.50 yn 2018 i 5.81 yn 2022, gan ddangos cynnydd pellach o 2021.

Dangosir y trydydd dimensiwn (Cydraddoldeb) yn y tabl isod:

| CYDRADDOLDEB | 2018 | 2019 | 2020 | 2021 | 2022 |
|---|---|---|---|---|---|
| | **4.68** | **4.43** | **5.10** | **4.30** | **4.51** |
| Iechyd | 4.59 | 4.59 | 5.47 | 5.47 | 4.58 |
| Incwm | 5.36 | 5.38 | 4.67 | 4.41 | 5.88 |
| Lles | 4.09 | 4.26 | | | |
| Cyflogaeth | | | 5.59 | 2.90 | 3.08 |

Mae'r dimensiwn cydraddoldeb yn dangos gostyngiad bach o 4.68 yn 2018 i 4.51 yn 2022, gan adeiladu ar y cynnydd bach yn 2021. Effeithiwyd ar y gostyngiad hwn gan sgôr llawer llai ar gyfer yr is-barth cyflogaeth (3.08) o 2020 i 2022, sy'n seiliedig ar anghydraddoldeb a'r bwlch yn y gyfradd gyflogaeth rhwng y rhai sydd â chyflwr iechyd hirdymor a'r gyfradd gyflogaeth gyffredinol. Wrth edrych ar y sgôr yma o'i gymharu â'n hawdurdodau lleol cyfagos, mae'r gwahaniaeth yn llai amlwg, gyda phawb yn is na chyfartaledd Cymru o 5.00: Caerffili – 3.77 (oren); Blaenau Gwent – 2.38 (coch); Torfaen – 4.03 (oren); a Sir Fynwy – 3.99 (oren). Fodd bynnag, gellir dadlau bod unrhyw ddirywiad yn y sgôr hwn yn gysylltiedig ag effaith barhaus y pandemig. Gall hyn fod yn rhywbeth i'r bartneriaeth ei archwilio ac ystyried ei symud yn ei flaen os yw hyn yn parhau i fod yn destun pryder. O'i gymharu â 2021, gwelwyd cynnydd ar gyfer yr is-barth incwm, sy'n seiliedig ar anghydraddoldeb (bwlch cyflog a bwlch cyflog rhwng y rhywiau).

Yn gyffredinol, wrth adolygu'r sgorau ar gyfer Casnewydd, cofiwch eu bod yn cael eu dylanwadu gan y ffordd yr ydym wedi'n graddio yng Nghymru. Felly, mae cysylltiad uniongyrchol rhwng ein sgorau ni a'r ffordd y mae awdurdodau lleol eraill yn gwella neu'n gwaethygu ac nid yw'n seiliedig ar berfformiad unigol Casnewydd yn unig.

Gellir dod o hyd i restr lawn o ddangosyddion 2022 yma.

## Dangosyddion Cenedlaethol

Roedd y Ddeddf yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru asesu cynnydd tuag at gyflawni'r nodau lles. O fis Medi 2015 tan fis Ionawr 2016 cynhaliodd Llywodraeth Leol ymgynghoriad cyhoeddus eang i nodi pa gyfres fach o ddangosyddion a ddylai gael eu datblygu i fesur cynnydd orau yn erbyn y nodau lles. Cyhoeddwyd y dangosyddion cenedlaethol hyn ym mis Mawrth 2016 a'u gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae 46 o ddangosyddion cenedlaethol, a gynlluniwyd i gynrychioli'r canlyniadau ar gyfer Cymru, a'u phobl a fydd yn helpu i ddangos cynnydd tuag at y 7 nod lles. Ni fwriedir iddynt fod yn ddangosyddion perfformiad ar gyfer sefydliad unigol.

Gellir gweld y data a'r crynodebau diweddaraf o bob dangosydd ar wefan Llywodraeth Cymru. Mae'r dangosyddion hyn yn parhau i gefnogi ein monitro perfformiad ehangach er mwyn asesu lles ehangach Cymru a lles ein cymuned leol.

## Atebolrwydd

Er mwyn sicrhau atebolrwydd democrataidd mae angen i bwyllgor craffu llywodraeth leol dynodedig yr awdurdod lleol perthnasol graffu ar waith y bwrdd gwasanaethau cyhoeddus.

Yng Nghasnewydd, y pwyllgor craffu sy'n gyfrifol am graffu ar waith Casnewydd yn Un yw'r Pwyllgor Craffu ar Berfformiad – Partneriaethau. Mae naw aelod i'r pwyllgor, ac i sicrhau cysondeb, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Craffu yn adlewyrchu'r hyn a gytunwyd gan Casnewydd yn Un.

Yn ystod 2021-22, llwyddodd y Pwyllgor i graffu ar y diweddariad canol blwyddyn ar 2 Chwefror 2022, a chofnodwyd y canlynol:

> *"Gwnaeth y Pwyllgor ganmol ymrwymiad a gwaith y partneriaid, gan gydnabod bod partneriaeth weithio gref yn digwydd."*

Caiff pedwerydd Adroddiad Blynyddol y Cynllun Lles ei gyflwyno i'r Pwyllgor Craffu ar 5 Hydref 2022 i'w galluogi i graffu ar waith Casnewydd yn Un yn llawn.

Er mwyn cefnogi'r broses graffu, cyhoeddodd Swyddfa'r Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Fframwaith Craffu Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r fframwaith hwn yn cefnogi penderfyniadau a chraffu ac yn gyfres o sbardunau a allai helpu unrhyw un sy'n awyddus i ofyn cwestiynau am sut mae penderfyniad wedi'i wneud. Wrth i ni barhau i weithio gyda'r pwyllgor craffu byddwn yn defnyddio'r fframwaith fel adnodd ar gyfer herio'n briodol a gwella'n barhaus.

Bydd pwyllgor craffu rhanbarthol yn cael ei sefydlu i graffu ar waith BGC Gwent a Chynllun Lles Gwent.

## Rhagor o wybodaeth

Datblygwyd nifer o ddogfennau ategol fel a ganlyn:

Community Well-being Profile (Gwent Local Well-being Assessment)

Cynllun Lles Casnewydd 2018-23

Fideo wedi ei animeiddio ar Les

Dewis Blaenoriaethau sy'n Dod i'r Amlwg

Dadansoddiad o Ymatebion (RA1) – Deall Canlyniadau

Dadansoddiad o Ymatebion (RA2)  - Cysylltu Ymyriadau â Chanlyniadau

Cynllun Lles (Crynodeb hawdd ei ddarllen) – drafft

Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles 2018-19

Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles 2019-20 – pdf / Microsoft Sway

Adroddiad Blynyddol Cynllun Lles 2020-21 – pdf / Microsoft Sway

For further information about One Newport, the Local Well-being Plan or partnership arrangements in the city please visit our website at www.newport.gov.uk/oneNewport.

## Manylion Cyswllt

Tîm Polisi, Partneriaeth ac Ymglymiad Casnewydd yn Un

Cyngor Dinas Casnewydd

Canolfan Ddinesig

Casnewydd NP20 4UR

Ffôn: (01633) 656656

E-bost: one.newport@newport.gov.uk

Twitter: @OneNewport

Instagram: OneNewport